



Parciau, gerddi a mynwentydd anesyddol:
cefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd

Adroddiad Terfynol

Gorffennaf 2026

Awduron yr adroddiad:
Bramhill Design and Sarah Rutherford Historic Environment Ltd

Clawr blaen:
NT22MDUR Difrod ar ôl Storm Eunice yn Stourhead, Wiltshire
© National Trust Images/John Millar

Barn yr awdur(on) yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad ymchwil hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Cronfa Treftadaeth Lloegr Genedlaethol a Historic England. Er eu bod yn destun sicrhau ansawdd mewnol, nid yw adroddiadau ymchwil fel arfer yn cael eu hadolygu'n allanol.

Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	5
1.1	Y briff	5
1.2	Allbynnau a strwythur yr adroddiad	6
1.3	Talfyriadau a diffiniadau ¹	6
1.4	Tîm yr astudiaeth a chydabyddiaethau	7
2	Methodoleg	5
2.1	Adolygiad llenyddiaeth	5
2.2	Cyfweliadau â rhanddeiliaid	5
2.3	Dadansoddi'r holiaduron ar-lein	7
2.4	Dadansoddi ac adrodd	8
3	Adolygiad Llenyddiaeth	9
3.1	Ffynonellau perthnasol allweddol	9
3.2	Bylchau allweddol a themâu ar goll	11
3.3	Crynodeb	11
4	Cyfweliadau â Rhanddeiliaid	13
4.1	Dealltwriaeth o newid hinsawdd a'i effeithiau	13
4.2	Cynllunio strategol a newid hinsawdd	17
4.3	Blaenoriaethu camau rheoli mewn perthynas â newid hinsawdd	20
4.4	Ffynonellau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad defnyddiol	29
5	Arolwg Ar-lein.....	35
5.1	Dealltwriaeth o newid hinsawdd ac arsylwadau	35
5.2	Strategaeth a newid hinsawdd	37
5.3	Camau rheoli a newid hinsawdd	38
5.4	Cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar newid hinsawdd	40
6	Arfarniad	43
6.1	Dull dadansoddi	43
6.2	Amcanion yr astudiaeth a'r canfyddiadau allweddol.....	43
6.3	Mae pob PGMH mewn perygl	49
6.4	Cryfderau, gwendidau, bygythiadau a chyfleoedd.....	51

7	Argymhellion	55
7.1	Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad	56
7.2	Ariannu.....	57
7.3	Cyfathrebu.....	60
7.4	Cydlynu ar draws y DU	61
7.5	Gwaith pellach.....	62

Atodiad 1: Cwestiynau rhanddeiliaid

Atodiad 2: Holiadur ar-lein

Atodiad 3: Rhestr o safleoedd a gymerodd ran

1 Cyflwyniad

1.1 Y brîff

Comisiynwyd yr arolwg a'r adroddiad hwn ym mis Rhagfyr 2025 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Historic England.

Pwrpas yr astudiaeth yw deall sut mae parciau, gerddi a mynwentydd hanesyddol dynodedig ar draws y DU yn cael eu cynnal a chadw a'u rheoli mewn ymateb i newid hinsawdd, trwy adolygiad llenyddiaeth, cyfweliadau â rhanddeiliaid ac ymchwil ar-lein. Parc, gardd neu fynwent hanesyddol dynodedig yw un sydd wedi'i asesu fel bod o werth hanesyddol arbennig gan yr asiantaeth dreftadaeth berthnasol yn y DU, ac sydd wedi'i restru ar gofrestr neu rhestr eiddo treftadaeth. Mae tua 2,800 o safleoedd o'r fath yn y DU.

Mae parciau, gerddi a mynwentydd hanesyddol yn derm a ddefnyddir at ddibenion yr adroddiad hwn; mae'r cofrestrau a'r rhestrau eiddo cenedlaethol hefyd yn cynnwys mathau eraill o dirweddau dyluniedig, y gall yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn fod yn berthnasol iddynt hwy hefyd.

Mae newid hinsawdd sy'n cyflymu yn rhoi perchnogion a rheolwyr parciau, gerddi a mynwentydd hanesyddol ar y rheng flaen, ond credir bod llawer wedi'u paratoi'n wael. Er bod sefydliadau mwy o ran maint gyda digon o adnoddau'n cymryd rhan yn weithredol wrth liniaru ac addasu, mae llawer o safleoedd eraill, yn enwedig safleoedd bach a reolir yn breifat neu gan ymddiriedolaethau bach, yn brin o fynediad cymharol at arbenigedd ac adnoddau, ac felly gallant fod mewn mwy o berygl.

Mae amcanion y gwaith hwn fel a ganlyn:

- deall yn well sut mae gerddi a demenau hanesyddol yn ymateb i heriau newid hinsawdd, gan roi mewnwelediad i'r raddfa a'r angen
- nodi lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid o'r offer a'r adnoddau sydd eisoes ar gael a'r hyn y maent eisoes yn ei ddefnyddio
- deall sut mae rheolwyr yn nodi ac yn asesu risgiau a bygythiadau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, a pha heriau a/neu rwystrau y maent yn eu hwynebu
- nodi pa ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth reoli a chynnal a chadw'r lleoedd hyn a sut mae'r ffactorau hyn yn cael eu blaenoriaethu gyda'r nod o ddeall yn well a oes cydbwysedd rhwng arwyddocâd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol
- nodi anghenion, cyfleoedd, risgiau a'r galw posibl am gyngor, offer a chefnogaeth
- datblygu argymhellion i helpu arwain ymateb strategol y sector

Ni fwriedir i hwn fod yn ymchwiliad i 'gyflwr y genedl', ond yn hytrach 'cipolwg' ar y sefyllfa bresennol a'r problemau a wyneb, er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch cyfeiriad ac adnoddau. Bydd y gwaith yn llywio map llwybr i gyrff fel y Gronfa Treftadaeth, Historic England, ac eraill helpu parciau, gerddi a mynwentydd hanesyddol y DU i addasu i newid hinsawdd, gan warchod a chynnal eu gwerthoedd treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio ar unwaith i lywio cynllun cyflwyno 2026-2029 y Gronfa Treftadaeth.

1.2 Allbynnau a strwythur yr adroddiad

Mae'r astudiaeth yn cynnwys y cydrannau canlynol:

- adolygiad llenyddiaeth (Pennod 3) - adolygiad cyflym i hysbysu'r tîm astudio pa wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i reolwyr safleoedd, ac i nodi bylchau yn yr arweiniad
- cyfweliadau â rhanddeiliaid (Pennod 4) - datblygu holiadur (gweler Atodiad 1), cyfweliadau â rhanddeiliaid, nodiadau o bob cyfweliad a chrynodeb o'r canfyddiadau cyffredinol
- arolwg ar-lein (Pennod 5) - arolwg ar-lein (gweler Atodiad 2) sy'n dilyn yr un strwythur a phynciau â'r cyfweliadau â rhanddeiliaid i ehangu maint a chyrhaeddiad y sampl
- dadansoddi a gwerthuso (Pennod 6)
- argymhellion (Pennod 7)
- adroddiad terfynol

Mae trosolwg o sut yr ymdriniwyd â'r prosiect wedi'i gynnwys ym Mhennod 2 – methodoleg. Mae rhestr o'r safleoedd a gymerodd ran wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

1.3 Talfyriadau a diffiniadau ¹

Drwy gydol yr adroddiad, mae parciau, gerddi a mynwentydd hanesyddol wedi cael eu talfyrru i PGMH.

Cyfeirir at Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol drwyddi draw fel y Gronfa Treftadaeth.

Nodir isod y diffiniadau o gynllun cadwraeth, cynllun rheoli, arwyddocâd treftadaeth a chydnertheddd hinsawdd a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

Mae terminoleg y sector treftadaeth yn gweddu i arweiniad y Gronfa Treftadaeth a Historic England. Yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae amrywiadau yn y dull, gan gynhyrchu dogfennau â theitlau gwahanol sy'n cyflawni'r un dibenion, neu ddibenion tebyg. Mae llawer o gynnwys y ddogfen hon yn adrodd yr hyn a ddywedodd rheolwyr safle / prif arddwyr mewn sgysiau, ac nid yw pawb yn defnyddio'r un derminoleg sector treftadaeth yn yr un ffordd. Mae'r awduron wedi ceisio cynnal cydbwysedd rhwng adrodd yn ffyddlon ar gynnwys gwirioneddol sgysiau a pharchu'r angen am ddefnyddio terminoleg yn gywir er eglurder.

Cynllun cadwraeth: dogfen strategol sy'n nodi hanes, gwerthoedd treftadaeth ac arwyddocâd safle, yn nodi problemau, bygythiadau a chyfleoedd, ac yn manylu ar y polisïau sydd eu hangen i warchod a diogelu'r arwyddocâd hwnnw dros amser.

Mae cynlluniau cadwraeth yn cael eu llywio gan arolygon manwl ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, wedi'u teilwra i anghenion y safle unigol, a dylent gynnwys gwybodaeth am yr holl wahanol fathau o dreftadaeth ar safle.

Cynllun rheoli (neu gynllun rheoli a chynnal a chadw): dogfen strategol sy'n nodi'r sefyllfa reoli bresennol, yn nodi nodau ac amcanion, ac yn manylu ar sut y caiff y rhain eu cyflwyno trwy gynllun gweithredu. Gan rychwantu o leiaf deng mlynedd fel arfer, gall y cynllun gynnwys amserlenni rheoli a chynnal a chadw ar gyfer gwaith neu weithgareddau a dylai gynnwys dull o fesur cynnydd.

Ar gyfer ased treftadaeth fel PGMH, dylai gael ei lywio gan y dadansoddiad a'r polisïau yn y cynllun cadwraeth, os yw un ar gael, neu fel arall amlinellu arwyddocâd a pholisïau rheoli a chynnal a chadw er mwyn gwarchod, amddiffyn, rheoli a chynnal a chadw safle a'i arwyddocâd dros amser.

Arwyddocâd treftadaeth: gwerth cyfunol ased treftadaeth i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol oherwydd ei ddiddordeb treftadaeth, sy'n cynnwys agweddau diwylliannol a naturiol/ecolegol o arwyddocâd sy'n gysylltiedig â gwerthoedd cyfannol seiliedig ar le.

Mae arwyddocâd yn derm cyfunol am swm yr holl werthoedd treftadaeth sy'n gysylltiedig â lle. Gan ddibynnu ar y dull, gellir grwpio'r rhain yn bedwar categori o werth tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol, neu eu disgrifio o ran diddordeb hanesyddol, pensaernïol, artistig neu archeolegol. Dylid ystyried y cyfraniad y mae lleoliad y safle'n ei wneud at ei arwyddocâd.

Cydnherthedd hinsawdd: Mae cydnherthedd hinsawdd yn cyfeirio at allu systemau, gan gynnwys cymunedau, seilwaith, ecosystemau ac economïau i ddarogan, gwrthsefyll, cymathu, addasu i, ac adfer o, effeithiau peryglon sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term yn benodol mewn perthynas â PGMH, a deallir ei fod yn cwmpasu staff, rheolwyr a systemau rheoli'r safle; nodweddion a seilwaith y safle; yr amgylchedd naturiol o fewn y safle (ac weithiau gerllaw'r safle, fel yn achos materion dalgylch dŵr); ac economeg rheoli PGMH, gan gynnwys, os yw safle ar agor i'r cyhoedd, rheoli ymwelwyr ac ymgysylltu. Defnyddir y term i gyfeirio at gydnerthedd o ran galluogi cadwraeth o arwyddocâd treftadaeth cyffredinol a chofleidio pob un o'r gwahanol elfennau sy'n ffurfio PGMH - garddwriaeth, coedyddiaeth, ecoleg, tirwedd, hydroleg, seilwaith, ac agweddau gweithredol.

Mae system sy'n gydnerth i'r hinsawdd yn ymateb yn amserol ac yn effeithlon, gan gynnwys drwy warchod ac adfer ei strwythurau a'i swyddogaethau hanfodol. Ar gyfer PGMH, bydd cydnherthedd hinsawdd da'n lleihau effeithiau newid hinsawdd ar y safle; yn cryfhau'r gallu i addasu; yn galluogi amserau adfer byrrach ar ôl digwyddiadau eithafol; ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd aflonyddwch yn arwain at golli gwerth hanesyddol ac arwyddocâd treftadaeth yn barhaol.

1.4 Tîm yr astudiaeth a chydabyddiaethau

Mae tîm yr astudiaeth yn cynnwys Drew Bennellick, Arweinydd Prosiect, Cronfa Treftadaeth; Erika Diaz Petersen a Gemma Woodfall, Historic England; a'r ymgynghorwyr Paul Bramhill ac Ellen Bramhill, Bramhill Design; Dr Sarah Rutherford, Sarah Rutherford Historic Environment Ltd; a Claire Thirlwall, Thirlwall Associates.

Diolchwn i'r holl brif arddwyr, rheolwyr safleoedd, perchnogion a churaduron a wirfoddolodd i gymryd rhan yn y cyfweiliadau, ar fyr rybudd, ac a roddodd o'u hamser yn hael. Diolch hefyd i'r rhai a rodd o'u hamser i gwblhau'r holiadur ar-lein. Hebddoch chi, ni fyddai unrhyw allbwn: gwerthfawrogir eich amser a'ch cyfraniadau adeiladol yn fawr iawn.

¹ Diffiniadau, egwyddorion ac arweiniad:

- [Canllaw arfer da cynllunio cadwraeth | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](https://www.heritagefund.org.uk/cy/publications/canllaw-cynllunio-cadwraeth) : <https://www.heritagefund.org.uk/cy/publications/canllaw-cynllunio-cadwraeth>
- [Canllaw arfer da cynllun rheoli a chynnal a chadw, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](https://www.heritagefund.org.uk/cy/good-practice-guidance/management-and-maintenance-plan-guidance-landscapes-parks-and-gardens): <https://www.heritagefund.org.uk/cy/good-practice-guidance/management-and-maintenance-plan-guidance-landscapes-parks-and-gardens>
- [Conservation Principles, Policies and Guidance | Historic England](https://historicengland.org.uk/advice/constructive-conservation/conservation-principles): <https://historicengland.org.uk/advice/constructive-conservation/conservation-principles>
- Maintenance, Repair and Conservation Management Plans for Historic Parks and Gardens, Historic England: <https://historicengland.org.uk/advice/technical-advice/parks-gardens-and-landscapes/maintenance-repair-and-conservation-management-plans-for-historic-parks-and-gardens/>
- [Egwyddorion Cadwraeth | Cadw](https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth/egwyddorion-cadwraeth): <https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth/egwyddorion-cadwraeth>
- Cynlluniau Rheoli Cadwraeth, Cadw: <https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/gofalu-am-eich-heneb-gofrestredig#section-cynllun-rheoli-cadwraethol>
- Rheoli newidiadau i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, Cadw: <https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/parciau-a-gerddi-hanesyddol-cofrestredig/rheoli-parciau-a>
- [Managing Change in the Historic Environment: Gardens and Designed Landscapes | Historic Environment Scotland](https://www.historicenvironment.scot/publications/all/publication/?publicationId=83214207-c4e7-4f80-af87-a678009820b9): <https://www.historicenvironment.scot/publications/all/publication/?publicationId=83214207-c4e7-4f80-af87-a678009820b9>
- Climate resilient pathways: <https://www.ipcc.ch/report/ar6/wg2/chapter/chapter-18/>
- The Climate Dictionary, United Nations Development Plan 2023: <https://www.un.org/climatesecuritymechanism/en/climate-dictionary>

2 Methodoleg

Comisiynwyd yr astudiaeth ym mis Rhagfyr 2025, pan ddechreuodd yr adolygiad llenyddiaeth; Dechreuodd y prosiect yn llawn ym mis Ionawr 2026, gyda tharged cwblhau o fis Mawrth 2026 gyda'r adroddiad terfynol erbyn mis Mai 2026.

Nododd y briff bedwar maes gwaith ar wahân:

- adolygiad llenyddiaeth i archwilio gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd
- cyfweiliadau rhanddeiliaid gyda rheolwyr safleoedd neu brif arddwyr i archwilio effeithiau newid hinsawdd ar safleoedd unigol yn fanwl a pha gefnogaeth fyddai fwyaf gwerthfawr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf
- holiadur ar-lein i ehangu'r arolwg
- dadansoddi ac adrodd, gan ddod â'r canfyddiadau ynghyd a llywio argymhellion i'r cleientiaid

2.1 Adolygiad llenyddiaeth

Ymgymeryd â'r adolygiad llenyddiaeth gan Dr Sarah Rutherford ac roedd yn ei le i raddau helaeth i lywio'r cyfarfod dechrau arni. Y bwriad oedd nodi themâu ar goll neu fylchau gwybodaeth tybiedig, yn ogystal â nodi llyfryddiaeth o'r deunyddiau presennol sydd ar gael. Cafodd y ddogfen ei 'gadael ar agor' rhag ofn y byddai ffynonellau allweddol pellach yn cael eu nodi yn ystod gweddill y prosiect. Crynhoir y canfyddiadau ym Mhennod 3.

2.2 Cyfweiliadau â rhanddeiliaid

Rhagwelwyd y byddai modd cyflawni tua 20 o gyfweiliadau o fewn amserlen y prosiect.

Datblygwyd strategaeth ar gyfer dewis y PGMH y byddem yn cysylltu â nhw i gymryd rhan yn y cyfweiliadau â rhanddeiliaid.

Archwiliwyd amrywiaeth o fapiau DU gyfan sy'n diffinio gwahanol ranbarthau hinsawdd. Dewiswyd map symlach a ddatblygwyd o ddata'r Swyddfa Dywydd, sy'n darparu ranbarthau hinsoddol eang, fel yr un mwyaf addas at ddibenion yr astudiaeth hon (gweler Ffigur 2.1). Mae'n caniatáu meintiau sampl y gellir eu cyflawni ym mhob ranbarth. Mae'n disgrifio pedwar ranbarth hinsawdd eang:

- y gogledd-orllewin, sy'n cynnwys gorllewin Yr Alban, Gogledd Iwerddon a gogledd-orllewin Lloegr i'r gogledd o'r Merswy
- y gogledd-ddwyrain, sy'n cynnwys dwyrain Yr Alban a gogledd-ddwyrain Lloegr o dde Swydd Efrog tua'r gogledd
- y de-orllewin, sy'n cynnwys Cymru a Gorllewin Lloegr gyda ffin ddwyreiniol yn dilyn llinell yn fras o Swydd Gaer i Hampshire
- y de-ddwyrain, sy'n cynnwys gweddill Lloegr, gan gwmpasu Dwyrain Anglia, y siroedd cartref a Swydd Gaint



Ffigur 2.1

Yna dewiswyd saith neu wyth PGMH fesul rhanbarth hinsawdd, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o wahanol fathau, meintiau a rheolaeth, ac i archwilio a yw meini prawf penodol yn gysylltiedig yn uniongyrchol â bregusrwydd i newid hinsawdd. Ymhlith y meini prawf a ystyriwyd oedd:

- math ac oedran / cyfnod
- gradd / haen rhestru
- maint
- perchnogaeth, rheolaeth a llywodraethu; er enghraifft, sefydliad preifat, cyhoeddus, anllywodraethol, ymddiriedolaeth

Yna datblygwyd cwestiynau cyfweiliad ar gyfer cyfweld â'r rhanddeiliaid, gan gwmpasu pedwar prif faes ymholi, sef:

- Beth yw eu dealltwriaeth o newid hinsawdd a pha effeithiau y mae rheolwyr wedi'u harsylwi y byddent yn eu priodoli i newid hinsawdd?
- Sut mae rheolwyr yn mynd i'r afael yn strategol ag arwyddocâd treftadaeth eu safle mewn perthynas â newid hinsawdd ac a ydynt wedi mabwysiadu unrhyw fath o asesiad o risgiau hinsawdd?
- Sut mae rheolwyr yn ymateb i newid ac yn blaenoriaethu camau gweithredu mewn perthynas â newid hinsawdd; a pha gyfyngiadau i'w camau gweithredu neu gyfleoedd ar eu cyfer y maent yn eu profi?
- Sut mae rheolwyr yn dod o hyd i wybodaeth am newid hinsawdd, a beth fyddai o'r cymorth mwyaf iddynt dros y 12 mis nesaf neu fwy, i'w helpu i ymateb yn well i'r heriau? Yn benodol, beth allai sefydliadau fel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Historic England ei wneud yn fwyaf defnyddiol i'w cefnogi?

Treialwyd y cwestiynau gyda dau safle ddechrau mis Chwefror 2026, cawsant eu mireinio ac yna eu defnyddio ar gyfer yr holl gyfweiliadau dilynol.

Gwnaed ymdrech sylweddol i gysylltu â phrif arddwyr, perchnogion a rheolwyr, trwy rwydweithiau personol, cysylltiadau proffesiynol ac ymchwil ar y rhyngrwyd. Cytunodd tua hanner y safleoedd y cysylltwyd â nhw, 23, i gymryd rhan.

Roedd y sampl cyfweiliadau'n cynnwys rhanddeiliaid o gymysgedd amrywiol o PGMH, gan rychwantu perchnogaeth breifat, ymddiriedolaethau, elusennau a chyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol, a chyrff cyhoeddus sy'n cynrychioli safleoedd o amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae canfyddiadau'r cyfweiliadau wedi'u nodi ym Mhennod 4.

2.3 Dadansoddi'r holiaduron ar-lein

Gan ddilyn yr un strwythur â chwestiynau'r cyfweiliad, datblygwyd set fwy penodol o gwestiynau ar gyfer yr holiadur ar-lein. Bwriadwyd i hyn ehangu cwrpas yr astudiaeth a rhoi mewnwelediad ehangach i faterion newid hinsawdd mewn PGMH eraill ar draws y DU. Lletywyd yr arolwg ar-lein gan Historic England ac roedd ar gael am chwe wythnos.

Hyrwyddodd Cronfa Treftadaeth a Historic England yr arolwg ar-lein yn helaeth i lawer o rwydweithiau a sefydliadau ar draws y sector, a chymaint oedd y cyrhaeddiad y derbyniwyd 79 o ymatebion gan PGMH dynodedig o fewn cyfnod byr iawn.

Tynnodd Historic England y data o'r arolwg. Allforiwyd data'r arolwg gan ddefnyddio offer mewnol Smart Survey, a all greu graffiau a thablau o'r ymatebion ar-lein. Darparwyd hyn i'r ymgynghorwyr i'w ddadansoddi. Mae canlyniadau'r arolwg ar-lein wedi'u nodi ym Mhennod 5.

2.4 Dadansoddi ac adrodd

Crynowyd canlyniadau'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid ac ymatebion i'r arolwg ar-lein. Ceisiodd y dadansoddiad nodi tueddiadau ar draws yr amrywiol atebion, trwy gymharu a chroesgyfeirio ymatebion, a chwilio am nodweddion cyffredin a gwahaniaethau ar draws is-setiau'r meini prawf.

Dechreuodd y broses ddadansoddi gyda'r cyfweilwyr yn trafod eu canfyddiadau ac yn rhestru'r edafedd cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r sgysiau. Yna defnyddiwyd cyfrifiadau data a chwiliadau i brofi a chadarnhau canfyddiadau a sicrhau nad oedd unrhyw beth o bwys wedi'i anwybyddu.

Archwiliwyd y canlyniadau gyda'r nod o ddwyn gwybodaeth berthnasol ynghyd, archwilio ffactorau dylanwadol, ac archwilio goblygiadau mewn perthynas â phob un o amcanion yr astudiaeth ar wahân. Trafodwyd syniadau ar gyfer ymyriadau hefyd, yn enwedig lle nodwyd y rhain gan randdeiliaid.

Crynowyd a chyflwynwyd canfyddiadau allweddol mewn ymarfer a ystyriodd y cryfderau, y gwendidau, y bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n wynebu PGMH, gan archwilio:

- cryfderau'n dod i'r amlwg sydd eisoes i'w gweld yn ymateb y sector i broblemau presennol
- amrywiaeth o wendidau a nodwyd ar draws y sector
- rhai bygythiadau i ddyfodol PGMH os nad ymdrinnir â materion newid hinsawdd yn amserol ac yn gyfannol
- cyfleoedd a gynigir drwy ymateb i heriau niferus newid hinsawdd

Nodir dadansoddiad o'r cyfweiliadau a'r arolwg ar-lein ym Mhennod 6.

Mae'r adroddiad hwn yn gorffen gyda set o argymhellion a ddatblygwyd i ymateb i ganfyddiadau'r astudiaeth, yn benodol y problemau a'r anghenion a godwyd yn y cyfweiliadau a'r arolwg ar-lein; blaenoriaethau a nodwyd gan randdeiliaid, a chyfleoedd a nodwyd drwy'r broses ddadansoddi. Nodir yr argymhellion ym Mhennod 7.

3 Adolygiad Llenyddiaeth

Canfu'r adolygiad llenyddiaeth fod cyngor ar newid hinsawdd sy'n berthnasol i PGMH yn bodoli, ond ei fod wedi'i wasgaru ar draws sectorau a'i gyflwyno ar lefelau anghyson o fanylder.

Yn bennaf, mae'r sail dystiolaeth yn cynnwys:

- maint sylweddol o ddatganiadau polisi a safbwynt strategol (yn enwedig gan gyrrff y sector, yn aml wedi'u cyhoeddi rhwng 2000 a 2015)
- nifer o becynnau cymorth a nodiadau arweiniad generig y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau ar gyfer PGMH
- nifer fach o becynnau cymorth a nodiadau a sy'n llywio'n uniongyrchol y broses o wneud penderfyniadau'n benodol ar gyfer PGMH

Yn gyffredinol, mae dogfennau polisi strategol yn mynegi bwriad sefydliadol ac amcanion lefel uchel, ond nid ydynt yn trosi'n gyson yn arweiniad manwl ar gyfer yr ystod lawn o ddisgyblaethau sydd wedi'u hymwreiddio mewn rheolaeth PGMH.

Ochr yn ochr â hynny, mae nifer o becynnau cymorth generig yn bodoli (gan gynnwys rhai gan lywodraeth a chyrff cysylltiedig) i gefnogi asesiadau o risgiau hinsawdd a nodi camau addasu. Fodd bynnag, mae'r rhain fel arfer yn gofyn am farn broffesiynol arbenigol i'w teilwra i gyfyngiadau gwneud penderfyniadau ar sail arwyddocâd sy'n ofynnol ar gyfer PGMH. Mae rhywfaint o arweiniad manylach ar gael ar ddulliau amgen a'u heffeithiolrwydd sydd wedi'u hanelu'n benodol at PGMH ond maent yn dameidiog ac nid ydynt yn cwmpasu'r ystod lawn o baramedrau y mae angen i reolwyr eu hystyried.

3.1 Ffynonellau perthnasol allweddol

Roedd nifer fach o ffynonellau yn sefyll allan fel rhai o werth cymharol dda i reolwyr PGMH oherwydd eu bod naill ai'n darparu cefnogaeth strwythuredig i benderfyniadau neu'n mynd i'r afael â chydrannau PGMH penodol mewn termau gweithredol. Roedd y deunyddiau mwyaf perthnasol wedi'u dosbarthu ar draws y cyrff canlynol:

- Historic Environment Scotland: canllaw effeithiau hinsawdd amgylchedd hanesyddol gyda dull matrices yn cynnwys fframwaith asesu sy'n cyfeirio'n benodol at PGMH, ochr yn ochr â mathau eraill o asedau (er enghraifft adeiladau ac archaeoleg)

Dyma'r enghraifft agosaf yn yr adolygiad hwn i offeryn cefnogi penderfyniadau cam wrth gam ar gyfer ymatebion a arweinir gan arwyddocâd, ond byddai'n elwa o ymdriniaeth ehangach a mwy o ddyfnder ar arddwriaeth a chyflwyno'n weithredol o ddydd i ddydd.

- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: cyfres esblygol o nodiadau arweiniad seiliedig ar gydrannau (wedi'u cyhoeddi'n iteraidd) sy'n ymdrin â nodweddion penodol gerddi a thirweddau (er enghraifft nodweddion dŵr, lawntiau / llwybrau glaswellt, coed, planhigion wedi'u tyfu, gerddi rhosod), ynghyd â phynciau cysylltiedig (er

enghraifft tanau gwyllt, gwaith maen / adfeilion heb do)

Mae'r rhain yn ymarferol ac yn hygyrch, er bod y pwyslais yn amrywio yn ôl pwnc, a gallant flaenoriaethu profiad ymwelwyr dros benderfyniadau cadwraeth penodol.

- Natural England: Climate Change Adaptation Manual (NE751), yn enwedig Rhan 2 Adran 6 ar borfa goediog a pharcdir

Mae hyn yn darparu llwybrau effaith ac ymatebion addasu sy'n uniongyrchol berthnasol i systemau parcdir (gan gynnwys coed hynafol a chynefinoedd cysylltiedig) ac yn llenwi bwlch sylweddol gan fod ychydig o ffynonellau eraill yn y DU yn cynnig arweiniad cymharol.

Mae penodau pellach yn y gyfres o ddogfennau'n ymdrin â chynefinoedd a bywyd gwyllt eraill a geir fel arfer mewn PGMH ond nid ydynt wedi'u hanelu'n benodol at faterion amgylchedd hanesyddol.

- Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew: allbynnau ymchwil a deunydd cynghorol ynghylch effeithiau hinsawdd ar gasgliadau planhigion a rhywogaethau coediog, gan gynnwys gwaith sy'n llywio dewis coed gwydn (yn enwedig ar gyfer Llundain a de-ddwyrain Lloegr)

Mae'r dystiolaeth hon yn werthfawr o ran dewis rhywogaethau a chynllunio olyniaeth ond mae wedi'i hanelu'n benodol at amodau yn y de-ddwyrain a heb gael ei fframio o amgylch arwyddocâd treftadaeth na chymeriad tirwedd hanesyddol.

- Comisiwn Coedwigaeth ac Ymchwil Coedwigaeth: arweiniad ar addasu rheolaeth coetiroedd ac offer ar gyfer asesu addasrwydd rhywogaethau coed a'u dewis o dan hinsoddau'r dyfodol

Mae hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar gydnerthedd ond nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r gofyniad a arweinir gan dreftadaeth i gynnal (neu ysgogi) cymeriad tirwedd hanesyddol pan fydd angen amnewid.

Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau hyn yn darparu rhai adnoddau defnyddiol; fodd bynnag, maent yn dameidiog o ran fformat a therminoleg ac, o ran PGMH, nid ydynt yn gynhwysfawr eu cwmpas. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr drosi rhwng ystyriaethau amgylchedd hanesyddol, fel gwerth hanesyddol, cynllunio cadwraeth, a bregusrwydd ffabrig; ac ystyriaethau coedwrol/coedwigaeth a'r amgylchedd naturiol, megis gwydnwch rhywogaethau, cynefinoedd, priddoedd a hydroleg. Ar hyn o bryd mae cymhwyso'r arweiniad yn fater, i raddau helaeth, i bob PGMH unigol, sy'n debygol o gynyddu'r llwyth gwaith, codi'r trothwy ar gyfer ei ddefnyddio, a chreu anghysondeb yn y ffordd y mae risgiau a chyfaddawdau'n cael eu gwerthuso ar draws y sector.

3.2 Bylchau allweddol a themâu ar goll

Er gwaethaf y pecynnau cymorth, arweiniad ac adnoddau amrywiol sydd ar gael, nad ydynt yn benodol i PGMH, canfu'r adolygiad absenoldeb cyffredinol arweiniad cydlynol, hygyrch, DU gyfan, yn yr un lle, sy'n mynd â rheolwr PGMH o ddeall peryglon hinsawdd hyd at gamau blaenoriaethol, y gellir eu hariannu sy'n amddiffyn arwyddocâd (neu'n ei addasu'n ymwybodol). Mae bylchau penodol a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- asesiad risg safle cyfan yn seiliedig ar arwyddocâd - dulliau ymarferol o asesu effeithiau hinsawdd a risgiau cysylltiedig ar draws pob arwyddocâd ffabrig, cymeriad a threftadaeth PGMH (nid cydrannau unigol fel coed neu gynefinoedd yn unig)
- gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu - arweiniad ar ddewis polisi priodol ac ymatebion ymarferol, gan gynnwys sut i gydbwysu cadw treftadaeth
- gwerthoedd, adferiad byd natur, diogelwch, disgwyliadau ymwelwyr, cost, a chynladwyedd hirdymor, ac i ba raddau y mae addasiadau'n dderbyniol, yn enwedig i'r asiantaethau treftadaeth, cyn bod arwyddocâd treftadaeth yn cael ei gyfaddawdu
- lliniaru ochr yn ochr ag addasu - arweiniad ymarferol ar leihau effeithiau carbon sy'n deillio o weithrediadau PGMH (er enghraifft, tyfu â gwres, peiriannau, adeiladau), wedi'u halinio â chyfyngiadau treftadaeth cyfleoedd lliniaru sy'n seiliedig ar natur - atgyfeirio cliriach i gyfleoedd fel dal a storio carbon, rheoli dŵr a lleihau llifogydd, ac atebion eraill sy'n seiliedig ar natur sy'n gydnaws ag arwyddocâd tirwedd ddyluniedig

At hynny, mae cydbwysedd y deunydd sydd ar gael yn tueddu i ffafrio naill ai garddio cyffredinol a garddwriaeth amwynderau; coetiroedd a choed; yr amgylchedd naturiol; neu adeiladau treftadaeth ac archaeoleg, ac mae cymharol ychydig sy'n ymdrin yn uniongyrchol ag is-setiau o PGMH yn enwedig parcdiroedd hanesyddol, parciau cyhoeddus, a mynwentydd fel tirweddau gweithredol. Pan fydd cynnwys perthnasol yn bodoli, anaml y caiff ei gyflwyno mewn ffordd integredig sy'n adlewyrchu sut mae'r lleoedd hyn yn cael eu cynllunio, eu hariannu a'u rheoli'n ymarferol.

3.3 Crynodeb

Yn gyffredinol, mae'r adolygiad yn dangos angen clir am gydgyrnhoi ac am gyfres unedig o arweiniad ac offer ar gyfer y DU, wedi'u hanelu'n benodol at bob math o PGMH sy'n:

- fframio addasu i'r hinsawdd drwy gynllunio cadwraeth a arweinir gan arwyddocâd
- ymarferol ar gyfer rheolwyr ar draws ystod o alluoedd sefydliadol
- integreiddio garddwriaeth, coedyddiaeth a rheoli coetiroedd, archaeoleg, cynefinoedd, rheoli parciau, hydroleg, rheoli ymwelwyr a ffabrig adeiledig o fewn un llwybr penderfynu.

Mae'r adnoddau gorau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig dull strwythuredig Historic Environment Scotland, arweiniad cydrannol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a Natural England ar barcdiroedd, yn cynnig manau cychwyn cryfion, ond mae angen eu hehangu a'u cysoni ac mae angen iddynt gyfeirio'n gliriach at hyfforddiant, enghreifftiau arfer da a chymorth arbenigol er mwyn lleihau dyblygu ymdrech a galluogi penderfyniadau addasu i'r hinsawdd cyson y mae modd eu cyfiawnhau ar draws y sector PGMH.

4 Cyfweliadau â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda rheolwyr 23 o safleoedd, yn cynrychioli dosbarthiad rhesymol o amgylch y pedwar rhanbarth hinsawdd:

- De-ddwyrain 9 safle
- Gogledd-ddwyrain 3 safle
- Gogledd-orllewin 6 safle
- De-orllewin 5 safle

Cynrychiolir amrywiaeth o wahanol fathau o berchnogaeth, sef safleoedd sy'n eiddo preifat neu i ymddiriedolaethau; safleoedd sy'n eiddo i gyrff anllywodraethol mawr neu sefydliadau elusenol fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu English Heritage Trust, neu'n cael eu rhedeg ganddynt. Mae'r sampl cyfweliad yn cwmpasu cyfnodau hanesyddol yn amrywio o'r 16^{fed} ganrif i'r 20^{fed} ganrif a meintiau safleoedd yn amrywio o 2ha i 400ha. Cynrychiolir ystod eang o wahanol arddulliau a nodweddion gardd, a gwahanol raddau cofrestru.

Rhoddir cwestiynau'r cyfweliad yn llawn yn Atodiad 1. Canolbwyntiodd y cwestiynau ar bedwar prif faes ymholi (Pennod 2, Methodoleg), y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Dealltwriaeth o newid hinsawdd a'i effeithiau
- Cynllunio strategol ac asesu risgiau mewn perthynas â newid hinsawdd
- Blaenoriaethu camau gweithredu, cyfyngiadau a chyfleoedd rheoli
- Ffynonellau gwybodaeth a chyngor, a pha arweiniad sydd fwyaf defnyddiol

Mae canfyddiadau'r cyfweliadau wedi'u nodi mewn pedair prif adran, isod, mewn perthynas â'r themâu eang hyn. O dan bob prif bennawd, nodir y cwestiynau penodol a ofynnwyd. Yna archwilir yr ystod o ymatebion a dderbyniwyd: mae testun mewn print trwm yn nodi'r pwyntiau allweddol, ac oddi tano mae synthesis o fanylion a gafwyd drwy'r trafodaethau.

4.1 Dealltwriaeth o newid hinsawdd a'i effeithiau

Gofynnwyd dau gwestiwn, i ddeall barn rheolwyr ar newid hinsawdd fel bygythiad dirfodol ac i gael gwybod i ba raddau y mae eisoes wedi effeithio ar y safleoedd y maent yn eu rheoli, os o gwbl:

- Ydych chi'n teimlo bod gennych ddealltwriaeth gyffredinol o effeithiau posibl newid hinsawdd a sut y gallai hyn effeithio ar eich safle?
- A yw newid hinsawdd yn cael effaith ar eich gardd ar hyn o bryd? Er enghraifft - digwyddiadau tywydd eithafol, mwy o lifogydd, sychder, difrod stormydd neu blâu.

4.1.1 Dealltwriaeth gyffredinol o newid hinsawdd

Ceir ymwybyddiaeth ymarferol gref o newid hinsawdd, yn seiliedig ar arsylwi

Ar draws bron pob safle, mae rheolwyr yn profi newid hinsawdd fel rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu gweithgareddau rheoli o ddydd i ddydd, yn hytrach na risg bell neu haniaethol.

Disgrifir newid hinsawdd yn gyson, nid yn unig fel cynhesu graddol, ond fel mwy o anwadalrwydd ac anrhagweladwyedd, yn enwedig:

- glaw dwysach
- cyfnodau gwlyb hirfaith
- hafau mwy cynnes a sych
- patrymau stormydd newidiol

Mae'r ddealltwriaeth hon yn aml yn seiliedig ar ddegawdau o wybodaeth ac arsylwi ar y safle. Mae nifer o bobl yn cyfeirio'n benodol at gofnodion personol, gyrfaedd hir, neu gof sefydliadol fel sail ar gyfer nodi newid.

Mae pob rhanddeiliad yn cydnabod bod newid hinsawdd yn cael effaith

Mae pob cyfwelai yn cydnabod newid hinsawdd fel rhywbeth real a pherthnasol: mae llawer yn disgrifio effeithiau fel rhai sy'n cael eu gyrru gan yr hinsawdd a dylanwad dynol, er bod lleiafrif yn cydnabod newid hinsawdd ond yn cwestiynu cyflymder ac eithafiaeth y newidiadau. Nid yw un rheolwr yn credu eu bod yn profi effeithiau newid hinsawdd ar eu safle er eu bod yn ymwybodol o effeithiau ar erddi eraill yn eu rhanbarth.

Fodd bynnag, waeth beth fo profiad personol, mae ymddygiad rheoli'n dal i gynnwys mesurau megis newidiadau i blannu; gwaith adfer yn sgil stormydd; a rheoli dŵr.

Mae dealltwriaeth yn tueddu i fod ar ei mwyaf lle mae rhwydweithiau proffesiynol ar eu cryfaf

Dangosodd sgysiau cyfweliadau fod rheolwyr sydd fwyaf gweithredol mewn amrywiaeth o rwydweithiau proffesiynol hefyd i'w gweld yn dangos y ddealltwriaeth fwyaf o newid hinsawdd a'i oblygiadau. Y rheolwyr hynny sy'n defnyddio'r ystod ehangaf o rwydweithiau cymheiriaid a/neu broffesiynol yw'r rhai sy'n mabwysiadu dull llawer mwy strategol hefyd, yn defnyddio amrywiaeth o offer asesu risgiau hinsawdd a chynllunio, ac yn gweithredu mesurau rhagweithiol yn y fan a'r lle.

Y rhwydweithiau a grybwyllir amlaf yw:

- PlantNetwork
- Professional Gardeners Guild
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu Ymddiriedolaeth Genedlaethol Yr Alban
- Botanic Gardens Conservation International

Lle mae rheolwyr yn fwy ynysig, yn gweithio ar ystadau preifat bach a/neu gyda niferoedd staff cyfyngedig, mae'n ymddangos bod dealltwriaeth yn deillio mwy o brofiad unigol ac ymchwil unigol ac mae'r defnydd o rwydweithiau proffesiynol yn fwy cyfyngedig.

4.1.2 Effeithiau newid hinsawdd

Mae ystod eang o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cael eu profi; nodir isod yr effeithiau a godwyd amlaf yn y cyfweliadau.

Glaw sy'n fwy dwys ac anrhagweladwy

Ar draws y pedwar rhanbarth hinsawdd, mae rheolwyr yn disgrifio glaw trymach, yn aml wedi'i grynhoi i gyfnodau byrrach, gan arwain at ystod o broblemau gan gynnwys:

- llifogydd mewn ardaloedd nad ydynt erioed wedi'u cael o'r blaen
- systemau draenio hanesyddol a ddyluniwyd ar gyfer patrymau glaw mwy cyson sy'n cael eu llethu
- tir dan ddŵr am gyfnod hir a phriddoedd dirlawn sy'n atal gwaith arferol
- llwybrau, llethrau a glannau afonydd sy'n cael eu herydu
- graean a phridd yn cael eu golchi i mewn i welyau plannu a chyrrff dŵr

Ystyrir hefyd fod glaw yn anoddach i'w ddarogan a'i reoli, gan gynyddu risg weithredol a phryderon diogelwch ymwelwyr.

Mae amllder a difrifoldeb stormydd yn cynyddu

Mae llawer o randdeiliaid yn adrodd am stormydd amlach a mwy niweidiol, yn aml gyda chyfeiriad gwynt anarferol, gan arwain at golli mwy o goed a chynnydd mewn difrod adeileddol. Mae cyflymder gwynt uwchlaw 50mya, a arferai fod yn gymharol anghyffredin, bellach yn brofiad cyffredin, ac mae stormydd a enwir yn aml yn creu gwyntoedd 80-90mya ar draws y wlad.

O ganlyniad, mae rheolwyr yn profi colledion coed ar raddfa fawr (o ddwsinau mewn gerddi llai i filoedd ar ystadau mawr). Mae coed wedi'u dadwreiddio bellach yn fwy cyffredin oherwydd priddoedd dirlawn. Yn aml, mae safleoedd ar gau er diogelwch y cyhoedd, gan effeithio ar incwm a pherthnasoedd ymwelwyr.

Mae cyfnodau sych yn hirach ac yn fwy difrifol

Mae safleoedd yn profi gwanwynau a hafau cynhesach a sychach, weithiau yn dilyn gaeafau gwlyb iawn. Mae hyn yn creu straen cyfunol ar blanhigion a phriddoedd, sy'n achosi colledion coed a llwyni aeddfed mewn ardaloedd nad ydynt yn hanesyddol yn cael eu hystyried yn agored i sychder. Mae mesurau i frwydro yn erbyn sychder yn rhoi pwysau eithafol ar amser staff i ddyfrio â llaw, gan leihau amser ac adnoddau ar gyfer gwaith garddwriaethol craidd, yn enwedig ar safleoedd sydd â seilwaith dyfrhau cyfyngedig neu annigonol.

Mae'n amlwg o'r ymatebion hefyd nad mater sychder yn unig yw argaeledd dŵr, ond un o amseru, storio a chapasiti seilwaith.

Mae patrymau glaw newidiol yn rhoi straen ar y pridd

Cyfeirir yn aml at effaith gaeafau gwlyb wedi'u dilyn gan hafau sych neu sych iawn ar briddoedd. Mae'r duedd hon yn gwanhau systemau gwreiddiau ac yn lleihau cydnherthedd i sychder diweddarach, mewn cylch sy'n gysylltiedig â dirywiad amlwg a chyflymach mewn plannu strwythurol.

Mae pwysau plâu a chlefydau'n cynyddu

Ar draws pob rhanbarth, profir cynnydd mewn achosion o blâu a chlefydau, a hynny wedi'i ddisgrifio'n aml fel ei fod yn cyflymu neu'n ddi-baid. Mae clefydau ffwngaidd sy'n ffynnu mewn amodau cynhesach a llaith yn cynyddu. Cydnabyddir bellach bod grwpiau cyfan o blanhigion yn cael eu colli, yn enwedig gwrychoedd bocs a genera coed agored i niwed fel ynn, castanwydd melys a derw.

Mae hyn yn mynd yn fwy amlwg wrth i aeafau mwynach fethu â atal plâu a chlefydau, gan arwain at bwysau drwy gydol y flwyddyn.

Terfir ar rythmau tymhorol ac ymddygiad planhigion

Mae colli tymhorau rhagweladwy hefyd yn amlwg. Mae hyn yn tanseilio calendrau ac arferion garddwriaethol traddodiadol, ac ni all planhigion orffwys mwyach, gan arwain at:

- dwf a thorri gwair yn y gaeaf
- coed ffrwythau'n blodeuo yn yr hydref, gan leihau cynhyrchiant yn y gwanwyn
- oeri annigonol yn y gaeaf yn effeithio ar gnydau ffrwythau a phlanhigion addurnol sydd wedi addasu i sbardun oerfel tymhorol
- aneglurder ffiniau rhwng tymhorau torri, tocio a phlannu
- cymhlethdodau wrth gynllunio gwaith er mwyn ymateb i'r uchod

Ni ellir dibynnu ar arwyddion tymhorol sefydledig mwyach, ac mae rheolwyr yn nodi'n gyson bod hyn yn cynyddu blinder a risg wrth wneud penderfyniadau.

Mae seilwaith yn methu ac yn achosi problemau cynnal a chadw

Disgrifir dro ar ôl tro fod seilwaith hanesyddol wedi'i ddylunio ar gyfer hinsawdd nad yw'n bodoli mwyach. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn PGMH sy'n dibynnu ar seilwaith Fictoraidd, fel systemau draenio cynnar sy'n methu o dan ddwystr glaw modern. Mae llawer o safleoedd yn adrodd dro ar ôl tro am lwybrau sy'n cael eu golchi i ffwrdd, yr angen am atgyweiriadau mynych a/neu newidiadau i ddeunyddiau arwyneb i ymdopi â glaw trwm. Ceir symudiad clir i ffwrdd o raeau hunan-rwymol traddodiadol / arwynebau hoggin i raeau wedi'u bondio a tharmac i gynnal amwynder ymwelwyr.

Yn ogystal â'r methiannau seilwaith sylfaenol, adroddodd rheolwyr hefyd fod y fath fethiant yn aml yn sbarduno effeithiau eilaidd, fel symud ymwelwyr i lawntiau a chywasgu pridd o ganlyniad, sydd wedyn yn gofyn am adferiad, gan arwain at waith ychwanegol.

Mae gan newid hinsawdd effeithiau gweithredol a staffio

Mae pwysau o ddydd i ddydd yn dwysáu, gan arwain at lwythi gwaith cynyddol a rheolaeth adweithiol (yn hytrach na chynlluniedig neu ragweithiol). Mae mwy o amser staff yn cael ei ddargyfeirio i ymatebion brys; crybwyllwyd stormydd, llifogydd a brigiadau o achosion o glefydau.

O ganlyniad, mae llai o amser ar gael ar gyfer cynllunio, tasgau cynnal a chadw wedi'u hamserlennu, a hyfforddiant.

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar brofiadau a disgwyliadau ymwelwyr

Mae effeithiau anuniongyrchol ar brofiadau a disgwyliadau ymwelwyr o PGMH hefyd yn gyffredin:

- Gall cau safleoedd yn gynyddol a heb rybudd (er enghraifft, oherwydd tywydd eithafol) arwain at anfodlonrwydd a niwed i enw da.
- Gall ymatebion rheoli addasol i newid hinsawdd greu tensiwn, er enghraifft - gadael glaswellt yn hirach a/neu blannu dolydd, mewn perthynas â disgwyliadau ymwelwyr o 'daclusrwydd'.

Mae'n anodd i rai ymwelwyr gydnabod yr angen am addasu a newid arferion ac ymddangosiad traddodiadol, ac nad yw eu disgwyliadau o ardd hanesyddol, y maent yn talu i ymweld â hi, o bosibl yn gynaliadwy mwyach. Er hynny, mae ymwelwyr eraill yn dangos ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad amgylcheddol cynyddol, gyda chwestiynau am yr hinsawdd, cemegolion a bioamrywiaeth.

4.2 Cynllunio strategol a newid hinsawdd

Mae cynlluniau cadwraeth a chynlluniau rheoli'n ddogfennau penodol i'r safle a ddefnyddir i lywio ac arwain penderfyniadau strategol ar gyfer cadwraeth a rheolaeth gadarn a gwybodus ar PGMH.

Er mwyn archwilio effeithiolrwydd cynlluniau cadwraeth wrth nodi heriau newid hinsawdd a diogelu arwyddocâd rhag effeithiau newid hinsawdd, gofynnwyd pedwar cwestiwn:

- Oes gennych chi gynllun cadwraeth ar gyfer yr ardd? Os felly, ar ba ddyddiad y paratowyd y cynllun?
- A yw eich cynllun cadwraeth yn nodi arwyddocâd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol eich safle?
- A yw eich cynllun cadwraeth yn nodi polisiâu i fynd i'r afael â newid hinsawdd?
- Ydych chi wedi cynnal asesiad o risgiau hinsawdd ar gyfer eich safle?

4.2.1 Cynlluniau cadwraeth

Mae gan y rhan fwyaf o safleoedd, ond nid pob un, gynllun cadwraeth – ac nid yw pob cynllun yn effeithiol

Mae gan dri chwarter o randdeiliaid gynlluniau cadwraeth ar gyfer eu safleoedd, er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu bod treftadaeth yn cael ei diogelu, gan yr adroddir bod mwy na hanner y cynlluniau'n rhai sydd wedi dyddio, yn amwys, neu heb ddylanwad gweithredol.

Lle mae cynlluniau cyfredol a hawdd eu defnyddio'n bodoli, defnyddir arwyddocâd yn weithredol i lywio camau rheoli, gan gynnwys penderfyniadau addasu i'r hinsawdd. Esboniodd chwe rhanddeiliad yn echblyg sut y maent yn defnyddio arwyddocâd treftadaeth i flaenoriaethu ymatebion hinsawdd ac i gyfiawnhau newidiadau anodd.

Fodd bynnag, dywedodd llawer o rai eraill eu bod yn addasu eu safleoedd heb gyfeirio at gynlluniau ffurfiol, gan fod angen iddynt ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid.

Mae dull mwy anffurfiol o wneud penderfyniadau'n gyffredin ymhlith PGMH sy'n eiddo preifat, yn enwedig ar safleoedd llai. Pwysleisiodd rheolwyr safleoedd mawrion mewn dwylo preifat sydd hefyd â dull anffurfiol o reoli, fanteision hyblygrwydd yr hyn o beth o gymharu â dull wedi'i ragnodi sy'n seiliedig ar ddogfennaeth ffurfiol.

At ei gilydd, mae dau ganfyddiad â chysylltiad agos rhyngddynt:

- Mae gan nifer gymharol fach o PGMH gynlluniau cadwraeth cyfredol.
- Hyd yn oed lle mae cynlluniau cadwraeth yn bodoli, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau rheoli ynghylch addasu i'r hinsawdd.

Mae cynlluniau cadwraeth yn anghyffredin y tu allan i safleoedd sy'n eiddo i'r cyhoedd a safleoedd sefydliadau treftadaeth genedlaethol

Anaml y bydd gan ystadau preifat ac ymddiriedolaethau annibynnol gynllun cadwraeth, gan ddibynnu yn hytrach ar wybodaeth hirdymor a/neu barhad o ran y perchennog neu'r prif arddwr.

Dywedodd nifer o berchnogion a phrif arddwyr fod y cynlluniau 'yn ein pennau' neu eu bod yn cael eu hystyried yn ddiangen.

I'r gwrthwyneb, mae gan safleoedd sy'n eiddo i ac yn cael eu rheoli gan un o'r sefydliadau treftadaeth cenedlaethol gynlluniau cadwraeth ar waith yn ddieithriad. Mae sefydliadau treftadaeth yn ystyried cynlluniau cadwraeth yn offeryn hanfodol ar gyfer cymhwyso safonau cadwraeth uchel a diogelu arwyddocâd, er efallai na fydd cynlluniau o'r fath yn ddefnyddiol i reolwyr unigol o ddydd i ddydd.

Y tu hwnt i'r cyrff treftadaeth cenedlaethol, mae gan un safle gynllun cadwraeth wedi'i ysgrifennu ar gyfer grant Cronfa Treftadaeth, lle mae'r ariannwr grant yn gosod safonau cadwraeth yr un mor uchel er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus neu arian grant yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Mae llawer o gynlluniau cadwraeth wedi dyddio a heb gynnwys ystyriaeth o faterion newid hinsawdd

Dim ond 35% o'r rheolwyr a gyfwelwyd sydd â chynlluniau cadwraeth cyfredol. Mae cynlluniau'n aml dros 10 mlwydd oed - mae dyddiadau rhwng 2008 a 2015 yn gyffredin. Gan eu bod wedi'u hysgrifennu cyn y bu'n arfer safonol i ystyried materion hinsawdd, ac nad ydynt wedi'u diweddarau, nid ydynt yn cynnwys polisiâu nac argymhellion sy'n berthnasol i benderfyniadau addasu i'r hinsawdd.

Nid oes gan dimau bach yr amser a'r capasiti i greu a/neu ddiweddarau cynlluniau cadwraeth

Ar draws bron pob safle, nodir pwysau amser a staffio fel y prif resymau pam nad yw cynlluniau'n bodoli, neu eu bod heb eu gorffen na'u diweddarau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer timau bach lle mae tywydd mwy eithafol yn cynyddu pwysau gweithredol ac yn gadael dim amser ar gyfer gwaith strategol. Yn aml, mae ysgrifennu cynlluniau'n cystadlu'n uniongyrchol am adnoddau â diogelwch ymwelwyr, cynhyrchu incwm a chydymffurfiaeth, sy'n cael blaenoriaeth.

Mae rhai rhesymau cyffredin pam nad yw rheolwyr yn defnyddio cynlluniau cadwraeth

- Mae cynlluniau'n tueddu i gael eu hystyried yn ddogfennau cydymffurfio yn hytrach nag offer rheoli.
- Mae rhywfaint o wrthwynebiad sefydliadol a diwylliannol: 'fel hyn 'da ni bob amser wedi'i wneud'.
- Mae tensiynau sefydliadol rhwng 'purdeb' treftadaeth a goroesiad gweithredol i'w gweld hefyd.
- Ceir canfyddiad bod cynlluniau cadwraeth yn lleihau hyblygrwydd a'u bod yn rhy ragnodol. Dadleuodd sawl uwch ymarferydd yn gryf fod digwyddiadau fel stormydd, llifogydd a chlefydau'n mynd yn drech na chynlluniau sefydlog yn gyflym, a bod hyblygrwydd a phrofiad yn fwy gwerthfawr na dogfennaeth wrth ymateb i amgylchiadau sy'n newid yn gyflym.
- Nododd rheolwyr dro ar ôl tro fod effeithiau hinsawdd yn annarogan fel bod cynlluniau pum, deg, neu ugain mlynedd yn gynyddol afrealistig oherwydd i ddigwyddiadau eithafol olygu bod yn rhaid aildrefnu blaenoriaethau'n aml.
- Nid yw cynlluniau'n ateb cwestiynau fel 'beth ydw i'n ei blannu yn lle hynny?' neu 'beth ydw i'n rhoi'r gorau i'w wneud?': nid oes cyngor ar addasu i'r hinsawdd ar safleoedd penodol.
- Hyd yn oed os yw cynlluniau effeithiol ar waith sy'n cwmpasu addasu i newid hinsawdd, mae costau seilwaith uchel yn rhwystro gweithredu, er enghraifft, mewn perthynas â draenio, arwynebau llwybrau, neu amddiffynfeydd rhag llifogydd; diffyg mynediad at arbenigedd, yn enwedig hydroleg a pheirianeg sifil; a/neu anhawster wrth lunio achosion busnes ar gyfer mesurau lliniaru.

4.2.2 Asesiadau risg newid hinsawdd

Ychydig iawn o safleoedd sydd wedi cynnal asesiad risg newid hinsawdd

Dim ond tri safle (13%) a nododd fod ganddynt asesiad risg newid hinsawdd cyfredol. Dywedodd pedwar safle (17%) fod ganddynt asesiadau rhannol yn eu lle a dywedodd dau (9%) eu bod ar y gweill.

Mae un sefydliad mawr yn cyflwyno asesiadau o risgiau hinsawdd i'w holl eiddo: mae'r rhain yn cwmpasu ystadau cyfan, gan gynnwys adeiladau a lleoliadau ehangach, nid gerddi'n unig. Mae un arall yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar ddata mapio hinsawdd o Brifysgol Keele ac offer dosbarthiad ecolegol.

Teimlai'r rhan fwyaf o'r rheolwyr y cyfwelwyd â hwy y byddai rhyw fath o arweiniad neu becyn cymorth sy'n mynd i'r afael â risgiau hinsawdd ar gyfer PGMH yn ddefnyddiol; nid ydynt wedi llwyddo i ddod o hyd i unrhyw beth boddhaol o ffynonellau presennol.

4.3 Blaenoriaethu camau rheoli mewn perthynas â newid hinsawdd

Mae cynlluniau rheoli safleoedd yn offer pwysig sydd, os cânt eu defnyddio'n effeithiol, yn cynorthwyo rheolwyr i osod blaenoriaethau, cynllunio eu gweithredoedd, er enghraifft o ran cost, adnoddau staff a thymhorau, a monitro ac adolygu canlyniadau.

Lluniwyd pum cwestiwn i archwilio a yw cynlluniau rheoli'n cael eu defnyddio i ddiogelu arwyddocâd treftadaeth yng ngoleuni newid hinsawdd, neu sut mae hynny'n cael ei wneud, a pha broblemau rheoli y mae rhanddeiliaid yn eu profi wrth ymateb i realiti newid hinsawdd:

- Oes gennych gynllun rheoli sy'n nodi camau gweithredu i ymateb i newid hinsawdd, ac os na, pa ffactorau ydych chi'n eu hystyried wrth gynllunio camau rheoli a chynnal a chadw?
- Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd? er enghraifft newid y palet planhigion; gwneud newidiadau i'r seilwaith?
- A yw camau gweithredu hinsawdd yn cael eu blaenoriaethu yn ôl arwyddocâd, er enghraifft arwyddocâd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol?
- Pa heriau neu rwystrau ydych chi'n eu hwynebu wrth geisio ymdrin â chamau gweithredu ar newid hinsawdd?
- A oes unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o newid hinsawdd?

4.3.1 Cynlluniau rheoli

Dim ond wyth (35%) o'r rheolwyr y cyfwelwyd â hwy sy'n defnyddio cynlluniau rheoli fel offer penderfynu byw bob dydd. Mae gan bedwar arall (17%) gynlluniau sydd wedi dyddio sy'n anghyflawn, neu wedi'i ddatgysylltu o weithgareddau bob dydd. Felly, mae bron i hanner y safleoedd, 11 o'r 23 (48%), yn dibynnu'n bennaf ar reolaeth sy'n seiliedig ar brofiad, anffurfiol, neu adweithiol.

Nid oes gan dri chwarter o'r safleoedd preifat yn y sampl gynllun rheoli.

Pan ddefnyddir cynlluniau rheoli'n weithredol, y prif fanteision a nodwyd yw:

- blaenoriaethu amser staff
- darparu cyfiawnhad dros newidiadau a sbardunir gan yr hinsawdd
- helpu esbonio'r cyfaddawdau rhwng treftadaeth, mynediad a chydnerthed wrth wneud penderfyniadau

Fodd bynnag, disgrifiodd rhanddeiliaid lawer o rwystrau i ddefnyddio cynlluniau rheoli, gyda llawer o nodweddion cyffredin ar draws y sampl. Mae'r rhesymau'n adlewyrchu'r rhai a nodwyd mewn perthynas â chynlluniau cadwraeth:

Ceir rhai rhesymau cyffredin pam nad yw rheolwyr yn defnyddio cynlluniau rheoli

Mae diffyg amser a chyfyngiadau ar gapasiti staff yn cael eu nodi'n gyson fel y rhwystrau mwyaf i ddefnyddio cynlluniau rheoli'n effeithiol. Mae pwysau gweithredol o ddydd i ddydd yn gadael y rhan fwyaf o reolwyr heb amser i ysgrifennu, diweddarau na defnyddio cynlluniau rheoli'n weithredol. Hyd yn oed os yw cynlluniau'n bodoli, nid oes gan staff y gallu i'w defnyddio'n aml i lywio penderfyniadau.

Mae cynlluniau rheoli wedi dyddio, yn anghyflawn, neu ddim yn berthnasol i'r hinsawdd

Mae llawer o gynlluniau rheoli presennol yn dyddio o gyfnod cyn newid hinsawdd fel ystyriaeth brif ffrwd. Felly mae rheolwyr yn eu gweld fel rhai amherthnasol i'r amodau presennol ac yn eu hepgor yn ymarferol.

Mae cynlluniau rheoli'n cael eu hystyried yn strategol, nid yn ymarferol

Mae nifer o reolwyr yn gwahaniaethu rhwng dogfennau 'strategol' a 'gweithredol'. Yn aml, ystyrir bod cynlluniau rheoli'n rhy lefel uchel, yn rhy statig, neu'n rhy haniaethol i arwain penderfyniadau gweithredol bob dydd ar weithgareddau fel torri gwair, plannu, lleoli staff, neu gau safleoedd. Pan nad yw cynlluniau'n weithredol yn glir, mae gwneud penderfyniadau'n dibynnu ar brofiad, greddf, a blaenoriaethau uniongyrchol.

Gall trefniadau llywodraethu sefydliadau mwy rwystro'r defnydd effeithiol o gynlluniau

Mewn sefydliadau mwy o ran maint, mae haenau gwneud penderfyniadau a chymeradwyo'n arafu'r broses o ddiweddarau cynlluniau a'u defnydd ymarferol. Efallai bod gan dimau safle gynlluniau, ond ni allant weithredu arnynt yn gyflym, ac felly maent yn colli hyder yn y broses gynllunio a'r cynllun ei hun.

Ceir dibyniaeth gref ar wybodaeth a phrofiad hirsefydlog

Mae llawer o dimau staff wedi'u harwain gan arddwyr profiadol iawn (20 i 40 mlynedd ar y safle). Yn aml, gwneir penderfyniadau gan ddefnyddio gwybodaeth fanwl am y safle, yr ymddiriedir ynddi'n fwy na dogfennau ysgrifenedig.

Mae llunio a gweithredu cynlluniau rheoli'n costio arian ac amser staff

Mae ysgrifennu, diweddarau a gweithredu cynlluniau rheoli'n gofyn am adnoddau nad oes gan lawer o safleoedd, ac felly nid yw cynllunio rheoli'n cael ei flaenoriaethu dros dasgau bob dydd neu adweithiol. Defnyddir cynlluniau fwyaf pan fydd ariannu, adrodd a chyflawni wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â nhw.

4.3.2 Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd?

Mae plannu a chasgliadau planhigion yn cael eu haddasu

Mae newid yr ystod o rywogaethau planhigion bellach yn arfer cyffredin, gyda rheolwyr yn anelu at:

- gynnwys rhywogaethau sy'n fwy cydnerth i'r hinsawdd, yn aml gan ddefnyddio planhigion o ranbarthau cynhesach a/neu sychach
- ysgogi effaith cymeriad plannu hanesyddol, gan ddefnyddio rhywogaethau planhigion amgen sy'n parchu bwriad y dyluniad trwy raddfa, ffurf, gwedd, lliw ac effaith màs
- lleihau dibyniaeth ar blanhigion agored i niwed fel bocs, bedw, ffawydd
- lleihau neu ddileu'r defnydd o blanhigion gwely traddodiadol, gan eu disodli â

phlanhigion lluosflwydd, gwrychoedd cymysg, neu blanhigion 'strwythurol' amgen Siaradodd rhanddeiliaid hefyd am dreialu rhywogaethau newydd a systemau plannu gwahanol (er enghraifft, plannu mewn gwelyau graean, yn lle pridd, sy'n cynhyrchu planhigion mwy gwydn; defnyddio priddoedd tenau; plannu yn yr hydref yn lle plannu yn y gwanwyn) i wella gwydnwch i sychder a gwydnwch y gwreiddiau.

Mae arferion storio dŵr, dyfrhau a rheoli pridd yn newid

- Mae dyfrhau dwys yn lleihau, ac mae systemau diferu'n cael eu gosod.
- Mae effeithlonrwydd dŵr yn cael blaenoriaeth, er enghraifft casglu dŵr glaw, ailddefnyddio tanciau hanesyddol.
- Dim ond i helpu planhigion newydd i ymsefydlu y gwneir dyfrio
- Mae defnyddio tomwellt i gynnal lleithder y pridd yn arfer cyffredin.
- Mae ymgorffori deunydd organig yn y pridd, i gloi carbon i mewn a gwarchod iechyd y pridd, hefyd yn cael ei grybwyll yn aml.
- Mae rheoli pridd heb gloddio hefyd yn cael ei ymarfer.

Mae atebion rheoli dŵr sy'n seiliedig ar natur yn cael eu defnyddio ar lawer o safleoedd. Mae enghreifftiau a ddisgrifiwyd mewn cyfweiliadau yn cynnwys:

- argaeau sy'n gollwng ac sy'n caniatáu rhyddhau dŵr yn araf i gynnal lefelau lleithder i lawr y ffrwd
- ail-wlychu tir a oedd yn hanesyddol yn llaith neu'n gorsiog
- gwelliannau i byllau
- plannu coetiroedd newydd i wella cadw dŵr o fewn y parth coed, sy'n arafu dŵr ffo ac yn helpu i reoli eithafion llifogydd a sychder

Dywedodd nifer o randdeiliaid ei bod yn ddymunol mabwysiadu dull dalgylch cyfan o reoli dŵr, mewn partneriaeth â thirfeddianwyr i fyny'r ffrwd, gan ei fod yn cynnig ateb effeithiol i leihau effeithiau brigiadau mewn difrod o stormydd a llifogydd.

Ymateb i stormydd, llifogydd a difrod i seilwaith

Mae difrod i seilwaith gerddi o ganlyniad i stormydd yn effeithio fwyfwy ar PGMH. Mae rheolwyr yn adrodd am amrywiaeth o fesurau wrth ymateb i hyn:

- Mae llwybrau'n cael eu huwchraddio i arwynebau sy'n llai tebygol o gael eu golchi i ffrwdd ac a all ymdopi'n well â nifer yr ymwelwyr mewn amodau gwlyb, er y gwneir hyn gan wybod ei fod yn aml yn newid cymeriad y PGMH.
- Mae angen draeniau newydd lle na all llwybrau a chaeau hanesyddol ymdopi â glaw trwm.
- Mae trothwyon diogelwch ymwelwyr, polisïau cau, a blaenoriaethau cynnal a chadw yn cael eu diwygio wrth ymateb i stormydd a difrod gwynt amlach.
- Mae llifogydd rheoledig yn dod yn fwy derbynol.
- Mae ailddylunio tirweddau i ddarparu ar gyfer dŵr llifogydd yn hytrach na'i eithrio, lle mae cyfyngiadau treftadaeth yn caniatáu, hefyd yn digwydd, gan naturiolu cyrsiau dŵr a chreu gerddi glaw fel rhan o gynlluniau draenio/rheoli dŵr.

Mae gwahanol ddulliau'n cael eu defnyddio i reoli plâu a chlefydau

Mae amodau cynhesach a gwlypach yn cynyddu pwysau plâu a chlefydau, ac adroddodd rheolwyr eu bod yn symud i ffwrdd o ddefnyddio cemegolion fel mater o drefn, tuag at:

- fonitro plâu'n ofalus
- hylendid gwell planhigion a safleoedd
- mabwysiadu rheolaethau biolegol
- ymyrryd yn gynnar gyda thriniaethau

Mae poblogaethau coed a llwyni hefyd yn cael eu hamrywiaethu, gan leihau bregusrwydd casgliadau cyfan neu genera i bathogenau unigol.

Mae dulliau gweithio ac arferion garddwriaethol traddodiadol yn newid

Disgrifiodd rhai rheolwyr newidiadau i arferion garddwriaethol traddodiadol, yn benodol:

- lleihau gweithrediadau sy'n ddwys o ran llafur fel gwelyau torfol a thorri gwair yn aml
- ailddyrannu amser staff i dasgau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel dyfrio, adfer yn sgil stormydd, a monitro
- buddsoddi mewn hyfforddi, cynadleddau, a dysgu gan gymheiriaid sy'n canolbwyntio ar addasu i'r hinsawdd yn hytrach na garddwriaeth amwynder draddodiadol

Fodd bynnag, mae eraill yn awgrymu bod addysg arddwriaethol dda'n hyrwyddo dealltwriaeth ehangach sy'n galluogi garddwyr a rheolwyr i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch mesurau addasu.

Ymgysylltir ag ymwelwyr a rhanddeiliaid

- Mae newidiadau gweladwy fel creu dolydd, planhigion amgen, a choetiroedd newydd yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd i esbonio effeithiau hinsawdd ac addasu i ymwelwyr.
- Mae esbonio bod addasu i'r hinsawdd yn hanfodol i ddiogelu treftadaeth, diogelwch ymwelwyr, a hyfywedd hirdymor yn dod drwodd fel mater pwysig iawn, yn enwedig pan fydd rheolwyr yn ceisio consensws llywodraethu a/neu ariannu allanol.

4.3.3 A yw camau gweithredu hinsawdd yn cael eu blaenoriaethu yn ôl arwyddocâd?

Mae asesu arwyddocâd yn elfen bwysig o gynlluniau cadwraeth a chynlluniau rheoli. Mae asesu arwyddocâd yn ystyried ystod o werthoedd, er enghraifft yn Lloegr asesir gwerthoedd hanesyddol, esthetig, cymunedol a thystiolaethol fel arfer. Mae asesu arwyddocâd at ddibenion cynllunio cadwraeth a rheoli fel arfer hefyd yn ystyried gwerthoedd naturiol ac ecolegol, er enghraifft, presenoldeb rhywogaethau gwarchodedig, dynodiadau amgylchedd naturiol a sensitifrwydd cynefinoedd.

Mae pwysigrwydd cymharol nodweddion ac ardaloedd y safle i ymwelwyr, ac ystyriaethau diogelwch ymwelwyr hefyd yn ffactorau pwysig.

Mae rhai safleoedd yn blaenoriaethu camau gweithredu hinsawdd yn echblyg yn ôl arwyddocâd hanesyddol a/neu naturiol

- Mae blaenoriaethu camau gweithredu hinsawdd yn unol ag arwyddocâd hanesyddol a/neu naturiol yn digwydd ar rai safleoedd, hyd yn oed os nad yw newid hinsawdd wedi'i ymwreiddio eto mewn asesiadau risg na chynlluniau.
- Mae nifer o safleoedd yn disgrifio'n echblyg ddefnyddio'r cysyniad o 'ysgogi cymeriad hanesyddol', er enghraifft, trwy ddewis planhigion gwahanol sy'n creu estheteg debyg, i gydbwyso gwerthoedd treftadaeth â chydnerthedd hinsawdd.

Ar nifer o safleoedd, nid yw blaenoriaethu mewn perthynas ag arwyddocâd yn cael ei arwain gan ddogfennaeth

Mae rhai safleoedd yn blaenoriaethu, ond heb gyfeirio at ddatganiadau neu asesiadau arwyddocâd ffurfiol. Gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar:

- farn broffesiynol prif arddwyr profiadol
- gwybodaeth hirdymor am y safle
- y risg uniongyrchol i asedau treftadaeth allweddol (er enghraifft, coed, waliau, llwybrau, golygfeydd)

Mae ymatebion i'r hinsawdd yn aml yn adweithiol, ac yn lle cael eu harwain gan asesiad strwythuredig o arwyddocâd, mae rheolwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar:

- ardaloedd sydd â'r gwelededd mwyaf o ran treftadaeth
- asedau treftadaeth sydd fwyaf agored i fethiant
- risgiau diogelwch y cyhoedd

Nid yw camau gweithredu hinsawdd o reidrwydd yn cael eu blaenoriaethu o ran arwyddocâd

Yn enwedig mewn mannau lle mae cynlluniau cadwraeth a/neu gynlluniau rheoli yn hŷn na effeithiau amlwg yr hinsawdd ar y safle; lle nad oes asesiadau o risgiau hinsawdd; a/neu le nad yw dogfennau arweiniad yn cael eu defnyddio fel mater o drefn, mae penderfyniadau'n tueddu i gael eu llywio'n bennaf gan ystyriaethau gweithredol ac ariannol.

Mae rhai rheolwyr yn disgrifio eu hymatebion i liniaru effeithiau'r hinsawdd fel rhai cynyddrannol a seiliedig ar gyfle, yn hytrach na rhai sydd wedi'u blaenoriaethu'n strategol.

4.3.4 Beth yw'r heriau neu'r rhwystrau i gamau gweithredu newid hinsawdd?

Mae newid hinsawdd yn gymhleth ac yn arwain at bwysau lluosog sy'n gwrthdaro

Thema gref a chyffredinol yw nad yw rheolwyr yn ymdrin ag un duedd glir, er enghraifft, 'cynhesu', ond yn cael eu herio gan bwysau cyfunol ac sy'n gwrthdaro, fel:

- llifogydd a sychder
- difrod stormydd a phlâu a chlefydau sy'n ffynnu
- gaeafau cynhesach gyda thymhorau tyfu hirach a rhew hwyr

Mae blaengynllunio'n dod yn fwyfwy anodd i reolwyr. Ymhlith y materion cyffredin:

- nid yw profiad bellach yn ganllaw dibynadwy
- collir hyder mewn cynlluniau hirdymor / gweithredol
- mae angen penderfyniadau adweithiol yn aml

Disgrifiodd rhai rheolwyr ddulliau gweithio 'ymladd tân', lle mae cylch o ddim ond ymateb i'r digwyddiad tywydd eithafol diweddaraf yn disodli unrhyw weithgarwch wedi'i gynllunio'n strategol.

Yn aml, rhoddir blaenoriaeth i ariannu ymatebion brys i ddigwyddiadau eithafol, ond mae'n anoddach ddod o hyd iddo ar gyfer lliniaru ataliol neu gynlluniedig

Yn aml dim ond ar ôl i ddifrod ddigwydd (er enghraifft, ar ôl stormydd neu lifogydd) y mae ariannu ychwanegol ar gael ac mae'n llawer anoddach sicrhau ariannu ar gyfer gwaith ataliol neu addasol.

Mae addasiadau newid hinsawdd sydd eu hangen yn gyffredin yn cynnwys mesurau fel:

- draenio
- dyfrhau
- arwynebau llwybrau
- newidiadau ar raddfa fawr i blannu
- mesurau rheoli erydu

Mae'r rhain yn ddrud ac yn cystadlu â gofynion ariannu eraill.

Mae cyfyngiadau amser, adnoddau staff a chapasiti'n dominyddu pob penderfyniad

Ar draws yr holl ymatebion, nodir diffyg amser a phobl fel rhwystr cyson i weithredu ar yr hinsawdd.

Mae addasu i'r hinsawdd yn gofyn am amser i staff ddysgu, arbrofi ac adolygu, ond mae llawer o PGMH yn nodi eu bod yn cael trafferth gyda'r capasiti i gynnal safonau gwaelodlin. Mae newid hinsawdd yn rhoi baich ychwanegol ar amser staff, gan gynnwys:

- y baich cynnal a chadw cynyddol, er enghraifft, clirio yn sgil stormydd, atgyweiriadau draenio, dyfrio
- llai o 'fffenestri' gwaith er enghraifft oherwydd priddoedd llawn dŵr, sychder
- cael ei ddargyfeirio i fwrdd o waith strategol i dasgau adweithiol brys

Hyd yn oed pan fydd rheolwyr yn gwybod am liniaru priodol, ni allant o reidrwydd weithredu ar yr wybodaeth honno, oherwydd diffyg adnoddau.

Ceir ofn 'gwneud y peth anghywir' mewn perthynas â chyfyngiadau treftadaeth

Mae rheolwyr yn gyson yn disgrifio tensiwn rhwng yr angen am wneud newidiadau, gyda'r rhwymedigaeth i warchod cymeriad hanesyddol a 'dilysrwydd hanesyddol'.

Dyma rai o'r materion cyffredin:

- Fel arfer, nid oes gan reolwyr arweiniad clir ar ba mor bell y gellir mynd ag addasiadau, cyn iddynt gael eu hystyried yn annerbyniol.
- Nid yw rheolwyr yn gweithredu oherwydd y risg o feirniadaeth gan fyrdau, rheoleiddwyr, ymwelwyr, neu gymheiriaid.
- Mae sefydliadau a pherchnogion sy'n osgoi risg yn ffafrio'r ymyrraeth leiaf posibl.
- Gall fod yn anodd cymodi addasiadau sy'n gofyn am newidiadau ffisegol gweladwy, er enghraifft, mwy o storfeydd dŵr, newidiadau i arwynebau llwybrau, mesurau gwrth-erydu â'u heffaith ar gymeriad treftadaeth.
- Yn aml, caiff gweithrediad newidiadau ei ohirio, ei wneud mewn darnau, neu ei fframio'n amddiffynnol yn hytrach na'n rhagweithiol.

Mae'r arweiniad yn dameidiog

Themâu cyson sy'n dod i'r amlwg o'r trafodaethau yw:

- Mae ffynonellau gwybodaeth berthnasol yn wasgaredig a heb fod yn gynhwysfawr.
- Mae'r arweiniad yn aml yn rhy gyffredinol.
- Nid oes ffynhonnell glir ar gyfer arweiniad a chynghor i PGMH.
- Mae staff yn dibynnu'n fawr ar rwydweithiau cymheiriaid a barn bersonol.
- Mae safleoedd llai o ran maint a llai cysylltiedig yn ei chael hi'n anodd cyrchu enghreifftiau da.
- Mae arfer da yn lledaenu'n anffurfiol yn bennaf.

Gall gwneud penderfyniadau fod yn araf iawn

Mae haenau lluosog o gymeradwyaethau a blaenoriaethau mewnol sy'n gwrthdaro - fel arfer ystyriaethau treftadaeth yn erbyn gweithrediadau yn erbyn ariannu - yn arwain at oedi sy'n peri rhwystredigaeth i reolwyr wrth geisio gweithredu mesurau addasu i'r hinsawdd. Mae hyn yn broblem benodol i reolwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau mawr.

Mae angen rheoli disgwyliadau ymwelwyr

Dywedodd llawer o reolwyr fod ymwelwyr yn tueddu i ddisgwyl 'perffeithrwydd' hanesyddol, taclusrwydd, a/neu lefel o ragweladwyedd fel rhan o'u profiad, a bod arferion rheoli sy'n addasu i'r hinsawdd, fel dolydd neu laswellt brown lle arferai lawntiau gael eu torri, neu newid planhigion gwely tymhorol i blanhigion lluosflwydd sy'n gwrthsefyll sychder, yn gwrthdaro â'r disgwyliadau hyn. Hefyd, mae dehongli a chyfathrebiadau ag ymwelwyr yn aml yn llusgo ar ôl y newidiadau sy'n cael eu gweithredu. Mae hyn yn amlygu rheolwyr i gwynion a niwed i enw da.

Gall canfyddiadau sefydliadol o'r hyn y bydd y cyhoedd yn ei dderbyn fod yn gyfyngiad

Nododd rhai y cyfwelwyd â hwy fod addasu i'r hinsawdd wedi'i gyfyngu gan ganfyddiadau sefydliadol o ba newid y bydd y cyhoedd yn ei oddef. O ganlyniad, gofynnir i rai rheolwyr barhau i gynnal arferion traddodiadol, hyd yn oed os yw effeithiau newid hinsawdd yn golygu bod hyn yn gynyddol amhriodol.

4.3.5 Cyfleoedd a gynigir gan newid hinsawdd

Mae'n galonogol darganfod bod llawer o reolwyr yn cofleidio rhai agweddau cadarnhaol ymhlith y pwysau a'r heriau dyddiol y maent yn eu hwynebu. Mae'r rhai mwyaf cyffredin o'r rhain wedi'u nodi isod.

Mae paletau planhigion yn ehangu ac yn amrywiaethu

Mae gaeafau mwynach gyda llai o rew hirfaith a thymhorau tyfu hirach yn caniatáu i rywogaethau newydd oroesi yn yr awyr agored gan leihau dibyniaeth ar dai gwydr:

- Nododd un PGMH fod llai o ddiwrnodau eira'n caniatáu iddynt roi cynnig ar blanhigion tyner traddodiadol yn yr awyr agored, gan ryddhau lle o dan wydr ar gyfer ystod ehangach o blanhigion.
- Mae mwy o arbrofi gyda deunydd planhigion byd-eang.
- Mae'r defnydd o rywogaethau o ardal y Môr Canoldir yn cynyddu.
- Mynegodd un rheolwr ddiddordeb mawr mewn fflora o Dwrci, gan fod y rhagolygon hinsawdd diweddar ar gyfer eu safle yn dangos y gallai'r tymheredd fod yn debyg ymhen tua 20 mlynedd.
- Tuedd glir yw bod mwy o blanhigion o Chile, Awstralia a hemisfer y de yn cael eu rhoi ar bawf.

Mae arfer gorau cadwraeth yn cael ei ailystyried

Dywedodd y rhai y cyfwelwyd â hwy fod newid hinsawdd yn sbarduno symudiad i ffwrdd o 'ddilysrwydd hanesyddol' canfyddedig, tuag at ddull sy'n parchu bwriad a chymeriad hanesyddol ar yr un pryd â gwella cydnheredd hinsawdd. Mae enghreifftiau arbennig o gyffredin a ddisgrifir gan reolwyr yn cynnwys newid arwynebau llwybrau fel graean meddal i arwynebau mwy cadarn, fel graean wedi'u bondio neu darmac; a defnyddio rhywogaethau planhigion sydd wedi addasu'n well i'r amodau presennol. Defnyddiodd tri rheolwr y term 'evocation' yn benodol fel term sy'n golygu 'ysgogi cymeriad hanesyddol' plannu gan ddefnyddio rhywogaethau amgen i gyflawni effeithiau gweledol tebyg.

Mae bioamrywiaeth a systemau ecolegol yn cael eu gwella

Mae rheolwyr yn adrodd bod llai o ddefnydd o gemegolion, newidiadau i drefnau torri gwair, a rheolaeth llai dwys - sydd yn aml yn cael ei sbarduno gan newid hinsawdd a/neu ystyriaethau cost - yn ildio enillion bioamrywiaeth:

- Gwelodd safle yn y gogledd-orllewin adferiad bioamrywiaeth mawr yn ystod cyfnod COVID, pan wnaed gostyngiadau sylweddol mewn cynnal a chadw dwys.
- Llwyddodd safle yn y de-ddwyrain i drawsnewid lawntiau ffurfiol i reoli dolydd;

helpodd dehongli i wrthwynebiad cychwynnol ymwelwyr newid i dderbyn.

Gwelir manteision allweddol rheolaeth llai dwys fel a ganlyn:

- helpu adeiladu gwydnwch i blâu, clefydau a thywydd eithafol
- alinio PGMH ag agendâu bioamrywiaeth ac adfer byd natur - yn gynhenid gadarnhaol ac yn dda o ran canfyddiadau'r cyhoedd
- cryfhau cymhwysedd PGMH ar gyfer ariannu amgylcheddol ac ariannu gysylltiedig â'r hinsawdd

Mae lled a dyfnder ymgysylltiad y cyhoedd â materion perthnasol yn ehangu

Mae ymwelwyr yn gynyddol llythrennog am yr hinsawdd, yn chwilfrydig ynghylch rheolaeth amgylcheddol ac yn gefnogol o gamau gweithredu cynaladwyedd gweladwy. Mae'r ymwybyddiaeth hon yn cynnig cyfleoedd ymgysylltu dyfnach. Mae rheolwyr yn adrodd bod ymwelwyr yn gofyn mwy o gwestiynau am faterion fel defnyddio cemegolion, colli coed, gwerth cynefinoedd a bywyd gwyllt. Mae un PGMH yn nodi symudiad demograffig tuag at deuluoedd iau sy'n ymwybodol iawn o faterion hinsawdd a diogelwch bwyd.

Mae rhywfaint o ariannu'n cael ei sicrhau, ac mae partneriaethau newydd yn ffurfio

Mae rhai rheolwyr yn sylwi bod newid hinsawdd yn dechrau gweithredu fel ysgogydd i newidiadau mewn patrymau ariannu, ac mae'r mathau canlynol o waith yn cael eu blaenoriaethu:

- rheoli dŵr
- atebion sy'n seiliedig ar fyd natur
- lleihau carbon
- meddwl ar raddfa tirweddau

Sicrhaodd un PGMH grant o £3.5m gan y Gronfa Treftadaeth drwy ymwreiddio addasu i'r hinsawdd ac ail-wlychu fel amcanion craidd. Mae rhanddeiliad arall yn crybwyll welededd cynyddol cyllid a blaenoriaethu sefydliadol oherwydd perthnasedd hinsawdd.

Mae rhai PGMH yn denu partneriaid traws-sector newydd fel y rhai sy'n canolbwyntio ar ecoleg, rheoli dŵr neu ynni gwyrdd, gan harneisio cyfleoedd i wneud gwariant sy'n rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol, yn bosibl.

Mae arloesi ac arbrofi'n digwydd

Mae ansicrwydd o ran yr hinsawdd yn gwneud treialon, prosiectau peilot a dysgu drwy fethu'n fwy dilys.

- Mae un PGMH yn arbrofi gyda systemau plannu sy'n seiliedig ar raeau, gan gydnabod y bydd rhai rhywogaethau'n methu.
- Mae un arall yn defnyddio gerddi glaw arbrofol fel offer ymchwil ac eiriolaeth.
- Mae un arall eto yn archwilio opsiynau ymyrraeth gorlifdiroedd ar raddfa dalgylchoedd mewn ffordd uchelgeisiol yn hytrach nag atebion peirianeg anhyblyg i fynd i'r afael â phroblemau erydiad dŵr.

Mae'r gallu i addasu a'r wybodaeth o fewn y sector yn dechrau cynyddu'n araf.

4.4 Ffynonellau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad defnyddiol

Gofynnwyd pedwar cwestiwn cyffredinol:

- Ydych chi wedi llwyddo i gyrchu cyngor, arbenigedd neu adnoddau allanol ffurfiol i'ch cefnogi i ymateb i heriau'r hinsawdd? Os felly, beth ydych chi wedi'i gyrchu? Os na, oes rheswm syml pam ddim?
- Ydych chi'n defnyddio rhwydweithiau neu gysylltiadau anffurfiol i'ch cefnogi i ymateb i heriau'r hinsawdd? Os ydych, beth ydych chi wedi'i gyrchu?
- Beth yw eich barn chi am y rhwystrau i gaffael gwybodaeth?
- Pa gefnogaeth fydddech chi'n ei chael fwyaf defnyddiol yn y 12 mis nesaf?
 - arweiniad a phecynnau cymorth
 - grantiau
 - rhwydweithio â chymheiriaid lleol ymweliadau â chymheiriaid
 - hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus, hyfforddiant ehangach
 - cynadleddau
 - prosiectau peilot neu arddangos
 - astudiaethau achos

4.4.1 Mynediad at gyngor ac arbenigedd allanol

Rhwydweithiau proffesiynol, urddau a sefydliadau yw'r rhai a ddefnyddir ac yr ymddiriedir ynddynt fwyaf

Rhwydweithiau proffesiynol yw'r ffynhonnell gyngor allanol a ddefnyddir fwyaf ac yr ymddiriedir ynddynt fwyaf, ac mae hynny'n gyson ar draws y sampl rhanddeiliaid cyfan. Y rhwydweithiau a ddyfynnir amlaf, o blith y rhwydweithiau niferus y mae rheolwyr yn manteisio arnynt, yw:

- PlantNetwork (a grybwyllir amlaf)
- Professional Gardens Guild
- Botanic Gardens Conservation International
- International Dendrology Society
- Arboricultural Association
- Treasure Houses Head Gardeners Group
- Chartered Institute of Horticulture

Disgrifir y ffynhonnell gyfoethog hon o rannu gwybodaeth fel un gyflym, yr ymddiriedir ynddi ac yn aml yn fwy penodol i'r safle.

Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon yn teimlo'n arbennig o ynysig oddi wrth rwydweithiau cyngori.

Nid yw sefydliadau, aelodaethau a chynadleddau'r sector yn hygyrch i bawb

Mae llawer o reolwyr hefyd yn dod o hyd i gyngor drwy sefydliadau'r sector fel:

- Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / Ymddiriedolaeth Genedlaethol Yr Alban

- Historic Houses Association

Fodd bynnag, nid yw mynediad yn gyfartal i bawb, yn enwedig o ran cynadleddau a hyfforddiant; mae rheolwyr yn nodi bod costau teithio'n ormodol i staff ar gyflog is. Maent hefyd yn dweud nad yw cynadleddau bob amser yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol felly mae cyfleoedd yn cael eu colli.

I'r rhai yn y sefydliadau mwy o ran maint, gall rhwydweithio â chydweithwyr fod yn ddefnyddiol

Mae rheolwyr sy'n gweithio o fewn sefydliadau mwy yn tueddu i elwa o gyfarfodydd staff rheolaidd i rannu gwybodaeth. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ganddynt gydweithwyr hefyd sy'n rhoi cyngor ar yr hinsawdd, ecoleg, treftadaeth a'r amgylchedd diwylliannol ac ati.

Mae ymgynghorwyr arbenigol yn ddefnyddiol ond dim ond os yw ariannu a'r sefydliad yn caniatáu hynny

Mae rhai PGMH yn comisiynu cyngor proffesiynol, yn enwedig pan fydd ariannu neu raddfa'r sefydliad yn caniatáu hynny. Y rhain yw'r ystadau a'r sefydliadau mwy fel arfer: Dim ond PGMH sydd â llawer o adnoddau da neu a ariennir gan grantiau sy'n ceisio arbenigedd ymgynghori â thâl fel arfer.

Mae nifer o PGMH yn nodi anhawster wrth gyrchu cymorth allanol priodol, yn enwedig wrth ddod o hyd i gontractwyr neu gynghorwyr sydd ag arbenigedd perthnasol rheoli dŵr neu seilwaith a all addasu i'r hinsawdd.

Mae rhai problemau cyffredin a mynych gyda chyngor ac arweiniad allanol

- Mae rheolwyr yn mynegi rhwystredigaeth dro ar ôl tro gydag arweiniad un-peth-i-bopeth.
- Mae mynediad at gymorth yn aml yn dibynnu ar rwydweithiau personol, felly gall yr unigolion hynny sydd â chysylltiadau proffesiynol cryfion, yn aml staff uwch neu staff sydd yn y swydd ers amser maith, gyrchu mwy o gyngor, yn fwy hawdd nag eraill.
- Mae rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn PGMH llai a phreifat yn aml yn nodi nad ydynt yn gwybod at bwy i gysylltu am gyngor neu ariannu.

4.4.2 Defnyddio rhwydweithiau anffurfiol a chysylltiadau personol

Cyngor gan gymheiriaid yw'r hyn sydd fwyaf cyffredin ac yr ymddiriedir ynddo fwyaf

Mae llawer o reolwyr yn disgrifio dibynnu ar sgysiau uniongyrchol, ymweliadau cilyddol, a chymheiriaid yr ymddiriedir ynddynt i ddeall beth sy'n gweithio mewn lleoedd eraill o dan amodau tebyg. Ystyrir bod cyngor gan gymheiriaid yn ymarferol, yn onest, ac yn berthnasol i'r safle.

Defnyddir rhwydweithiau aelodaeth proffesiynol yn anffurfiol yn aml

Er enghraifft, mae gan Professional Gardeners Guild rôl flaenllaw fel rhwydwaith cymheiriaid yn hytrach na ffynhonnell cyngor mwy ffurfiol; mae rhai rheolwyr yn ei ddisgrifio fel y ffordd fwyaf effeithiol o gael gwybod 'pwy sydd wedi gwneud beth' mewn PGMH eraill.

Mae rhanddeiliaid hefyd yn dibynnu ar berthnasoedd anffurfiol hirhoedlog â phrif arddwyr eraill a gweithwyr proffesiynol mewn gerddi botaneg. Yn y de-ddwyrain, mae rhai rheolwyr yn defnyddio rhwydweithiau garddwyr lleol yn drwm, er enghraifft Buckinghamshire Gardens Trust Professional Gardeners Network a grwpiau WhatsApp lleol, am gyngor cyflym sy'n seiliedig ar brofiad.

Mae rhwydweithiau anffurfiol yn llenwi'r bylchau yn yr arweiniad a gyhoeddir

O'r trafodaethau, mae'n ymddangos bod rhwydweithiau anffurfiol yn gweithredu fel hidlydd, gan helpu i drosi syniadau hinsawdd eang yn gamau gweithredu ymarferol. Mae mewnwelediadau cymheiriaid yn cael eu gwerthfawrogi'n gyffredinol.

- Mae rhanddeiliaid yn dweud bod yr arweiniad a gyhoeddir yn rhy generig, a bod cysylltiadau anffurfiol yn llenwi bylchau o ran gwybodaeth gynnil.
- Maent yn gwerthfawrogi sgysiau â chymheiriaid sy'n deall cyfyngiadau hanesyddol a nawys unigol PGMH.
- Mae rhanddeiliaid hefyd yn gwneud sylwadau ynghylch diffyg 'hyb' adnoddau canolog a'u bod yn dibynnu yn hytrach ar rwydweithiau personol i nodi cyflenwyr, rhywogaethau ac atebion ymarferol.

Dengys y dystiolaeth y ceir y ddibyniaeth fwyaf ar rwydweithiau anffurfiol ymhlith:

- PGMH llai a/neu breifat
- rheolwyr nad oes ganddynt fynediad at ymgynghorwyr allanol na arbenigwyr mewnol
- rheolwyr profiadol iawn gyda pherthnasoedd proffesiynol hir

Dadleuodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd dros atgyfeirio a llwyfannau gwybodaeth a rennir gwell, fel bod arfer da'n fwy gweladwy a hygyrch i reolwyr sydd â llai o gysylltiadau.

4.4.3 Rhwystrau i gaffael gwybodaeth

Mae amser staff yn aml yn rhy gyfyngedig

Hwn yw'r rhwystr pennaf. Mae rheolwyr yn datgan yn gyson fod yr angen am ymgymryd â chynnal a chadw adweithiol yn llyncu'r amser sydd ei angen i chwilio am wybodaeth newydd a'i chymathu. Hyd yn oed pan fydd cyllidebau hyfforddi, yn aml ni ellir rhyddhau staff.

Mae'r duedd hon yn gyson ar draws pob rhanbarth hinsawdd.

- Nododd rheolwr yn y gogledd-ddwyrain fod cynnal a chadw ac adnewyddu casgliadau presennol yn defnyddio'r adnodd staff cyfan sydd ar gael, gan adael dim amser i ddysgu.
- Yn y de-orllewin, disgrifiodd rheolwr arall fod yr angen i ymateb i ddigwyddiadau

tywydd dwys yn atal unrhyw hyfforddiant staff na blaengynllunio.

Mae gwybodaeth yn dameidiog ac yn anodd ddod o hyd iddi

Mae rhanddeiliaid bron yn eu cyfanrwydd yn sylwi bod gwybodaeth benodol am addasu i'r hinsawdd ar gyfer PGMH wedi'i gwasgaru ar draws llawer o sefydliadau ac adroddiadau; mae gan unigolion lawer ohoni hefyd. Nid oes un ffynhonnell 'mynd ati' na system 'gyfeirio' ar gyfer PGMH.

Collir llawer o amser yn ceisio dod o hyd i wybodaeth hefyd. Mae rhannu gwybodaeth yn anghyfartal. Mae llwyddo i ddod o hyd i ateb da bron yn gwbl ddibynnol ar ddyfalbarhad personol.

Mae'r arweiniad yn aml yn rhy generig neu'n rhy haniaethol

Hyd yn oed pan fydd rheolwyr yn dod o hyd i arweiniad sydd i'w weld yn berthnasol, mae llawer yn aml yn teimlo'n rhwystredig oherwydd dulliau generig sy'n methu â chydabod cyfyngiadau fel yr amgylchedd hanesyddol, realiti sefydliadol, neu ffactorau sy'n benodol i'r safle.

Dywedodd un rhanddeiliad, er bod arweiniad ar ffurf egwyddorion cyffredinol yn bodoli, fod angen llawer o ddehongli manwl a meddwl yn feirniadol arno i'w cymhwyso i sefyllfaoedd penodol.

Dibynnir yn fawr ar rwydweithiau personol

Mae pobl lai cysylltiedig a phobl ifancach yn ei chael hi'n anodd cyrchu'r un mewnwleidiadau â'u cydweithwyr mwy uwch a chysylltiedig. Nododd sawl un fod dod o hyd i gyngor ac atebion da yn dibynnu ar y person, a mynegwyd rhwystredigaeth nad yw mynediad at wybodaeth yn gyfartal ar draws y sector.

Mae mynediad yn gyfyngedig oherwydd cost, daearyddiaeth a rôl

Mae cynadleddau, cyrsiau hyfforddi a gweithdai'n aml yn rhy ddrud i staff sy'n ennill cyflogau is eu mynychu. Mae costau teithio hefyd yn aml yn ormodol. Mae rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon yn teimlo'n arbennig o ddatgysylltiedig. Dywedir yn aml hefyd fod cyfleoedd yn cael eu hysbysebu'n wael.

Mewn rhai lleoedd mae gwrthwynebiad diwylliannol a/neu unigol i'w oresgyn

Mae rhai rheolwyr y cyfwelwyd â hwy yn dweud bod rhai staff yn parhau i fod yn sgeptigol neu'n meddu ar gamwybodaeth ynghylch newid hinsawdd ac yn nodi rhaniad rhwng cenedlaethau neu addysg. Mae un rheolwr PGMH yn crybwyll yn benodol wrthwynebiad staff, camwybodaeth, a gwadu o ran yr hinsawdd ymhlith rhai garddwyr iau, yr oeddent yn credu y gallent fod wedi'u dylanwadu gan gyfryngau cymdeithasol.

Gall gwybodaeth sy'n benodol i safle gael ei cholli pan fydd staff hirsefydlog yn gadael

Yn gyffredinol, a heb syndod, datgelodd trafodaethau yn y cyfweiliadau fod gan staff sydd wedi gwasanaethu ers amser maith gyfoeth o wybodaeth anysgrifenedig am eu safleoedd a sut y maent yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd. Mae colli'r unigolion hyn o'u rolau yn creu colled sydyn o arbenigedd sy'n benodol i'r safle:

- Mae un PGMH yn y sampl yn wynebu ymddeoliad eu prif arddwr sydd â 40 mlynedd o wybodaeth am y safle yn y dyfodol agos, ac nid oes cynllun olyniaeth, felly bydd yr wybodaeth honno'n cael ei cholli'n barhaol.
- I'r gwrthwyneb, dywedodd dau reolwr PGMH eu bod yn dal, ac yn cyfeirio at, gofnodion safle a thywydd sy'n dyddio'n ôl dros 100 mlynedd.

4.4.4 Pa gefnogaeth sydd ei hangen fwyaf?

Oherwydd natur y cwestiwn a'r ymatebion yn yr adran hon, mae'n bosibl cyfrif rhai atebion penodol a chyffredin; mae canrannau bras wedi'u hychwanegu isod, i roi syniad o gyfran y rhanddeiliaid sy'n gofyn am gymorth penodol, lle bo'n ymarferol.

Arweiniad ymarferol a phecynnau cymorth

Mae ychydig mwy na hanner y rhanddeiliaid yn gofyn yn benodol am wybodaeth fwy priodol a hygyrch ar newid hinsawdd (56%), ac am arweiniad ar sut i gynnal asesiad risg newid hinsawdd ar gyfer PGMH. Mae rheolwyr yn gofyn dro ar ôl tro am:

- arweiniad ymarferol, sy'n berthnasol i'r safle
- arweiniad ar newid hinsawdd wedi'i anelu'n benodol at PGMH
- templedi asesiadau o risgiau hinsawdd ar gyfer PGMH
- arweiniad ar sut i gynnal asesiad o risgiau newid hinsawdd ar gyfer PGMH (52%)
- pecynnau cymorth cam wrth gam ymarferol i helpu PGMH i addasu, wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer safleoedd bach gyda llai o adnoddau
- data sy'n hawdd ei gyrchu a'i ddeall
- un lleoliad 'un alwad' ar gyfer adnoddau a gwybodaeth (gweler isod hefyd)

Awgrymodd nifer o'r rhai y cyfwelwyd â hwy sefydliadau a allai letya a hyrwyddo arweiniad, fel Historic England neu PlantNetwork.

Ariannu a grantiau

Dywed traean o randdeiliaid mai diffyg ariannu yw eu prif gyfyngiad i roi newidiadau addasol ar waith, nid diffyg syniadau neu ddiffyg parodrwydd i weithredu. Dywedodd bron pawb y cyfwelwyd â hwy fod ariannu'n hanfodol, yn enwedig ar gyfer addasu seilwaith. Yr eitemau mwyaf cyffredin a grybwyllwyd y mae angen ariannu ar eu cyfer yw:

- uwchraddio neu ailosod seilwaith sy'n anaddas at y diben yng ngoleuni newid hinsawdd, gan gynnwys pob agwedd ar systemau draenio, systemau dyfrhau, rhwydweithiau llwybrau a systemau dal dŵr (60%)
- cynlluniau peilot, treialon plannu, ac astudiaethau achos (25%)
- hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (35%); mae hyfforddiant lleol yn

arbennig o bwysig i'r gwledydd datganoledig

- adnewyddu lleiniau cysgodi a newid rhywogaethau planhigion er gwell gwydnwch
- staffio a/neu adeiladu capasiti, y gofynnir amdanynt yn benodol gan safleoedd llai (26%)
- offer newydd, er enghraifft offer a bwerir gan fatris, systemau arbed dŵr, paneli solar

Mae angen ariannu ychwanegol ar gyfer staff hefyd i gynyddu capasiti cynnal a chadw, a dywedodd nifer o randdeiliaid hefyd y byddai'n ddefnyddiol cynyddu capasiti staff i ddiweddarau neu baratoi cynllun cadwraeth a/neu i ryddhau amser staff i gynllunio camau addasu.

Dywedodd y rhai y cyfwelwyd â hwy hefyd fod angen ariannu ar gyfer cymorth ymgynghoriaeth mewn perthynas â:

- chynghor ar beirianeg dŵr, draenio a hydroleg (35%)
- lleiniau cysgodi coed a chamau cydnerthedd cyffredinol (22%)
- asesïadau o risgiau hinsawdd a chynllunio addasiadau (22%)
- plannu neu ddyluniadau treftadaeth (13%)
- peirianeg llifogydd arfordirol (4%)

Ffynhonnell wybodaeth ganolog

Dywedodd dros hanner (61%) y rhai a gyfwelwyd y byddai rhyw fath o 'hyb' adnoddau canolog yn ddefnyddiol. a hynny'n cynnwys:

- arweiniad syml ac ymarferol, wedi'i deilwra ar gyfer PGMH
- astudiaethau achos wedi'u curadu
- atgyfeiriadau i gontractwyr a chyflenwyr addas

Cymorth rhwydweithio â chymheiriaid ac ymweliadau safle

Mae bron pob rhanddeiliad yn gwerthfawrogi gweld beth mae eraill wedi'i wneud a chael cyfle i siarad yn onest ag ymarferwyr eraill, am fethiannau yn ogystal â llwyddiannau. Mae'r edafedd cryfion sy'n rhedeg drwy'r cyfweliadau fel a ganlyn:

- Hoffai 43% weld mwy o gefnogaeth i rwydweithiau cymheiriaid
- Byddai cymorth rhwydweithio â chymheiriaid yn arbennig o ddymunol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban oherwydd rhwystrau teithio

Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus

Dywed ychydig o dan hanner (48%) y rhanddeiliaid y byddai cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u targedu'n fwy sy'n ymwneud yn benodol â heriau PGMH yn ddefnyddiol. Nododd y rhai y cyfwelwyd â hwy bedwar prif faes o angen, gan gwmpasu gofynion strategol ac ymarferol:

- Dysgu gan gymheiriaid, gan gofleidio:
 - ymweliadau safle
 - cyfnewidfeydd lleol / rhanbarthol
 - astudiaethau achos a rennir a phrosiectau arddangos

- Digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus strategol ar lefel genedlaethol a/neu ranbarthol, gan gwmpasu:
 - hyfforddiant asesu risgiau hinsawdd yn benodol ar gyfer PGMH
 - addasu sy'n sensitif i dreftadaeth
 - ymgorffori materion newid hinsawdd a llunio polisïau a thargedau gweithredu mewn cynlluniau cadwraeth a chynlluniau rheoli
- Effeithiau hinsawdd, a dulliau a thechnegau ar gyfer addasu, gan gynnwys:
 - sut i reoli sychder, llifogydd, stormydd
 - technegau iechyd y pridd ac adfywiol
 - rheoli dŵr a draenio
 - plannu sy'n wydn i'r hinsawdd
- cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i ddysgu am blâu a chlefydau, yn benodol:
 - rhywogaethau *Phytophthora*
 - lindysyn y bocs / malltod
 - pathogenau newydd sy'n gysylltiedig â chynhesu hinsawdd

5 Arolwg Ar-lein


Crëwyd arolwg ar-lein i ehangu cwrddas ein hymholiadau. Gan weithio gyda'r un prif feysydd pwnc â holiadur y cyfweiliad, dyfeisiwyd cyfres o 32 o gwestiynau o dan benawdau eang tebyg, i ennyn mewnwelediadau ar draws yr un ystod o faterion â chwestiynau'r cyfweiliad. Rhoddir holiadur yr arolwg yn llawn yn Atodiad 2. Mae llawer o'r cwestiynau ar-lein yn cynnig opsiynau amlddewis, felly mae'r atebion yn addas ar gyfer y dadansoddiad data meintiol, y graffiau a'r tablau a nodir isod.

Roedd yr arolwg yn 'fyw' o ddechrau mis Chwefror tan ganol mis Mawrth 2026. Fe'i hyrwyddwyd yn helaeth gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Historic England. Yn y chwe wythnos yr oedd yr arolwg ar agor, derbyniwyd dros 100 o ymatebion. O'r rhain, roedd 79 o ymatebion o PGMH ar gofrestr / rhestr eiddo a, chan eu bod yn bodloni meini prawf yr astudiaeth, aethpwyd â nhw ymlaen at y cam dadansoddi.

5.1 Dealltwriaeth o newid hinsawdd ac arsylwadau

Mae Ffigur 5.1 isod yn dangos bod 75% o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn gymharol wybodus i hynod wybodus am effeithiau newid hinsawdd ar PGMH, a bod 3% yn unig sy'n credu nad ydynt yn wybodus o gwbl.

Ffigur 5.1: Sut fydddech chi'n disgrifio eich lefel o ddealltwriaeth am newid hinsawdd



Pan ofynnwyd iddynt a oedd newid hinsawdd yn dechrau achosi difrod i'w safleoedd, dywedodd 93% eu bod yn cytuno â'r datganiad hwn, gweler Tabl 5.1:

Tabl 5.1: A yw newid hinsawdd yn dechrau difrodi eich safle?


Answer Choices	Strongly agree	Somewhat agree	Neutral	Somewhat disagree	Strongly disagree	Response Total
Climate change is starting to damage this site	41% 31	52% 39	7% 5	0% 0	0% 0	75

Answered: 75 Skipped: 4

Mae'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a arsylwyd, a nodir yn Ffigur 5.2 isod, yn cyd-fynd yn agos â'r newidiadau a grybwyllwyd amlaf yn ystod cyfweiliadau â rhanddeiliaid, sef:

- cynnydd mewn sychder a thonau gwres
- stormydd, glaw dwys, gwyntoedd cryfion a llifogydd
- cynnydd mewn plâu a chlefydau

Ffigur 5.2: Pa newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ydych chi eisoes wedi'u gweld?



Gofynnwyd iddynt nodi pa nodweddion oedd yn cael eu heffeithio a faint, gellir crynhoi'r canlyniadau yn y Tabl isod fel a ganlyn 5.2:

- mae 90% o'r ymatebwyr yn adrodd am ddifrod i goed a phlanhigion
- mae 74% yn adrodd am ddifrod i seilwaith ac adeileddau gardd
- mae 69% yn adrodd am ddifrod i gynefinoedd a rhywogaethau

Tabl 5.2: I ba raddau ydych chi'n credu bod newid hinsawdd yn difrodi eich safle?

Answer Choices	Strongly agree	Agree	Neither agree nor disagree	Disagree	Strongly disagree	Response Total
Climate change is already damaging trees / planting	41.77% 33	48.10% 38	8.86% 7	1.27% 1	0.00% 0	79
Climate change is damaging ornamental / decorative features (for example, statues, pergolas)	10.96% 8	31.51% 23	43.84% 32	12.33% 9	1.37% 1	73
Climate change is damaging habitats / species	19.48% 15	49.35% 38	28.57% 22	2.60% 2	0.00% 0	77
Climate change is damaging structures / infrastructure (for example, paths, lakes, drains, glasshouses, walls)	27.63% 21	46.05% 35	18.42% 14	7.89% 6	0.00% 0	76


Answered: 79 Skipped: 0

5.2 Strategaeth a newid hinsawdd

Ar gyfer y cwestiwn yn gofyn a oes gan safle'r ymatebydd gynllun cadwraeth, mae 71% yn ateb bod ganddynt gynllun, sy'n cyfateb yn agos i'r ymatebion i'r cyfweliad, sef 75%.

I'r rhai sydd â chynllun, mae bron pob ymateb (93%) yn nodi bod eu cynlluniau'n cynnwys polisiau sy'n tywys rheoli safleoedd, ond mae llai na hanner (45%) yn dweud bod eu cynlluniau'n cynnwys polisiau newid hinsawdd. Allan o 79 o ymatebion, mae gan 32% o ymatebwyr bolisiau sy'n mynd i'r afael â newid hinsawdd yn eu cynlluniau cadwraeth (Ffigur 5.3) sydd unwaith eto'n debyg i ganfyddiadau'r cyfweliadau (35%).

Ffigur 5.3: Beth mae eich cynllun cadwraeth yn ei nodi?



Yna mae'r arolwg ar-lein yn gofyn a yw ymatebwyr yn cynllunio ar gyfer newid hinsawdd ar hyn o bryd, neu a ydynt yn disgwyl y bydd angen ystyried newid hinsawdd dros y pedair blynedd nesaf; Mae 82% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cynllunio nawr, gan godi i 98% erbyn 2030.

Pan ofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi cynnal unrhyw fath o asesiad o risgiau newid hinsawdd ar gyfer eu safle:

- mae 6% yn dweud bod ganddynt asesiad o risgiau hinsawdd
- mae 75% yn dweud nad oes ganddynt asesiad o risgiau hinsawdd
- mae 18% yn dweud ei fod yn cael ei drin mewn ffordd arall

Mae'r rhai sy'n ateb 'arall' yn cynnwys rhai ymatebwyr sy'n ymdrin â chydrannau penodol fel coed; cael sefydliad arall i wneud asesiadau; wrthi'n roi'r angen am asesiad ar waith neu wedi bwriadu cynnal eu hasesiad mewn rhyw ffordd, ond nid drwy gynllun cadwraeth.

5.3 Camau rheoli a newid hinsawdd


Pan ofynnwyd iddynt a oes gan eu safle gynllun rheoli, mae 75% o'r ymatebion ar-lein yn ateb yn gadarnhaol: cyfran uchel o gymharu â'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid, lle y dywedodd ychydig dros hanner y cyfweleion fod ganddynt gynllun rheoli. Fodd bynnag, mae cyfran llawer uwch o safleoedd yn y swp 'cyfweiliadau' yn eiddo preifat: 35%, o gymharu â

15% o'r safleoedd arolwg ar-lein. Mae'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid yn dangos tuedd i nifer fach o safleoedd preifat feddu ar gynllun rheoli.

Wrth gael eu holi am ba newidiadau sy'n cael eu gwneud i fynd i'r afael â newid hinsawdd (Ffigur 5.4 isod), y nodweddion canlynol yw'r rhai sy'n cael eu targedu:

- dewis rhywogaethau coed a phlanhigion
- rheoli dŵr gan gynnwys dyfrhau, casglu dŵr storm a dŵr glaw, amddiffyn rhag llifogydd a draenio
- newidiadau i ddyluniad gerddi a/neu dirweddau

Ffigur 5.4: Pa newidiadau sydd eisoes yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â newid hinsawdd?



Mae hyn eto'n adleisio'r nodweddion a ddyfynnir amlaf sy'n cael eu heffeithio a'u newid, yn nhrafodaethau'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid.

Mae canran sylweddol, 64%, yn ystyried bod y camau maen nhw'n eu cymryd yn gweddu i arwyddocâd y dreftadaeth. Tybir bod hyn yn deillio o arweiniad ar ffurf cynllun cadwraeth neu gynllun rheoli.

Wrth ymateb i'r cwestiynau ar-lein am rwystrau i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae llawer o ymatebion yn nodi mai ariannu yw'r prif fater, gweler Ffigur 5.5 isod.


Mae'r ymatebion yn datgelu'r canlynol:

- Mae llawer o ymatebwyr yn wynebu rhwystrau ariannol sylweddol wrth geisio gweithredu'r mesurau addasu angenrheidiol.
- Mae ansicrwydd ac eithafion tywydd yn ddud, er enghraifft ceisio dod o hyd i ddŵr ar gyfer dyfrio i ymdopi â gwres a sychder eithafol.
- Mae ceisio blaengynllunio a gosod blaengyllidebau yn erbyn cefndir o

anrhagweladwydd yn teimlo fel ceisio wynebu her amhosibl.


- Dywed un ymatebydd fod newid yn digwydd yn gyflymach nag y gallant ymateb.
- Mae angen gwybodaeth well, yn benodol o ran cyngor arbenigol, ac yn enwedig ynghylch pa goed i'w plannu.
- Dywed nifer o ymatebwyr ei bod hi'n anodd gwneud newidiadau i PGMH dynodedig.
- Mae sawl un hefyd yn nodi ei bod hi'n anodd mynd i'r afael â newid ac ar yr un pryd bodloni disgwyliadau'r cyhoedd.
- Mae dealltwriaeth gyhoeddus neu sefydliadol hefyd yn rhwysr i newid.
- Mae cael amser i ymateb, dysgu am newid hinsawdd ac addasu iddo hefyd yn rhwysr sylweddol.

Ffigur 5.5: Beth yw'r heriau / rhwystrau rydych yn eu hwynebu wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd?



Pan ofynnwyd a oes unrhyw gyfleoedd neu fanteision yn deillio o newid hinsawdd, cafwyd rhai ymatebion cadarnhaol, gweler Ffigur 5.6.

Ffigur 5.6: Beth yw'r cyfleoedd neu'r manteision sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd?



Mae cyfleoedd cadarnhaol a nodwyd yn cynnwys:

- Addasu ac adnewyddu plannu
- Gwella bioamrywiaeth
- Dod o hyd i gredydau enillion bioamrywiaeth net
- Adfer cynefinoedd
- Lleihau mewnbynnau cynnal a chadw
- Gwella olion troed carbon
- Gallu cyrchu credydau carbon
- Mynediad at wahanol fathau o ariannu ar gyfer dulliau â ffocws mwy amgylcheddol
- Cyfleoedd newydd ar gyfer addysg, datblygu sgiliau
- Cynigion newydd ac wedi'u hadnewyddu i ymwelwyr, gan gynnwys dehongli gwell

5.4 Cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar newid hinsawdd

Roedd y cwestiynau ar-lein wedi'u dylunio i fesur a blaenoriaethu'r hyn sydd ei angen ar ymatebwyr. Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn cael gwybodaeth am newid hinsawdd yn hawdd ei chyrchu, cytunodd ychydig llai na hanner (47%).

Pan ofynnwyd pa fathau o gyngor, arweiniad a chefnogaeth sydd fwyaf defnyddiol, mae'r canlynol yn dod i'r amlwg:

- Rhwydweithiau a chysylltiadau cymheiriaid lleol yw'r math mwyaf gwerthfawr o gefnogaeth o bell ffordd (75%)

Mae hyn yn cyfateb i ganfyddiadau'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid, lle mynegir yn gryf mai rhwydweithiau cymheiriaid anffurfiol yw'r ffynhonnell gyngor fwyaf dibynadwy.

Mae Tabl 5.3 isod yn rhoi dadansoddiad o'r holl ymatebion:

Tabl 5.3: Pa fathau o gyngor, arweiniad a chefnogaeth ydych chi wedi cael yn fwyaf defnyddiol?

Answer Choices	Most useful	Moderately useful	Infrequently useful	Not used	Response Total
Agency advice, for example, Historic Environment Scotland	9.46% 7	21.62% 16	14.86% 11	54.05% 40	74
Non-governmental organisation publications such as National Trust / Royal Horticultural Society guidance	16.88% 13	45.45% 35	16.88% 13	20.78% 16	77
National peer networks, for example, PlantNetwork, Professional Gardeners' Guild	18.42% 14	30.26% 23	14.47% 11	36.84% 28	76
Local peer networks / contacts	38.67% 29	36.00% 27	13.33% 10	12.00% 9	75
Formal training courses and/or continuing professional development	20.27% 15	28.38% 21	16.22% 12	35.14% 26	74
Conferences and seminars	24.36% 19	33.33% 26	19.23% 15	23.08% 18	78
Pilot or demonstration projects	15.07% 11	34.25% 25	13.70% 10	36.99% 27	73
Case studies	22.37% 17	38.16% 29	15.79% 12	23.68% 18	76
Internet searches, artificial intelligence	22.97% 17	40.54% 30	22.97% 17	13.51% 10	74

Answered: 78 Skipped: 1

Dewisodd tua 60% o'r ymatebwyr:

- Chwiliadau rhyngrwyd a deallusrwydd artifisial
- Cyhoeddiadau sefydliadau anllywodraethol fel arweiniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol
- Astudiaethau achos
- Cynadleddau a seminarau

Dewisodd tua 50% o'r ymatebwyr:


- Brosiectau peilot neu arddangos

- Rhwydweithiau cymheiriaid cenedlaethol fel PlantNetwork, Professional Gardeners Guild
- Cyrsiau hyfforddi ffurfiol a datblygiad proffesiynol parhaus

Ystyrir bod cyngor gan asiantaethau llywodraeth yn lleiaf defnyddiol.

Mae rhwystrau i gaffael gwybodaeth a chyrchu cefnogaeth hefyd yn cydweddu'n agos â chanfyddiadau cyfweiliadau â rhanddeiliaid. Diffyg amser yw'r rhwystr mwyaf arwyddocaol i gaffael gwybodaeth: Mae 87% o'r ymatebwyr yn nodi mai hyn yw eu prif rwysr. Mae diffyg ariannu a diffyg gwybodaeth ynghylch ble i ddod o hyd i wybodaeth hefyd yn rhwystrau mawr, gweler Ffigur 5.7 isod.

Ffigur 5.7: Beth yw eich barn chi am y rhwystrau i gaffael gwybodaeth a chefnogaeth?



Pan ofynnwyd pa gefnogaeth fyddai fwyaf defnyddiol dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, trwy raddio rhestr o ddeg cynnig cefnogaeth posibl, y pum uchaf oedd:

- cynllun grantiau ar gyfer camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer ymateb i addasu i newid hinsawdd, er enghraifft, ailblannu borderi, atgyweirio nodweddion dŵr, gosod draeniau
- helpu i ysgrifennu / diweddarau cynlluniau cadwraeth i fynd i'r afael â materion newid hinsawdd a darparu dull strategol gwell o ymdrin â newid hinsawdd
- creu canolfan/hyb gwybodaeth newid hinsawdd ar-lein a ddiwedderir yn rheolaidd a all atgyfeirio defnyddwyr at yr wybodaeth, y gweithgareddau, y rhwydweithiau diweddaraf, ac ati
- cynadleddau a seminarau penodol sy'n mynd i'r afael â materion newid hinsawdd mewn parciau a gerddi hanesyddol
- mynediad at amser ymgynghori arbenigol, er enghraifft, mentora / monitro / cefnogaeth y gellid eu defnyddio i ddiwallu anghenion tymor byr

Mae hyn yn cysylltu'n agos â chanfyddiadau o'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid, lle awgrymodd rheolwyr arweiniad a pheynnau cymorth; ariannu yn enwedig ar gyfer seilwaith; hyb adnoddau canolog; cefnogaeth ar gyfer cyfleoedd rhwydweithio a hyfforddi lleol. Mae Tabl 5.4 isod yn dangos y niferoedd gwirioneddol a'r graddau ar gyfer pob un o'r deg opsiwn a gynigiwyd.

Tabl 5.4: Dros yr 1 i 2 flynedd nesaf, pa gefnogaeth fyddai'n fwyaf defnyddiol i'ch helpu i ymateb i newid hinsawdd? Rhewch raddau ar y rhestr amgaeedig.

Item	Total Score ¹	Overall Rank
Grant scheme for targeted action to respond to climate change adaptation, for example, replanting of borders, repairs to water features, installation of drainage	539	1
Help to write / update conservation plans to address climate change issues and provide better strategic approach to climate change	519	2
Creation of a regularly updated online climate change knowledge centre / hub that can signpost users to latest information, activities, networks etc	494	3
Specific conferences and seminars addressing climate change issues in historic parks and gardens	486	4
Access to specialist consultancy time (for example, mentoring / monitoring / support that could be used to meet short term needs)	435	5
Help to update management plans so that they address climate change actions and heritage significance within the conservation plan	432	6
Support to undertake a climate change risk assessment / audit that can identify key actions that can be fed into management plans	421	7
Online tutorials / videos sharing knowledge and experience not only of successes but what didn't work too	341	8
Bring together the many networks, specialist non-governmental organisations and charities, agencies to provide a more coordinated approach to their varied support to avoid duplication	332	9
Creation of better links and awareness of networking opportunities, for example, direct support for particular key networks	291	10
Answered: 78 Skipped: 1		
¹ Score is a weighted calculation. Items ranked first are valued higher than the following ranks, the score is a sum of all weighted rank counts.		

Gofynnwyd i ymatebwyr ar-lein hefyd awgrymu adnoddau eraill yr hoffent eu gweld dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i'w helpu i ymateb i newid hinsawdd. Ariannu yw'r categori mwyaf o geisiadau sef 40% at ei gilydd; mae hyn wedi'i rannu ar draws:

- addasu i'r hinsawdd, yn gyffredinol
- addysg i'r cyhoedd
- buddsoddi mewn seilwaith
- cynnal a chadw
- cynllunio
- staffio
- adnewyddu plannu Ymhlith y ceisiadau eraill oedd:
- astudiaethau achos / arfer gorau (10%)
- cysylltiadau gwell i wybodaeth (6%)
- templedi asesu risgiau newid hinsawdd (4%)
- strategaeth gydlynol i'r DU (4%)
- cyfeiriaduron planhigfeydd (2%) a chontractwyr (2%) arbenigol

6 Arfarniad

6.1 Dull dadansoddi

Mae newid hinsawdd yn gymhleth ac yn arwain at bwysau lluosog sy'n gwrthdaro; cynhyrchwyd cyfoeth o wybodaeth drwy'r 23 o gyfweiliadau a'r arolwg ar-lein. Mae Penodau 4 a 5 yn ceisio nodi'r pethau cyffredin a'r eithriadau yn gryno, tra ar yr un pryd yn cofleidio holl agweddau pwysig y canfyddiadau cynhwysfawr.

Mae'r adran hon, Pennod 6, yn ceisio croesdorri a chymathu'r canfyddiadau hyn ac yn archwilio'r materion sy'n dod i'r amlwg y mae'r sector yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Felly mae'r gwaith y tu ôl i'r bennod hon yn dibynnu llai ar ddadansoddi data meintiol ac yn fwy ar ystyriaethau proffesiynol o'r mewnwelediadau a gafwyd yn ystod yr ymchwil.

Mae rhan gyntaf y bennod hon yn ystyried canfyddiadau mewn perthynas ag amcanion yr astudiaeth. Yna trafodir pa mor agored y mae PGMH i newid hinsawdd. Yn olaf, archwilir y canfyddiadau mewn ymarfer sy'n ystyried y cryfderau, y gwendidau, y bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n wynebu PGMH.

6.2 Amcanion yr astudiaeth a'r canfyddiadau allweddol

Mae amcanion yr astudiaeth hon wedi'u nodi mewn rhestr yn y cyflwyniad; fe'u defnyddir yma fel penawdau ar gyfer yr adrannau isod.

6.2.1 Amcan 1: deall yn well sut mae PGMH yn ymateb i newid hinsawdd, er mwyn darparu mewnwelediad i raddfa ac angen

Drwy gydol y cyfweiliadau, daeth yn gynyddol amlwg bod cysylltu â rheolwyr y PGMH yn werthfawr iawn ac yn ddefnyddiol, nid yn unig i'r ymgynghorwyr a fu'n archwilio materion yr astudiaeth, ond oherwydd bod y trafodaethau wedi ysgogi rheolwyr i feddwl yn fanylach am faterion newid hinsawdd a'i ganlyniadau posibl ar gyfer eu safle. Dywedodd llawer o randdeiliaid eu bod yn gwerthfawrogi'r rhyngweithio, a'r cyfle i archwilio gwahanol faterion a safbwyntiau.

Cytunodd bron pawb fod patrymau hinsawdd a thywydd yn newid, a bod y rhanbarth hinsawdd yn dylanwadu'n gryf ar y math o effeithiau hinsawdd a brofir a pha mor brys y mae'r ymateb.

- Mae safleoedd yn rhanbarth hinsawdd y de-ddwyrain yn adrodd yn gyson am straen sychder cynyddol, marwolaethau coed, pwysau dyfrhau, a difrod i'r tir sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr yn ystod cyfnodau sych parhaus.
- Mae safleoedd yn y gogledd-ddwyrain yn profi cyfnodau gwlyb iawn a all atal gweithrediadau, gyda dwyster glaw sy'n niweidio llethrau; a cholli canopïau coed a lleiniau cysgodi helaeth, o ganlyniad i stormydd.
- Mae safleoedd yn y gogledd-orllewin yn pwysleisio glaw gormodol, llifogydd, erydiad, tir dan dŵr, cynnydd mewn clefydau ffwngaid, a difrod stormydd fel eu prif broblemau.

- Yn y de-orllewin, mae safleoedd hefyd yn adrodd am effeithiau glaw dwys, wedi'u gwaethgu gan dir serth a chysiau dŵr, ac eto gallant brofi sychder hirfaith hefyd.

Mae cydnabyddiaeth o ddylanwad newid hinsawdd yn gyffredinol. Mae ymarferwyr ar draws pob un o'r pedwar rhanbarth hinsawdd yn disgrifio:

- anrhagweladwyedd cynyddol yn hytrach nag un duedd ddominyddol
- ffiniau tymhorol sy'n aneglur
- normau hanesyddol ac arferion traddodiadol nad ydynt yn ddibynadwy mwyach

Er y ceir rhywfaint o dystiolaeth o ychydig o sgeptigiaeth ynghylch achosion a chyflymder newid, nid yw hyn i'w weld yn cyfyngu ar weithredu, ac mae rheolwyr ym mhobman i gyd yn ceisio ymateb mewn ffyrdd ymarferol.

Yn ogystal ag amrywiadau rhanbarthol, casglodd yr astudiaeth wybodaeth hefyd ar ffactorau fel perchnogaeth, maint y safle, nifer y gweithwyr, hyd amser y cyfwelai yn y swydd, nifer yr ymwelwyr, i weld a yw'r rhain hefyd yn ffactorau dylanwadol, ac i ba raddau.

Daw gwahaniaeth clir i'r amlwg rhwng safleoedd sy'n ymateb yn dda ac yn ymdopi â newidiadau, a safleoedd nad ydynt. Mae maint a chymhlethdod safleoedd yn dod i'r amlwg fel penderfynyddion pwysig o ran bregusrwydd a'r gallu i addasu, ac mae anghenion pob grŵp yn unigryw ac yn wahanol:

- Mae safleoedd mawr a'r rhai â nifer uchel o ymwelwyr yn wynebu pwysau cyfunol: mae effeithiau hinsawdd yn croestorri â diogelwch ymwelwyr, mynediad, ffrydiau incwm, a risgiau i enw da. Mae llifogydd, stormydd, a methiannau llwybrau yn cael canlyniadau gweithredol uniongyrchol, gan orfodi cau'r safle a gwariant adweithiol. Yn aml, mae'r safleoedd hyn angen atebion ar raddfa seilwaith (draenio, rheoli dŵr, ailadeiladu llwybrau) sy'n llawer mwy na chyllidebau cynnal a chadw arferol.

I'r gwrthwyneb:

- Mae safleoedd llai a PGMH sy'n eiddo preifat yn aml yn brin o gyfalaf ond yn elwa o fwy o hyblygrwydd. Gall gwneud penderfyniadau fod yn gyflymach, mae arbroti weithiau'n fwy derbyniol, ac yn aml gall addasu fynd rhagddo fesul cam heb brosesau cymeradwyo helaeth. Fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn cael eu gwrthbwysu gan staff ac adnoddau cyfyngedig iawn, dibyniaeth ar wybodaeth dawl, a'r perygl o golli gwybodaeth hirhoedlog a manwl am y safle, yn enwedig pan fydd prif arddwyr yn ymddeol neu'n adleoli. Mae angen offer hygyrch a chyflym ar safleoedd o'r fath i'w helpu i asesu arwyddocâd, risgiau hinsawdd ac effeithiau treftadaeth; cysylltiadau gwell â ffynonellau cyngor ac enghreifftiau da, a chymhellion i annog ymgysylltu a gweithredu.

6.2.2 Amcan 2: nodi ymwybyddiaeth o offer ac adnoddau presennol a'r defnydd ohonynt

Mae llawer o reolwyr yn ymwybodol o rywfaint o arweiniad a gwybodaeth sydd ar gael ond maent hefyd yn ymwybodol o'r cyfyngiadau: mae'n dameidiog iawn, yn anwadal o ran manylder, ac anaml y caiff ei ysgrifennu mewn ffordd y gellir ei chymhwyso'n uniongyrchol i'r cymysgedd o nodweddion tirwedd ddyluniedig, garddwriaeth, coedyddiaeth, ecoleg, hydroleg, archaeoleg ac adeiladau sy'n cydfodoli ar y rhan fwyaf o safleoedd.

Y broblem ganolog gyda'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yw nid yn unig diffyg gwybodaeth, ond yr amser a'r arbenigedd cronus sydd eu hangen i leoli, trosi ac integreiddio adnoddau generig lluosog yn benderfyniadau safle-benodol y gellir eu cyfiawnhau. Mae hyn yn cyfrannu at:

- ymdrech ddyblyg ar draws y sector
- canlyniadau anghyson ar draws y sector
- lefel wahanol o gydnerthedd rhwng sefydliadau mwy sydd â gwell adnoddau a sefydliadau PGMH llai sydd â llai o adnoddau a phroblemau gwahanol

Mae bylchau a nodwyd yn yr adnoddau presennol yn cynnwys:

- diffyg arweiniad DU gyfan cynhwysfawr sy'n hygyrch ac ar gael yn rhwydd, wedi'i deilwra'n benodol i fodloni gofynion unigryw PGMH
- diffyg arweinyddiaeth ac arweiniad cadarn gan y cyrff treftadaeth i helpu rheolwyr i wneud penderfyniadau gwybodus y gellir eu cyfiawnhau am faterion fel blaenoriaethu; sut i gynnal gwerthoedd treftadaeth; a sut i gydbwyso ystyriaethau arwyddocâd treftadaeth â ffactorau fel diogelwch y cyhoedd, adferiad byd natur, cost, a chynladwyedd hirdymor
- argaeledd cyfyngedig dulliau asesu risgiau hinsawdd ymarferol ar gyfer y safle cyfan sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o arwyddocâd cyffredinol (yn hytrach na chynghor ar gydrannau unigol)
- Diffygion wrth gyfeirio at:
 - gyfleoedd datblygu sgiliau a datblygiad proffesiynol parhaus
 - sut i nodi a chaffael cefnogaeth arbenigol (er enghraifft hydroleg, peirianeg, patholeg), yn enwedig ar gyfer safleoedd llai
- Datrysiadau lliniaru a seiliedig ar natur sector-benodol sydd heb eu datblygu'n ddigonol ac sy'n gydnaws â PGMH

Mae bylchau fel y rhain yn helpu i esbonio rhai o'r rhwystrau i newid, a archwilir ymhellach yn yr adran isod.

Mae cwestiynau a godwyd dro ar ôl tro mewn sgysiau cyfweliad yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r materion, gan gynnwys cydnabod bod cadwraeth ymarferol yn gweithio ar egwyddor rheoli newid mewn ffordd sy'n cynnal arwyddocâd treftadaeth, nid atal newid yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae materion a godwyd gan y rhai y cyfwelwyd â hwy yn dangos bod angen trafodaethau ar draws y sector, arweiniad cliriach, ac enghreifftiau da o sut i fynd i'r afael â materion a godir gan newid hinsawdd gan gynnwys, yn benodol:

- sut y dylai safleoedd ar gofrestrau / rhestrau eiddo gynnal eu harwyddocâd a'u cymeriad tra'n addasu i newid hinsawdd
- pa lefel o newid sy'n dderbyniol a pha egwyddorion y dylid eu dilyn i asesu hyn
- a yw 'ysgogi cymeriad hanesyddol' yn hytrach na 'dilysrwydd hanesyddol' yn dderbyniol
- sut y dylid trin casgliadau genws
- a yw'n bwysig nad yw seilwaith yn cael ei newid ar sail tebyg am debyg
- beth yw 'cydnerthedd' a pha derminoleg y dylid ei defnyddio o amgylch newidiadau parhaus a sbardunir gan yr hinsawdd

Lle mae cynnydd yn fwyaf amlwg, mae sawl ffactor galluogi yn bresennol:

- rhwydweithiau cymheiriaid cryfion
- arweinyddiaeth gefnogol
- dehongliad hyblyg o werthoedd treftadaeth
- mynediad at brosiectau arddangos a/neu ariannu peilot

Gwerthfawrogi dysgu rhwng cymheiriaid uwchlaw arweiniad ffurfiol yn gyson. Mae yna ymdeimlad bod rhyngweithio cymdeithasol, yn enwedig ymweliadau â safleoedd a chyfluoedd i weld beth sy'n gweithio (a beth sydd ddim), i drafod heriau gydag eraill sy'n wynebu'r un problemau, yn elfen bwysig o ddysgu a dealltwriaeth rheolwyr a staff safleoedd.

6.2.3 Amcan 3: deall sut mae rheolwyr yn nodi ac yn asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth ymateb

Mae asesiadau o risgiau hinsawdd yn brin, ond mae'r rhai sydd wedi'u cynnal wedi cael eu gwerthfawrogi. Mae angen clir am asesiadau o risgiau newid hinsawdd syml sy'n helpu rheolwyr i nodi problemau a chynllunio ymatebion penodol sy'n briodol i anghenion eu PGMH.

Er gwaethaf gwahaniaethau cyd-destunol, mae'r rhwystrau y mae rheolwyr yn eu hwynebu'n rhyfeddol o gyson ar draws sampl yr astudiaeth. Nododd rheolwyr y canlynol:

- cyfyngiadau ariannu, yn enwedig ar gyfer addasu seilwaith
- diffyg amser ac adnoddau staff, sy'n cyfyngu ar:
 - feddwl yn strategol
 - gallu ymgymryd â hyfforddiant ac ehangu'r sylfaen wybodaeth
 - gallu paratoi dogfennaeth fel cynlluniau rheoli, cynlluniau gweithredu
- gwybodaeth dameidiog, wedi'i gwasgaru ar draws sefydliadau, disgyblaethau a rhwydweithiau anffurfiol, sy'n anodd ei haddasu a'i chymhwyso i'r matrices o nodweddion a materion a geir fel arfer mewn PGMH
- prosesau llywodraethu a chymeradwyo, yn enwedig mewn sefydliadau mwy neu safleoedd dynodedig
- mewn rhai lleoedd, gwrthwynebiad sefydliadol i newidiadau addasu i'r hinsawdd, gan gynnwys:
 - ymlyniad at 'ddilysrwydd hanesyddol' ac ymddangosiad
 - sgeptigiaeth ynghylch newid hinsawdd
 - ofn anfodlonrwydd ymwelwyr

Gall y rhwystrau hyn ryngweithio yn hytrach na gweithredu'n annibynnol, er enghraifft: mae diffyg ariannu'n cynyddu dibyniaeth ar waith cynnal a chadw adweithiol, sydd yn ei dro yn lleihau amser ar gyfer cynllunio a dysgu, gan atgyfnerthu bregusrwydd.

6.2.4 Amcan 4: nodi sut mae penderfyniadau cynnal a chadw a rheoli'n cael eu blaenoriaethu, ac a yw arwyddocâd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn cael eu cydbwysu

Lle mae cynlluniau cadwraeth a/neu reoli effeithiol yn bodoli ac yn cael eu trin fel dogfennau byw, nododd yr astudiaeth eu bod yn cael eu defnyddio fel offer i:

- gefnogi dadleuon dros newid
- gosod blaenoriaethau yn seiliedig ar arwyddocâd
- galluogi addasu i'r hinsawdd i gael ei fframio fel cadwraeth yn hytrach na cholled

Mewn cyferbyniad, mae cynlluniau sydd wedi dyddio, neu absenoldeb llwyr cynlluniau, yn cyfyngu ar wneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu, sy'n arbennig o amlwg mewn sefydliadau mwy ac sy'n atebol i'r cyhoedd.

Yn benodol, mae llawer o gynlluniau'n dyddio'n ôl i adeg pan nad oedd newid hinsawdd yn ystyriaeth ac felly nid ydynt yn cynnig unrhyw bolisi perthnasol nac arweiniad ymarferol. O ganlyniad i hyn mae rheolwyr safle'n gweithredu heb gyfeirio at gynlluniau a dogfennau, yn enwedig wrth ymateb i ddigwyddiadau eithafol.

Mae garddwyr proffesiynol tra phrofiadol yn fwy hyderus ac yn aml yn dibynnu ar reddf ac arsylwi dros flynyddoedd i wneud penderfyniadau gwybodus, ond ymreolaethol. Mae rheolwyr llai profiadol yn fwy tebygol o geisio arweiniad a chyfeirio at gynlluniau ysgrifenedig, ond efallai y byddant wedyn yn brin o'r adnoddau, na'r awdurdod i roi newidiadau ar waith.

Gall safleoedd gyda thimau bach o arddwyr, fel arfer o dan 5 FTE, gael eu gorlethu bron yn gyfan gwbl gan sicrhau diogelwch ymwelwyr, a gwneud gwaith cynnal a chadw adweithiol.

Cododd safleoedd sydd â thimau staff mwy set wahanol o faterion sy'n effeithio ar benderfyniadau rheoli, gan gynnwys

- gwrthwynebiad i newid o fewn eu sefydliad
- yr angen am ymgynghori a chydlynu helaeth cyn y gellir cymryd camau

Felly mae darlun yn dod i'r amlwg o anghysondeb sylweddol ar draws y sector, gyda rhai PGMH wedi'u halinio ag arfer gorau cyfredol ac yn gallu dangos penderfyniadau ac ymatebion cadarn, ond gyda llawer o rai eraill â bwlch rhwng polisi cynlluniedig ac arfer gwirioneddol, a lle, o ganlyniad, mae gwerthoedd treftadaeth mewn perygl o gael eu diystyru neu eu rhoi o'r neilltu.

Thema gyffredin yw 'ysgogi cymeriad hanesyddol' yn hytrach nag 'efelychu sy'n ddilys yn hanesyddol' fel egwyddor arweiniol i helpu i gymodi sensitifrwydd treftadaeth â realiti effeithiau newid hinsawdd: y nod yw caniatáu i werthoedd treftadaeth gael eu parchu i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, gan ddefnyddio rhywogaethau planhigion a/neu ddeunyddiau amgen i gynnal bwriad y dyluniad, yr effaith ofodol a chroywder pan nad yw efelychu hanes yn hyfyw mwyach.

Mae rheolwyr hefyd yn greadigol wrth ystyried bod newid hinsawdd yn gyfle i symud lle bo modd i ddulliau rheoli mwy naturiol a/neu weithrediadau cynnal a chadw mewnbwn isel, sydd yn aml o fudd i fioamrywiaeth hefyd. Mae esbonio newidiadau, a'r rhesymau y tu ôl iddynt, hefyd yn cryfhau ymgysylltu ag ymwelwyr ac yn hyrwyddo gwerthfawrogiad ehangach o'r materion cymhleth a wynebir.

6.2.5 Amcan 5: nodi anghenion, cyfleoedd, risgiau a galw am gyngor, offer a chymorth, gan gynnwys cynllun gweithredu i alluogi addasu

Gan gyfuno ymatebion o'r cyfweiliadau a'r arolwg ar-lein, gellir crynhoi'r mathau o gefnogaeth y gofynnir amdanynt fwyaf fel a ganlyn:

- arweiniad ymarferol a phecynnau cymorth
- mynediad at ariannu a grantiau, ar gyfer:
 - addasu i'r hinsawdd yn gyffredinol
 - addysg i'r cyhoedd
 - buddsoddi mewn seilwaith, yn enwedig atgyweiriadau i nodweddion dŵr, gosod draeniau, adnewyddu llwybrau
 - cynnal a chadw
 - cynllunio
 - staffio
 - adnewyddu plannu
- ffynhonnell wybodaeth ganolog gyda dolenni neu atgyfeirio i'r:
 - wybodaeth, gweithgareddau, rhwydweithiau diweddaraf
 - cyngor ac arweiniad gan gynnwys templed asesu risgiau newid hinsawdd
 - cyfeiriaduron planhigfeydd a chontractwyr arbenigol
- cefnogaeth ar gyfer rhwydweithiau cymheiriaid a dysgu trwy ymweliadau safle ac astudiaethau achos arfer gorau
- cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys cynadleddau a seminarau penodol sy'n mynd i'r afael â materion newid hinsawdd mewn PGMH
- gwelliant yn yr arweiniad strategol
- helpu i ysgrifennu neu ddiweddarau cynlluniau cadwraeth a/neu gynlluniau rheoli PGMH er mwyn mynd i'r afael â materion newid hinsawdd a darparu dulliau newid hinsawdd strategol gwell
- mynediad at amser ymgynghoriaeth arbenigol, er enghraifft, cefnogaeth fentora / monitro y gellir ei defnyddio i ddiwallu anghenion tymor byr

Yn ogystal â gofyn yn uniongyrchol i ymatebwyr nodi eu hanghenion, archwiliodd yr astudiaeth hefyd a allai anghenion amrywio ar draws y sector a sut; ac felly, a ddylid targedu cefnogaeth yn benodol er mwyn iddi fod yn fwy effeithiol.

Mae dadansoddi'n awgrymu bod anghenion yn amrywio, gan ddibynnu ar

- hyd profiad unigolion
- maint y safle
- y math o sefydliad, boed yn eiddo preifat neu'n eiddo cyhoeddus

Y patrwm cyson cryfaf yw bod rheolwyr ar draws y sector yn gwerthfawrogi cefnogaeth ymarferol a defnyddiol yn hytrach na gwybodaeth generig.

6.3 Mae pob PGMH mewn perygl

Mae tua 2,800 o barciau a gerddi ar draws y DU yn cael eu cydnabod yn ffurfiol am eu gwerth hanesyddol trwy eu cynnwys ar gofrestrau o ddiddordeb hanesyddol.

Ar sail canfyddiadau'r astudiaeth, nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl bod rheolwyr PGMH ar draws y wlad yn gweld effeithiau uniongyrchol ein hinsawdd sy'n newid, ar lawr gwlad, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn cydnabod bod newid hinsawdd yn cael effaith.

Mae'r mathau o effeithiau'n amrywio yn ôl rhanbarth, o sychder a phrinder dŵr yn y de-ddwyrain i lifogydd, erydiad a difrod stormydd yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin. Ar draws pob rhanbarth, mae rheolwyr yn adrodd y canlynol yn gyson:

- anrhagweladwyedd cynyddol, chwalfa mewn patrymau tymhorol
- arferion rheoli traddodiadol sy'n cael eu disodli gan yr angen am ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau tywydd eithafol
- pwysau gweithredol a staffio
- effeithiau ar brofiadau ymwelwyr

Mae newid hinsawdd yn fygythiad clir iawn a dirfodol: mae pob PGMH yn wynebu risgiau.

Ar draws y sector, gwelir rhwystrau cyffredin i newid: cyllid annigonol, amser staff cyfyngedig, gwybodaeth dameidiog, diffyg hyfforddiant, gwrthwynebiad mewnol i newid, ac oedi o ran llywodraethu. Ac eto, mae cyfleoedd clir hefyd: mae safleoedd sydd ag arweinyddiaeth gefnogol, rhwydweithiau cymheiriaid, dehongliadau hyblyg o arwyddocâd, a mynediad at ariannu peilot yn addasu'n fwy hyderus. Mae llawer o reolwyr yn galluogi tirweddau PGMH i esblygu ac ar yr un pryd cadw hanfod eu cymeriad hanesyddol.

6.3.1 Y safleoedd mwyaf agored i niwed

Mae hefyd yn amlwg o'r trafodaethau, er bod risg i bob PGMH mewn perygl, fod rhai yn wynebu risg uwch nag eraill.

Nododd un cyfwelai y gallai eu safle mewn lleoliad arfordirol gael ei golli o fewn y 50 mlynedd nesaf i ymchwydd yn lefel y môr. Er nad yw pob PGMH arfordirol yr un mor agored i newid o lefel y môr, dyma un maen prawf y gellid ymchwilio ymhellach iddo.

Gellir gweld patrwm o fregusrwydd cymharol rhwng gwahanol fathau o PGMH: mae parciau a gerddi llai sydd ym mherchnogaeth breifat / ymddiriedolaeth gydag adnoddau cyfyngedig i'w gweld yn fwy agored i effeithiau newid hinsawdd na safleoedd mwy, y rhai sy'n eiddo cyhoeddus a/neu'n cael eu rheoli gan sefydliadau cenedlaethol. Mae canolfannau PGMH preifat llai yn aml yn ddibynnol ar un perchennog neu ar dîm bach iawn, tra bod gan sefydliadau mwy gapasiti a systemau cymorth mewnlol ehangach, ond maent yn wynebu heriau sylweddol o ran llywodraethu cymhleth a seilwaith.

O ganlyniad i natur gyflym a chyfyngedig yr astudiaeth hon, eithriwyd PGMH mewn perchnogaeth dameidiog a/neu fasnachol, ond mae'n debygol y bydd yr PGMH hyn yr un mor agored i niwed neu hyd yn oed yn fwy agored i niwed, gan y gallai fod gan eu rheolwyr o bosibl flaenoriaethau gwahanol iawn a'u bod wedi'u datgysylltu o ystyriaethau cadwraeth.

Gellir crynhoi'r rhwystrau cylchol a nodwyd yn yr ymatebion i safleoedd llai sy'n eiddo preifat, fel a ganlyn:

- cyfalaf cyfyngedig ar gyfer gwaith addasu mawr fel draenio, amddiffynfeydd rhag llifogydd, mesurau rheoli erydiad, storio dŵr a dyfrhau sy'n effeithlon o ran dŵr
- blaenoriaethau perchnogion a chyfyngiadau llywodraethu
- diffyg dogfennau strategol fel cynlluniau cadwraeth, cynlluniau rheoli ac asesiadau o risgiau hinsawdd
- colli'r prif arddwr yn anochel yn y pen draw, sydd fel arfer yn golygu colli gwybodaeth fanwl a hirsefydlog am y safle
- dibyniaeth fawr ar rwydweithiau anffurfiol am gyngor ac arweiniad, gyda'r risg y bydd camgymeriadau'n cael eu hailadrodd
- timau bach iawn a llwythi gwaith tra adweithiol, gan gyfyngu'n ddifrifol ar unrhyw gapasiti ar gyfer cynllunio a/neu hyfforddi
- mae ymddangosiad treftadaeth a disgwyliadau ymwelwyr yn gweithredu fel cyfyngiad
- ffrydiau incwm sy'n sensitif i'r tywydd a heriau o ran llif arian parod
- anawsterau wrth gyrchu arbenigedd a chontractwyr arbenigol
- anhawster wrth gyfiawnhau buddsoddi ataliol, yn enwedig yn wyneb gwariant yn sgil difrod o ddigwyddiadau eithafol

Gan fod yr astudiaeth hon yn dangos bod y safleoedd hyn yn arbennig o agored i niwed, mae'n bwysig bod yr argymhellion yn ymateb i'w hanghenion penodol ac yn eu blaenoriaethu.

Fodd bynnag, mae meini prawf posibl eraill, megis arddulliau tirwedd penodol, lleoliad gorlifdir, casgliadau rhywogaethau penodol, dibyniaeth ar fonorywogaethau ar gyfer nodweddion hanesyddol penodol, na allai'r astudiaeth hon ymdrin â nhw oherwydd maint y sampl.

Gellid archwilio'r ffactorau hyn hefyd er mwyn datblygu dealltwriaeth fanylach o risgiau a graddau bregusrwydd ar draws holl PGMH y DU.

6.4 Cryfderau, gwendidau, bygythiadau a chyfleoedd

6.4.1 Cryfderau

- Mae'r sector yn dibynnu'n gryf ar wybodaeth benodol am safleoedd a phrofiad hir o safleoedd.
- Mae rheolwyr safleoedd eisoes yn cymryd camau addasu i'r hinsawdd, gan ddangos sgiliau a dyfeisgarwch.
- Mae gwybodaeth arddwriaethol yn llywio penderfyniadau i roi'r 'planhigyn cywir yn y lle cywir'.
- Mae camau eisoes yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phroblemau newid hinsawdd:
 - mae planhigion a chasgliadau planhigion yn cael eu haddasu
 - mae arferion storio dŵr, dyfrhau a rheoli pridd yn newid
 - mae arferion rheoli plâu a chlefydau'n newid
 - mae dulliau ac arferion gwaith yn newid
- Mae rhai camau gweithredu newid hinsawdd yn arwain at welliannau mewn bioamrywiaeth.
- Mae rhai PGMH yn glir iawn ynghylch blaenoriaethu a chynllunio camau gweithredu hinsawdd mewn perthynas ag arwyddocâd treftadaeth.
- Mae nifer o PGMH eisoes yn ymateb yn arbennig o dda i heriau newid hinsawdd, sy'n darparu ffynhonnell arfer da ac astudiaethau achos.
- Mae rhai safleoedd sy'n cael eu rheoli'n dda yn dangos cryfderau cyfunol cynllunio strategol da (trwy gynlluniau cadwraeth a chynlluniau rheoli) o ran cyflwyno camau rheoli.
- Mae arloesi ac arbrofi'n digwydd.
- Defnyddir rhwydweithiau cymheiriaid a phroffesiynol fel ffynonellau gwybodaeth a chyingor yr ymddiriedir ynddynt yn helaeth.
- Mae sefydliadau rhwydweithiau da eisoes yn bodoli, a allai gynorthwyo ymgysylltu â'r sector, er enghraifft Historic Houses Association.
- Mae partneriaethau newydd yn ffurfio i rannu gwybodaeth ac i geisio a sicrhau ariannu.
- Mae ymwelwyr a rhanddeiliaid yn ymgysylltu mwyfwy â materion newid hinsawdd, sut mae amgylcheddau PGMH yn cael eu heffeithio a pham mae newidiadau'n angenrheidiol.

6.4.2 Gwendidau

- Mae newid hinsawdd yn achosi gwriad amlwg o gylchoedd rheoli cynlluniedig sydd wedi'u cymhwyso'n gyson tuag at fodel adweithiol, er enghraifft, ymateb i'r digwyddiad tywydd eithafol diweddaraf. Mewn llawer o achosion, eisoes, ni chyrhaeddir sefydlogrwydd a 'dychweliad i normal' cyn i'r digwyddiad eithafol nesaf gyrraedd.
- Mae cyfyngiadau o ran amser, adnoddau staff a chapasiti rheoli'n dominyddu pob penderfyniad rheoli.
- Gydag angen cynyddol am gamau rheoli adweithiol, ychydig iawn neu'n absennol yw'r amser ac adnoddau sydd ar ôl ar gyfer dysgu a blaengynllunio.

- Mae cynlluniau cadwraeth a rheoli sydd, fel rhan o arfer gorau cadwraeth, yn esbonio arwyddocâd treftadaeth a'r sail resymegol dros benderfyniadau rheoli:
 - yn gallu bod yn feichus, yn cael eu hystyried yn ddogfennau strategol lefel uchel ac yn aml yn aneffeithiol fel offer rheoli ymarferol
 - yn aml wedi dyddio neu'n anghyflawn, ac nid ydynt yn ystyried materion newid hinsawdd
 - yn brin y tu allan i safleoedd sydd ym mherchnogaeth gyhoeddus neu sefydliadau treftadaeth genedlaethol
 - y tu hwnt i allu safleoedd llai i'w paratoi a'u gweithredu
- Mae risg o niwed a cholled i arwyddocâd treftadaeth oherwydd:
 - nad yw camau rheoli sy'n mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd o reidrwydd yn cael eu blaenoriaethu mewn perthynas â gwerthoedd treftadaeth
 - bod diffyg arweiniad i esbonio'r ffordd orau o ddiogelu gwerthoedd treftadaeth ac arwyddocâd treftadaeth ac ar yr un pryd addasu i fynd i'r afael â phwysau newid hinsawdd
 - bod 'na ofn hefyd o wneud y peth anghywir mewn perthynas â chyfyngiadau treftadaeth, gan arwain at anweithgarwch mewn rhai achosion
- Er bod llawer o reolwyr yn gwybod beth allent ei wneud i frwydro yn erbyn effeithiau newid hinsawdd, nid oes ganddynt ariannu hygyrch i weithredu newidiadau.
- Mae arweiniad yn dameidiog ac yn anodd dod o hyd iddo, ac yn aml mae'n yn rhy generig neu'n rhy haniaethol i fod yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â phroblemau sy'n benodol i safle mewn ffordd ymarferol a all gael ei gyflawni.
- Mae gwybodaeth amrywiol ar draws y sector a dibyniaeth fawr ar rwydweithiau personol am gyngor.
- Mae rhai staff, yn enwedig ar safleoedd llai, ac ar lefelau is, yn ei chael hi'n anodd cyrchu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.
- Mae mynediad at hyfforddiant yn gyfyngedig oherwydd gofynion ar amser staff, rolau a chyfrifoldebau staff, cost, a lleoliad daearyddol.
- Gall gwybodaeth fanwl sy'n benodol i'r safle gael ei cholli pan fydd staff hirsefydlog yn gadael, gan arwain at ddiffyg parhad, risg o ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol, ac ati.
- Credir bod rhai PGMH yn wynebu mwy o risg, gan gynnwys:
 - PGMH bach mewn perchnogaeth breifat gyda nifer fach o staff, sydd i'w gweld â phrinder capasiti i ymateb i'r angen i newid ac addasu
 - PGMH a reolir gan sefydliadau masnachol (fel gwestai neu ysgolion), a allai fod â blaenoriaethau heblaw cadwraeth treftadaeth
 - safleoedd mewn perchnogaeth lluosog a allai fod heb ffocws strategol clir
 - safleoedd ar gofrestrau risg / rhestrau eiddo oherwydd problemau rheoli neu gyflwr
- Mewn rhai lleoedd mae gwrthwynebiad sefydliadol, diwylliannol neu unigol i'w oresgyn, yn enwedig os yw:
 - trefniadau llywodraethu / prosesau cymeradwyo mewn sefydliadau mwy yn rhwystro camau rheoli amserol ac effeithiol
 - canfyddiadau sefydliadol o'r hyn y bydd y cyhoedd yn ei dderbyn yn rhwystro,

gan gyfyngu ar yr hyn y gall rheolwyr ei wneud hyd yn oed pan fydd ganddynt yr wybodaeth a'r adnoddau

6.4.3 Bygythiadau

- Gallai parciau a gerddi o arwyddocâd hanesyddol, neu rannau mawr ohonynt, gael eu newid neu eu colli'n sylweddol oherwydd newid hinsawdd.
- Mae parciau a gerddi, wrth eu natur, yn fyrhoedlog ac yn fregus; gallant gael eu difrodi'n ddifrifol gan un digwyddiad tywydd a gallant golli eu nodweddion a'u harwyddocâd unigryw yn gyflym iawn.
- Mae bron pob rheolwr yn adrodd nad oes ganddynt ddigon o staff na digon o ariannu, a heb gymorth ariannol bydd yn anodd neu'n amhosibl i PGMH ymateb i newid hinsawdd.
- Anaml y mae ariannu ar gyfer gerddi yn flaenoriaeth gan y caiff ei weld yng nghysgod buddsoddi mewn treftadaeth adeiledig rhestredig.
- Mae ariannu'n tueddu i gael ei flaenoriaethu ar gyfer ymatebion brys i ddigwyddiadau eithafol, ac mae'n anoddach o lawer i reolwyr sicrhau ariannu ar gyfer camau lliniaru hinsawdd ataliol neu gynlluniedig.
- Mae ansicrwydd ynghylch rhagfynegiadau hinsawdd a phatrymau tywydd sy'n gynyddol anwadal yn ei gwneud hi'n anodd iawn cynllunio a chyflwyno camau lliniaru.
- Mae seilwaith sydd heb ei gynnal a'i gadw cystal, a phlanhigion sydd wedi'u strwythuro'n wael a/neu sy'n heneiddio yn arbennig o agored i niwed o eithafion y tywydd.
- Yn aml, mae PGMH yn ceisio denu mwy o ymwelwyr i helpu talu am adfer lefelau cynyddol o ddifrod oherwydd newid hinsawdd; ond mae nifer cynyddol o ymwelwyr hefyd yn rhoi mwy o bwysau ar seilwaith gerddi a phob agwedd ar reoli PGMH. Mae problemau'n arbennig o amlwg mewn PGMH nad yw eu seilwaith gerddi traddodiadol yn ddigon cadarn i gynnwys nifer fawr o ymwelwyr, ac felly mae problem cynnal a chadw luosog yn cael ei chreu.
- Mae diffyg arweinyddiaeth gan sefydliadau treftadaeth cenedlaethol yn golygu nad yw arwyddocâd treftadaeth ar draws y sector PGMH yn cael ei ddiogelu'n gadarn ar hyn o bryd.

6.4.4 Cyfleoedd

Felly mae cyfleoedd i:

- ymateb i geisiadau a nodwyd yn yr astudiaeth hon am arweiniad cynhwysfawr ac ymarferol wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer PGMH sy'n mynd i'r afael ag addasu i'r hinsawdd
- ailedrych ar ymagweddau traddodiadol at arfer gorau cadwraeth derbyniol, a darparu arweiniad sy'n ymateb i faterion newid hinsawdd, megis:
 - beth yw 'cydnerthedd hinsawdd' yng nghyd-destun PGMH; a pha derminoleg y dylid ei defnyddio o ran newidiadau parhaus a sbardunir gan yr hinsawdd
 - sut y dylai safleoedd ar gofrestrau / rhestrau eiddo gynnal eu harwyddocâd a'u cymeriad tra'n addasu i newid hinsawdd

- pa lefel o newid sy'n dderbyniol a pha egwyddorion y dylid eu dilyn i asesu hyn
- rhoi cyngor ar integreiddio materion newid hinsawdd i gynlluniau cadwraeth a rheoli, a ffyrdd o asesu risgiau newid hinsawdd mewn tirweddau treftadaeth
- creu lleoliad canolog ar gyfer arweiniad a gwybodaeth ar-lein
- cefnogi a lledaenu enghreifftiau o arfer da, cyfeirio at astudiaethau achos, arbrofion a chynlluniau peilot
- darparu cyfeiriadau at grantiau presennol a ffynonellau ariannu newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg
- sicrhau bod ariannu wedi'i dargedu ar gael i fynd i'r afael â materion penodol y sector, er enghraifft, addasu seilwaith, asesiadau risgiau hinsawdd
- darparu ariannu sector-benodol i gefnogi ystod eang o gyfleoedd hyfforddi hygyrch
- cefnogi a hyrwyddo rhwydweithiau ac urddau cymheiriaid a phroffesiynol
- parhau i ehangu lled a dyfnder ymgysylltiad y cyhoedd â materion newid hinsawdd mewn perthynas â chadwraeth treftadaeth, PGMH a'r amgylchedd naturiol
- ymgysylltu ac ymgynghori â rheolwyr PGMH ar amrywiaeth eang o safleoedd ar draws y DU i sicrhau bod unrhyw fesurau a roddir ar waith yn hygyrch, yn ymarferol ac yn ddefnyddiol ar y safle, ar sail bob dydd
- dod â chyrff y sector ynghyd i drafod dull cydlynol o gefnogi PGMH er mwyn ymateb i bwysau hinsawdd a newidiadau addasol
- cael gwell dealltwriaeth o faterion bregusrwydd a chydnerthedd PGMH, a bod mewn sefyllfa gryfach i ddatblygu polisïau a chymorth wedi'u targedu

7 Argymhellion

Mae'r argymhellion yn galw ar ymatebion o 23 o gyfweiliadau rhanddeiliaid a gynhaliwyd gyda rheolwyr PGMH a gydnabyddir yn genedlaethol, a chanfyddiadau o'r arolwg ar-lein a gwblhawyd gan 79 o ymatebwyr o PGMH; ac ymateb yn uniongyrchol i'r dadansoddiad a nodir ym Mhennod 6, ac yn benodol i'r cyfleoedd a nodwyd (yn 6.4.4 uchod).

Lle gofynnwyd cwestiynau ynghylch pa gefnogaeth benodol fyddai'n fwyaf defnyddiol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae'r argymhellion yn ymateb yn uniongyrchol i'r pethau mwyaf cyffredin a ofynnwyd gan y rhai y cyfwelwyd â hwy, ynghyd â chanlyniadau'r arolwg ar-lein. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, mae'r argymhellion hefyd yn ganlyniad proses o ddistyllu'r dystiolaeth o angen a nodwyd ym mhenodau 3, 4 a 5, gan ddefnyddio'r dadansoddiad ym mhennod 6 sy'n dwyn ynghyd yr edafedd cyffredin - cryfderau, gwendidau, bygythiadau a chyfleoedd - a thrwy drafodaeth, llunio ystod o syniadau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r materion mwyaf dybryd a nodwyd yn ystod proses yr astudiaeth.

Felly, mae'r argymhellion a nodir isod yn darparu ymateb cychwynnol i'r anawsterau y mae'r sector yn eu profi ar hyn o bryd oherwydd newid hinsawdd, a bwriedir iddynt ddarparu 'sbardun' i drafodaeth a man cychwyn y gellir datblygu gwaith i gefnogi'r sector PGMH ohono i ymateb i newid hinsawdd.

Oherwydd y cymysgedd unigryw o heriau y mae'r sector hwn yn eu hwynebu, a natur dameidiog yr arweiniad presennol, mae'n bwysig iawn bod y gefnogaeth yn ymarferol, yn hawdd ei defnyddio a'i chyrchu, ac wedi'i theilwra'n benodol i anghenion PGMH.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn yn llwyddiannus bydd angen cefnogaeth gan bartneriaeth eang ar draws PGMH, yr asiantaethau treftadaeth a sefydliadau cysylltiedig ar draws y pedair gwlad ddatganoledig. Er bod rhai yn y sector yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dim ond dechrau meddwl am ba addasiadau a allai fod eu hangen y mae rhai PGMH. Ar yr un pryd, mae llawer o rwydweithiau a grwpiau trafod yn dod i'r amlwg, ac mae gwersi cynnar yn cael eu lledaenu. Efallai y bydd angen addasu'r hyn a allai ymddangos fel y ffordd orau ymlaen ar hyn o bryd yn y dyfodol er mwyn parhau i ymateb i anghenion yn briodol, mewn hinsawdd sy'n newid. Er enghraifft, gallai ymddangosiad offer AI mwyfwy pwerus wneud hygyrchedd gwybodaeth yn haws o lawer a galluogi arweiniad sydd wedi'i deilwra i ofynion safleoedd unigol.

Ni chyflwynir argymhellion mewn unrhyw drefn flaenoriaeth; maent wedi cael eu grwpio'n fras gyda'i gilydd yn ôl thema:

- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- ariannu
- cyfathrebu
- cydlynu DU gyfan
- gwaith pellach

Efallai y bydd gwaith yn mynd rhagddo ar rai ohonyn nhw, neu ar bob un, ar unrhyw adeg benodol. Maent yn cynnig dulliau posibl o gynorthwyo ac arwain y sector PGMH yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â safleoedd unigol. Bydd angen archwilio gwahanol ddulliau cyflwyno posibl, a bydd angen profi opsiynau gweithredu gyda'r sector. Yn anochel, mae angen sicrhau ariannu hefyd er mwyn symud ymlaen.

Fel set gyffredinol o argymhellion, maent yn ymateb yn uniongyrchol i'r anghenion a nodwyd yn yr adroddiad uchod, sydd wedi'i lunio i gynorthwyo gyda rhai o'r materion mwyaf dybryd a chyffredin sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd.

7.1 Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

7.1.1 Datblygu 'pecyn cymorth' addasu i'r hinsawdd yn benodol ar gyfer PGMH

Argymhellir datblygu 'pecyn cymorth' addasu i'r hinsawdd ar gyfer PGMH gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector ar draws y DU sy'n gwyno, yn seiliedig ar egwyddorion ac yn fwriadol ddim yn rhagnodol. Yn y cyfweiliadau, gofynnodd rheolwyr am arweiniad ymarferol, neu 'becynnau cymorth', gyda phroses 'gam wrth gam' sy'n gynhwysfawr ac yn hawdd ei dilyn. Yn yr arolwg ar-lein, cymorth wrth lunio neu ddiweddarau cynlluniau cadwraeth oedd yr ail eitem a ofynnwyd amdani fwyaf o ran cymorth; help wrth ddiweddarau cynlluniau rheoli fel eu bod yn mynd i'r afael â champau gweithredu newid hinsawdd oedd y chweched; a chymorth i gynnal asesiadau o risgiau newid hinsawdd er mwyn nodi camau gweithredu allweddol oedd y seithfed.

Dylai'r pecyn cymorth ddarparu sail gam wrth gam dros wneud penderfyniadau, gydag arweiniad sy'n:

- creu dull a therminoleg gyson y gall PGMH eu defnyddio wrth gynllunio a chyfiawnhau camau gweithredu, yn enwedig os oes angen newid nodweddiol neu werthoedd treftadaeth sy'n cyfrannu at arwyddocâd treftadaeth
- darparu cynnwys amlinellol ar gyfer cynlluniau, rhestrau gwirio, gwybodaeth i'w chasglu ac ati, ac sy'n dangos sut i gymhwyso egwyddorion cadwraeth i arwyddocâd safleoedd ac agweddau penodol ar werthoedd treftadaeth wrth ystyried a gwneud penderfyniadau addasu i'r hinsawdd
- rhoi sail gadarn i reolwyr dros wneud penderfyniadau a chyfathrebu eu rhesymeg a'u cyfiawnhad
- nodi graddfa briodol o gynllunio ar gyfer newid hinsawdd, gan ddibynnu ar faint, natur ac adnoddau safleoedd unigol, a chan gydnabod y gallai fod angen cynlluniau cynhwysfawr ar safleoedd mawr neu gymhleth ac efallai dim ond ymdriniaeth ysgafn ar safleoedd bach neu syml

I fod yn effeithiol, mae'n bwysig bod 'pecyn cymorth' o'r fath yn cael ei gymeradwyo gan asiantaethau treftadaeth y DU, fel bod gan y sector cyfan bwynt cyfeirio cyffredin a rennir. Bydd yn darparu hyder bod camau gweithredu'n gweddu i ddisgwyliadau'r sector, yn hytrach na gwyro'n ad hoc o arfer cadwraeth da.

7.1.2 Creu hyb gwybodaeth PGMH cenedlaethol ar-lein

Dylai hyb ar-lein olygu bod gwybodaeth am addasu ymarferol i newid hinsawdd yn hawdd i'w chanfod, ei chymharu a'i chymhwyso, ar gyfer y gwahanol ranbarthau hinsawdd a mathau o PGMH. Yn yr arolwg ar-lein, cafodd hyn ei raddio fel y drydedd eitem bwysicaf i gael ei chefnogi.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy yr angen am ffynhonnell ganolog o arweiniad a gwybodaeth penodol i PGMH hefyd.

Dylai hyb:

- ddwyn ynghyd enghreifftiau o arfer da cyfredol ac astudiaethau achos o bob rhan o bob ranbarth hinsawdd yn y DU, gan amlygu mesurau addasu ffisegol i newid hinsawdd
- mynd i'r afael â bylchau yn yr arweiniad (a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth) a darparu cyfres gynhwysfawr o adnoddau wedi'u teilwra ar gyfer PGMH
- cynnwys enghreifftiau o'r hyn nad yw'n gweithio, yn ogystal â'r hyn sy'n llwyddiannus
- cyfeirio at ffynonellau arweiniad a gwybodaeth eraill
- nodi cyfleoedd hyfforddi a dysgu
- cysylltu ag urddau, rhwydweithiau cymheiriaid a ffynonellau cyngor eraill

Mynegodd rheolwyr PGMH ddymuniad y dylai hyb nodi ymgynghorwyr neu gontractwyr priodol. Er mwyn osgoi bod yn wrth-gystadleuol, efallai mai'r ateb yw cynnwys dolenni i gyrff proffesiynol a grwpiau masnach fel ffynhonnell wybodaeth am ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr sydd â phrofiad amlwg.

Mae angen archwilio opsiynau cyflwyno, gan gynnwys cynnwys posibl, dwyn ynghyd ddata sydd ar hyn o bryd ar wasgar, sut a ble y gellid cynnal a rheoli hyb o'r fath, a sut y gellid ei hariannu a'i chynnal.

7.2 Ariannu

7.2.1 Rhoi ffrwd ariannu ar waith ar gyfer creu / diweddarau dogfennau 'pecyn cymorth' allweddol

Mewn llawer o achosion, mae angen cymorth ar reolwyr i ddiweddarau cynlluniau presennol yn benodol mewn perthynas ag ystyriaethau newid hinsawdd: diweddarau cynlluniau cadwraeth yw'r angen a raddiwyd fel yr ail uchaf yn yr arolwg ar-lein. Lle mae cynlluniau eisoes yn bodoli, mae cynnal asesiadau o risgiau hinsawdd a chynnwys y canlyniadau mewn dogfennau presennol yn ddull cymharol gyflym o arwain y gwaith o addasu.

Dylai'r pecyn cymorth nodi ystod o ddogfennau sy'n cynorthwyo wrth ddeall effeithiau addasu i newid hinsawdd mewn unrhyw PGMH unigol, ac yn cyfeirio defnyddwyr yn ôl maint ac adnoddau'r safle, at arweiniad ar:

- gynlluniau cadwraeth
- asesiadau o risgiau hinsawdd
- cofrestrau risgiau hinsawdd

- cynlluniau rheoli
- asesiadau o effaith ar dreftadaeth

Efallai nad oes gan lawer o safleoedd llai, yn enwedig y rhai sy'n eiddo preifat, unrhyw gynlluniau strategol a dylai'r ffrwd ariannu hon eu cefnogi i gynnal astudiaethau sy'n eu helpu i ddeall arwyddocâd treftadaeth eu safleoedd, sut maen nhw mewn perygl o newid hinsawdd a sut i integreiddio ymatebion addasu yn eu rheolaeth.

Gall y safleoedd hyn elwa hefyd o asesiadau ffurf fer, tebyg i'r Taflenni Canllaw Treftadaeth a ddefnyddir gan Historic Environment Scotland (er enghraifft), yn lle cynlluniau cadwraeth llawn. Byddai gwybod am brosesau asesu effaith treftadaeth yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i reolwyr adolygu a blaenoriaethu'r dulliau lleiaf niweidiol o addasu i'r hinsawdd a gellid darparu templedi / arweiniad ar gyfer y broses hon hefyd.

7.2.2 Creu Cronfa Addasu Hinsawdd ar gyfer prosiectau seilwaith PGMH

Yr opsiwn cefnogaeth a raddiwyd uchaf ar gyfer cymorth yn yr arolwg ar-lein oedd 'cynllun grant ar gyfer gweithredu wedi'i dargedu i ymateb wrth addasu i newid hinsawdd'. Roedd ariannu, yn enwedig ar gyfer seilwaith, hefyd yn un o'r prif bethau y gofynnwyd amdanynt yn y cyfweiliadau; mae'r agweddau eraill y gofynnwyd am ariannu ar eu cyfer yn cynnwys adnewyddu plannu, staffio, addysg i'r cyhoedd, cynllunio ac addasu i'r hinsawdd yn gyffredinol.

Byddai cronfa addasu yn symud y sector o dreialon a chynlluniau i weithredu prif ffrwd. Y diben yw darparu llwybr clir a hygyrch i PGMH gyrchu ariannu cyfalaf ar gyfer ymyriadau y ceir tystiolaeth a dealltwriaeth ohonynt eisoes, ond a fyddai fel arall yn parhau i fod allan o gyrraedd yn ariannol.

Gallai cronfa newydd gynnig llwybrau ymgeisio symlach a set o fathau o ymyriadau wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw, megis gwelliannau draenio, ailddefnyddio a storio dŵr, ac amrywiaethu rhywogaethau coed / planhigion, gan ganiatáu i PGMH gyfiawnhau ymyriadau addasu i'r hinsawdd eraill lle bo angen.

Gan fod pwysau hinsawdd yn esblygu ac efallai y bydd angen cynnal ymyriadau fesul cam, dylai'r gronfa ganiatáu ariannu fesul cam dros amser yn hytrach na gorfodi PGMH i mewn i becynnau prosiect sengl, anhyblyg. Ceir rhwystr o ran capasiti safleoedd i ddatblygu ceisiadau am arian grant, felly efallai y bydd angen i ariannu fod ar gael hefyd i gefnogi'r gwaith o roi ceisiadau at ei gilydd, yn enwedig yn achos PGMH sydd â nifer fach o staff.

Er enghraifft, graddiwyd mynediad at amser ymgynghoriaeth arbenigol ar gyfer cefnogaeth fentora y gellid ei defnyddio i ddiwallu anghenion tymor byr, fel y pumed math mwyaf defnyddiol o gymorth yn yr arolwg ar-lein. Gallai'r gronfa ddarparu cymorth ymgynghoriaeth, yn enwedig i PGMH llai gyda nifer fach o staff, a gellid cynnig cyrsiau hyfforddiant capasiti neu ddatblygiad proffesiynol parhaus lle mae'r adnodd staff yn ddigonol.

7.2.3 Ariannu a/neu hyrwyddo cynlluniau peilot, treialon ac arddangosiadau rhanbarthol

Mae safleoedd peilot ac arddangos rhanbarthol yn trosi arweiniad haniaethol ar addasu yn brosiectau llawr gwlad go iawn. Mae rheolwyr a staff safleoedd yn bobl ymarferol sy'n gwerthfawrogi cyngor rhwng cymheiriaid ac ymweliadau safle yn benodol; Gofynnodd 62% o'r rhai y cyfwelwyd â hwy am gymorth rhwydweithio rhwng cymheiriaid a 35% am gymorth i ymweld â phrosiectau peilot. Awgrymodd 10% o ymatebwyr yr arolwg ar-lein astudiaethau achos / arfer gorau fel adnodd yr hoffent eu cael i'w helpu i ymateb i newid hinsawdd.

Y pwrpas yw magu hyder drwy ddangos sut olwg sydd ar addasu mewn tirweddau hanesyddol go iawn ac i adeiladu gwybodaeth newid hinsawdd benodol ar draws y sector.

Yn y lle cyntaf, byddai'n gyflawniad hawdd i greu astudiaethau achos, enghreifftiau o arfer gorau ac ymchwil o safleoedd a phrosiectau sydd eisoes yn cymryd camau ac yn addasu. Dylai astudiaethau peilot ganolbwyntio ar her addasu go iawn, fel rheoli dŵr; cydnerthedd coed; arwynebau a llwybrau; plâu a chlefydau; a chynnwys elfen cyfathrebu ag ymwelwyr fel bod newidiadau'n cael eu hesbonio fel stiwardiaeth yn hytrach na dirywiad.

I wneud y mwyaf o ddysgu, dylai astudiaethau peilot rannu methiannau yn ogystal â llwyddiannau, a dylai'r rhaglen ddadansoddi patrymau, fel gallu gwahanol fathau o berchnogaeth i ymateb, a defnyddio'r canfyddiadau i dargedu cefnogaeth yn y dyfodol yn fanylach gywir.

7.2.4 Buddsoddi mewn sgiliau penodol a rhwydweithiau cymorth i gefnogi PGMH

Bydd buddsoddi wedi'i dargedu'n benodol mewn sgiliau a chapasiti sefydliadol, nid seilwaith yn unig, yn helpu i fynd i'r afael â'r bylchau hyder a sgiliau sy'n pennu a all PGMH gynllunio, cyflwyno, cyfiawnhau (os oes angen) ac esbonio mesurau addasu, yn enwedig os yw timau rheoli PGMH yn fach ac o dan bwysau.

Pan ofynnwyd pa gefnogaeth fyddai fwyaf defnyddiol, awgrymodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd gyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio lleol. Cynadleddau a seminarau penodol i fynd i'r afael â materion newid hinsawdd mewn PGMH oedd y pedwerydd angen cymorth mwyaf poblogaidd yn yr arolwg ar-lein, a chreu cysylltiadau gwell ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd rhwydweithio, gan gynnwys cefnogaeth uniongyrchol i rwydweithiau allweddol, oedd y degfed.

Mae anghenion hyfforddi penodol i'r sector a nodwyd gan y rhai y cyfwelwyd â hwy yn cynnwys pynciau strategol fel:

- asesiadau o risgiau hinsawdd
- mesurau addasu sy'n sensitif i dreftadaeth
- sgiliau ymarferol o ran sut i addasu ar gyfer sychder, llifogydd a stormydd
- hyfforddiant am blâu a chlefydau penodol

Felly mae'r maes uwchsgilio cyfan hwn yn amlwg yn bwysig iawn i staff PGMH 'rheng flaen'.

Gellid cynnig hyfforddiant hefyd ar sut i ddefnyddio'r 'pecyn cymorth', wedi'i dargedu at gynulleidfaoedd sectorau gwahanol. Dylai fod pwyslais ar ddysgu gan gymheiriaid gydag ymweliadau â safleoedd a phrosiectau arddangos drwyddi draw.

Mae mynediad at hyfforddiant yn anghyfartal, ac yn aml yn anfforddiadwy i PGMH llai, sy'n gwaethygu anghydraddoldebau rhanbarthol a sefydliadol o ran eu gallu i ymateb. Felly, mae angen ystyried sut y gellir darparu cymorth wedi'i dargedu yn y ffordd fwyaf effeithiol. Gall hyn gynnwys:

- sefydlu cronfa benodol i gefnogi a galluogi rhwydweithiau dysgu gan gymheiriaid rhanbarthol
- seminarau, cyrsiau ac ymweliadau rhanbarthol
- datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i deilwra sy'n mynd i'r afael yn benodol â materion a chyfleoedd addasu i'r hinsawdd ymarferol yng nghyd-destun PGMH

7.3 Cyfathrebu

7.3.1 Cyfleu i'r cyhoedd sut olwg sydd ar addasu mewn PGMH

Dywed bron i hanner yr ymatebwyr iddynt dderbyn sylwadau negyddol ynghylch newidiadau addasol fel newid gwrychoedd bocs, symud i ffwrdd o blanhigion gwely, gadael i laswellt dyfu'n hirach, newidiadau i seilwaith ac arwynebau llwybrau, a phlannu newydd nad yw'n 'hanesyddol ddiledryw'.

Felly, mae angen newid ymwybyddiaeth y cyhoedd o newid hinsawdd a'r hyn y mae'n ei olygu, fel nad yw disgwyliadau ymwelwyr a rhanddeiliaid yn dod yn gyfyngiad gweithredol. Y diben yw adeiladu dealltwriaeth bod addasu'n rhan hanfodol o ymateb i hinsawdd sy'n newid a bod angen o bosibl i PGMH edrych yn wahanol er mwyn goroesi a pharhau i fod yn ystyrion. Gall camau gweithredu gynnwys:

- archwilio gyda phartneriaid y sector sut i gyfathrebu stori ehangach yr hyn sydd mewn perygl, pam a beth mae PGMH yn ei wneud amdano
- datblygu strategaeth gyfathrebu sy'n esbonio pam fod newidiadau penodol yn digwydd a chan fframio addasu i newid hinsawdd yn gyson fel rheolaeth gyfrifol yn hytrach na cholled
- nodi partneriaid cyfryngau da, ac archwilio cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion a chyfathrebu drwy allfeydd amlgyfrwng
- Cefnogi dehongli, gan ddatblygu a rhannu templedi negeseuon y gall PGMH unigol eu haddasu ar gyfer eu cyd-destunau eu hunain, gan helpu timau i gyfathrebu'n hyderus, yn gyson ac yn effeithiol

7.3.2 Hyrwyddo sgysiau

Wrth gynnal yr astudiaeth hon, un o'r prif arsylwadau yw pa mor werthfawr yw'r cyfweiliadau i'r ddwy ochr; nododd y cyfweiliwyr pa mor frwdfrydig y mae rheolwyr ynglŷn â'r hyn maen nhw'n ei wneud. Yn enwedig gyda safleoedd llai, ond hefyd gyda rhai gerddi mawr mewn lleoliadau mwy anghysbell, roedd prif arddwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod yr hyn maen nhw'n ei wneud a sut y gallen nhw ei wneud yn well.

Argymhellir, felly, bod arianwyr yn meddwl am sut i wneud sgysiau ag unigolion gwybodus yn hygyrch a sicrhau eu bod ar gael. Gellid gwneud hyn drwy wreiddio person(au) penodol mewn sefydliad neu rwydwaith presennol fel pwynt cyswllt.

7.4 Cydlynw ar draws y DU

7.4.1 Ceisio partneriaethau strategol gydag asiantaethau'r gwledydd datganoledig

Mae cyfle i asiantaethau treftadaeth ar draws y DU ddechrau rhannu syniadau ar y cwestiynau anodd iawn sy'n wynebu dyfodol tirweddau hanesyddol dyluniedig mewn hinsawdd sy'n newid yn gyflym gan gynnwys, o bosibl, cydweithio'n agos ar ddull cydlynol i ddatblygu ymateb DU gyfan cyson.

7.4.2 Datblygu gwell dealltwriaeth o gofrestrau / rhestrau eiddo

Byddai cynllunio strategol ar gyfer PGMH yn cael ei gynorthwyo gan ddealltwriaeth well o'r safleoedd ar y cofrestrau / rhestrau eiddo. Mae'r astudiaeth wedi datgelu bod safleoedd llai a/neu'r rhai sydd mewn perchnogaeth breifat i'w gweld mewn mwy mewn perygl. Fodd bynnag, nid yw'r data ar y cofrestrau / rhestrau eiddo mewn fformat y gellir ei chwilio na'i ddadansoddi'n hawdd, ar faterion fel perchnogaeth, maint, cymhlethdod, mathau o nodweddion, a meini prawf eraill.

Byddai cael data fel hyn mewn fformat y gellir ei chwilio'n hwyluso gwell dealltwriaeth o'r safleoedd ar y cofrestrau / rhestrau eiddo. Byddai hyn o gymorth wrth nodi ffactorau bregusrwydd eraill, a allai alluogi felly i ffrydiau ariannu gael eu hyrwyddo'n uniongyrchol i'r safleoedd sydd fwyaf mewn perygl o newid hinsawdd, er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.

Byddai dadansoddiad pellach i nodi a yw PGMH ar y gofrestr hefyd yn aelod o gynllun agor gerddi cenedlaethol, yn gysylltiedig â'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, neu'n aelod o Historic Houses Association, yn ddefnyddiol er mwyn cael gwybod i ba raddau y gallai'r rhwydweithiau presennol hyn fod yn ddefnyddiol, er enghraifft, wrth gyfathrebu i hyrwyddo mentrau newydd neu gynnal ymchwil bellach.

7.4.3 Adeiladu partneriaethau

I gyflwyno argymhellion yr adroddiad hwn, bydd angen partneriaeth eang ar draws y gwledydd datganoledig, y sector gerddi hanesyddol a'r sectorau garddwriaethol ac amgylcheddol ehangach. Byddai defnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn fel cyfle i greu neu ailgysylltu â phartneriaethau presennol ar newid hinsawdd yn ffordd gref o ddechrau.

Mae'n glir hefyd bod trafodaethau a mentrau strategol yn dod i'r amlwg, a rhan o'r her yw cysylltu pobl â'r mentrau mwyaf defnyddiol ac adeiladu partneriaethau cryfion wrth i'r ymateb i newid hinsawdd aeddfedu. Mae nodi grwpiau priodol a chysylltu â nhw, gan greu rhwydwaith o gysylltiadau, yn fan cychwyn da ar gyfer sgysiau yn y dyfodol.

Mae Historic Houses Association yn dod i'r amlwg fel partner allweddol posibl oherwydd iddynt gyrraedd llawer o safleoedd ar gofrestrau'r PGMH. Mae Gardens Trust hefyd mewn sefyllfa dda i gyfrannu, o ystyried ei haelodaeth. Mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol wedi datblygu rhwydwaith o erddi cysylltiedig, ac mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Yr Alban, ac English Heritage eisoes yn rhan o'r sgwrs. Mae ymatebwyr yr arolwg yn meddwl llawer o PlantNetwork a Professional Gardeners Guild. Mae gerddi botanegol Kew a Chaeredin wedi'u cysylltu'n gryf â rhwydweithiau ymchwil ac maent yn arwain ar ragamcaniadau addasu planhigion a rhagolygon newid hinsawdd.

7.5 Gwaith pellach

7.5.1 Ehangu'r ymchwil

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau o ddim ond 23 o gyfweiliadau a 79 o ymatebion arolwg ar-lein yn ymwneud â PGMH ar gofrestrau / rhestrau eiddo'r DU, sy'n cyfateb i 3.6% o gyfanswm y safleoedd, sef tua 2,800. Canolbwyntiodd yr ystod o gwestiynau ar amcanion yr astudiaeth ac felly maent yn gyfyngedig eu cwrpas.

Mae cysondeb cryf yn yr ymatebion ar draws y cyfweiliadau a'r arolwg ar-lein; fodd bynnag, mae maint y sampl yn fach. Mae cydberthynas gref i'w gweld rhwng maint y safle a'r math o berchnogaeth, a pha mor agored i newid hinsawdd y mae.

Damcaniaeth bellach yw y gallai fod cydberthnasau tebyg rhwng math o dirwedd, neu gyfnod neu oedran hanesyddol, â pha mor agored i newid hinsawdd y mae, ond mae angen sampl mwy i brofi hyn. Datgelodd sgysiau yn ystod yr astudiaeth, a chwestiynau a godwyd wrth baratoi'r adroddiad, ffactorau ychwanegol y byddai'n werth ymchwilio ymhellach iddynt, gan gynnwys:

- archwilio bregusrwydd i newid hinsawdd ar draws ystod o feini prawf eraill, megis gwahanol fathau o berchnogaeth – masnachol, dameidiog, awdurdod lleol, ymddiriedolaeth; ar draws oedran, cyfnod, math o dirwedd, arddull; ar gyfer safleoedd ar dir isel, ar orlifdiroedd a/neu leoliadau arfordirol
- effeithiau ariannol newid hinsawdd ar PGMH, gan gynnwys effeithiau ar niferoedd ymwelwyr a chynhyrchu referniw
- a oes gwendidau penodol a phroblemau addasu ar gyfer mynwentydd sy'n wahanol i barciau a gerddi: llwyddodd yr astudiaeth i ymgysylltu â gardd goffa ond nid mynwent draddodiadol
- a yw'r data hinsawdd sydd ar gael yn hawdd i reolwyr PGMH, prif arddwyr a staff ei ddeall, ac a oes cyfleoedd i wneud yr wybodaeth hon yn haws i'w defnyddio, er enghraifft, trwy fodelau rhagfynegi hinsawdd, o bosibl gan ddefnyddio AI neu apiau penodol

Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod PGMH ar draws y DU i gyd yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd, ac er bod rheolwyr yn ddyfeisgar iawn wrth ymateb, mae arnynt angen arweiniad wedi'u teilwra a chefnogaeth benodol i'r sector ar frys i sicrhau bod PGMH cofrestredig yn cael eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddai ymchwil bellach yn cynyddu dealltwriaeth o'r heriau niferus y mae rheolwyr a pherchnogion yn eu hwynebu ac yn galluogi targedu adnoddau cyfyngedig er yr effaith orau.

Atodiad 1: Cwestiynau rhanddeiliaid

Holiadur y Cyfweliad

1 Chwefror 2026

Mae'r data hwn yn gyfrinachol a chaiff ei wneud yn ddienw

A	Dealltwriaeth o newid hinsawdd ac arsylwadau
A1	Ydych chi'n teimlo bod gennych ddealltwriaeth gyffredinol o effeithiau posibl newid hinsawdd a sut y gallai hyn effeithio ar eich safle?
A2	A yw newid hinsawdd yn cael effaith ar eich gardd ar hyn o bryd? er enghraifft digwyddiadau tywydd eithafol, mwy o lifogydd, sychder, difrod stormydd neu blâu
B	Strategaeth a newid hinsawdd
B1	Oes gennych chi gynllun cadwraeth ar gyfer yr ardd? Os felly, ar ba ddyddiad y paratowyd y cynllun
B2	A yw eich cynllun cadwraeth yn nodi arwyddocâd diwylliannol, hanesyddol a threftadaeth naturiol eich safle?
B3	A yw eich cynllun cadwraeth yn nodi polisïau i fynd i'r afael â newid hinsawdd?
B4	Ydych chi wedi cynnal asesiad o risgiau hinsawdd ar gyfer eich safle?
C	Camau rheoli a newid hinsawdd
C1	Oes gennych chi gynllun rheoli sy'n nodi camau gweithredu i ymateb i newid hinsawdd? Oes/Nac oes Os na, pa ffactorau ydych chi'n eu hystyried wrth gynllunio camau rheoli a chynnal a chadw?
C2	Pa gamau ydych chi'n eu cymryd e.e. newid y palet plannu, gwneud newidiadau i seilwaith ac ati
C3	A yw'r camau gweithredu hyn yn cael eu blaenoriaethu yn ôl arwyddocâd e.e. arwyddocâd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol

C4	Pa heriau neu rwystrau ydych chi'n eu hwynebu wrth geisio ymdrin â chymau gweithredu ar newid hinsawdd?
C5	A oes unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o newid hinsawdd?
Ch	Cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar newid hinsawdd
Ch1	Ydych chi wedi llwyddo i gyrchu cyngor, arbenigedd neu adnoddau allanol ffurfiol i'ch cefnogi i ymateb i heriau'r hinsawdd? Os ydych, beth ydych chi wedi'i gyrchu? Os na, oes rheswm syml pam ddim e.e. gwybodaeth, cost, amser?
Ch2	Ydych chi'n defnyddio rhwydweithiau neu gysylltiadau anffurfiol i'ch cefnogi i ymateb i heriau'r hinsawdd? Os ydych, beth ydych chi wedi'i gyrchu?
Ch3	Beth yw eich barn chi am y rhwystrau i gaffael gwybodaeth?
Ch4	Pa gefnogaeth fydddech chi'n ei chael fwyaf defnyddiol yn y 12 mis nesaf: Arweiniad a phecynnau cymorth, Grantiau, Rhwydweithio â chymheiriaid lleol/ymweliadau â chymheiriaid Hyfforddiant DPP/ hyfforddiant ehangach Cynadleddau Prosiectau peilot neu arddangos Astudiaethau achos

Atodiad 2: Holiadur ar-lein

1. Arolwg ar-lein wedi'i dargedu at reolwyr Parciau a Gerddi ar draws y DU



Peel Park, The Crescent, Salford, Greater Manchester. © Historic England Archive. DP372431.

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn cydweithrediad â Historic England yn cynnal ymchwil rhanddeiliaid DU gyfan i ddeall sut mae parciau a gerddi hanesyddol ar draws y DU yn cael eu rheoli a'u cynnal mewn ymateb i'r bygythiadau a berir gan newid hinsawdd. Mae'r gwaith yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o ba gyngor ac arweiniad sydd ar gael i berchnogion a rheolwyr y lleoedd hanesyddol hyn, pa heriau a rhwystrau y maent yn eu hwynebu, pa ffactorau sy'n cael eu hystyried mewn dulliau rheoli ar gyfer y dyfodol ac a yw ystyriaeth gytbwys yn cael ei rhoi i arwyddocâd diwylliannol, hanesyddol a threftadaeth naturiol y lleoedd.

Parciau a gerddi hanesyddol: cefnogi'r gwaith o addasu i newid

Mae'r holiadur canlynol wedi'i rannu'n 5 adran, a ddylai gymryd tua 10 i 15 munud i'w gwblhau. Mae llawer yn gwestiynau aml-ddewis, ond mae yna rai cwestiynau agored lle byddem yn gwerthfawrogi atebion mwy manwl os oes gennych yr amser.

Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei gwneud yn ddiennw a'i chadw'n gwbl gyfrinachol. Hyd yn oed os byddwch yn rhoi caniatâd, bydd gennych ryddid o hyd i dynnu allan o'r astudiaeth unrhyw bryd, heb roi rheswm, a bydd eich data yn cael ei waredu'n ddiogel ac yn gyfrinachol. Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Historic England yn gweithredu fel y Rheolydd Data ar y cyd ar gyfer y prosiect hwn. Mae hyn yn golygu bod Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Historic England ill dau yn gyfrifol am ofalu am eich gwybodaeth a'i defnyddio'n iawn.

Darllenwch bolisiâu preifatrwydd [Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#) a [Historic England](#).



1. Gofynnir i chi gadarnhau eich cydsyniad i gymryd rhan yn yr ymchwil hon.

☐ Ydw, dyma fy nghadarnhad

☐ Nac ydw, dydw i ddim yn rhoi cadarnhad

2. Amdanoch chi a'ch safle

2. Beth yw enw eich safle? Rhwch enw'r safle a'r sir y mae wedi'i leoli ynddi.

3. Nodwch god post y safle.

4. Ai chi yw perchennog neu reolwr y parc neu'r ardd hanesyddol?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

5. Dywedwch wrthym a yw eich safle ar:

☐ Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Historic England

☐ Rhestr Eiddo Gerddi a Thirweddau Dyluniedig Historic Environment Scotland

☐ Cofrestr Parciau, Gerddi a Demenau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon

☐ Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cadw

☐ Arall (nodwch):

6. Beth yw eich rôl o ran rheolaeth / cadwraeth y parc neu'r ardd hanesyddol (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☐ Gweithgareddau gweithredol ar y tir

☐ Goruchwyliaeth uniongyrchol o weithgareddau ar y tir

☐ Rheoli / goruchwyllo gweithgareddau ar y tir

- ☐ Cyfeiriad strategol
- ☐ Arall, dywedwch wrthym am eich rôl.

7. Pa fath o sefydliad sy'n eich cyflogi chi?

- ☐ Perchennog / ystâd breifat
- ☐ Llywodraeth Leol
- ☐ Sefydliad llywodraeth
- ☐ Prifysgol
- ☐ Sefydliad anllywodraethol / elusen (er enghraifft, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
- ☐ Arall (nodwch):

8. Ers faint ydych chi wedi gweithio ym maes rheolaeth /
cadwraeth parciau a gerddi hanesyddol?

- ☐ Llai na 5 mlynedd
- ☐ 5 i 10 mlynedd
- ☐ 10 i 20 mlynedd
- ☐ Mwy nag 20 mlynedd

9. Beth yw eich meysydd arbenigedd? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

- ☐ Pensaernïaeth
- ☐ Botaneg / Ecoleg / Gwyddor Amgylcheddol
- ☐ Cadwraeth / Treftadaeth Ddiwylliannol / Astudiaethau Treftadaeth
- ☐ Coedwigaeth / Coedyddiaeth

- ☐ Garddwriaeth
- ☐ Pensaernïaeth / Dylunio Tirweddau
- ☐ Rheoli Tirweddau
- ☐ Arall (nodwch):

10. Beth yw prif gydrannau eich parc a/neu ardd hanesyddol?
(Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

- ☐ Coetir
- ☐ Parcdir
- ☐ Gerddi ffurfiol
- ☐ Llynnoedd / cyrff dŵr
- ☐ Mynwent
- ☐ Arall (nodwch):

3. Dealltwriaeth o newid hinsawdd ac arsylwadau

11. Beth yw eich barn chi ar newid hinsawdd?

Cytuno'
n gryf

Cytuno
ychydig

Niwtral

Anghytun
o ychydig

Anghyту
no'n gryf

Mae newid hinsawdd
yn dechrau difrodi'r
safle hwn

☐
☐
☐
☐

12. Sut fydddech chi'n disgrifio eich lefel o ddealltwriaeth am newid hinsawdd a'i effeithiau ar barciau a gerddi hanesyddol?

☐ Dim gwybodaeth o gwbl

☐ Ychydig o wybodaeth

☐ Gwybodaeth gymedrol

☐ Llawer o wybodaeth

☐ Llawer iawn o wybodaeth

13. O ran y safle rydych chi'n sôn wrthym amdano, pa newidiadau gysylltiedig â'r hinsawdd ydych chi eisoës wedi'u harsylwi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

☐ Newidiadau tymhorol

☐ Amllder / dwysedd cynyddol tonnau gwres

☐ Amllder cynyddol a chyfnodau hirach o sychder

☐ Amllder / dwysedd cynyddol digwyddiadau glaw byrhoedlog

☐ Amllder / dwysedd cynyddol ddigwyddiadau storm neu wynt eithafol

☐ Amllder / dwysedd cynyddol digwyddiadau llifogydd

☐ Amllder / dwysedd cynyddol tanau gwyllt

☐ Cynnydd mewn plâu a / neu glefydau

☐ Dibwys / newidiadau bach

☐ Erydiad arfordirol neu ar y safle

☐ Arall (nodwch):

14. I ba raddau ydych chi'n credu bod newid hinsawdd yn difrodi eich safle?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytu no'n gryf
Mae newid hinsawdd eisoes yn difrodi coed / plannu	☐	☐	☐	☐	☐
Mae newid hinsawdd yn difrodi nodweddion addurniadol (er enghraifft, cerfluniau, pergolas)	☐	☐	☐	☐	☐
Mae newid hinsawdd yn difrodi cynefinoedd / rhywogaethau	☐	☐	☐	☐	☐
Mae newid hinsawdd yn difrodi adeileddau / seilwaith (er enghraifft, llwybrau, llynnoedd, draeniau, tai gwydr, waliau)	☐	☐	☐	☐	☐

4. Strategaeth a newid hinsawdd

15. Oes gan eich safle gynllun cadwraeth?

☐

Oes

☐

Nac oes (ewch i gwestiwn 17)

16. Os oes, a yw eich cynllun cadwraeth yn nodi:

Ydy

Nac ydy

Nodweddion
addurniadol
hanesyddol pwysig
(er enghraifft,
cerfluniau, pergolas)

☐

Coed / plannu /
cynefin / rhywogaeth
bwysig

☐

Adeileddau /
seilwaith pwysig
(er enghraifft,
llwybrau,
llynnoedd,
draeniau, tai
gwydr, waliau)

☐
☐

Polisiau sy'n
llywio rheolaeth
y safle

☐
☐

Polisiau penodol i
newid hinsawdd i
dywys rheolaeth y
safle

☐
☐

17. Ar gyfer y parc neu'r ardd rydych yn sôn wrthym amdano, ticiwch un blwch i ddangos i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad.

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Niwtral	Anghytuno	Anghytno'n gryf
Rwyf eisoes yn cynllunio ar gyfer effeithiau newid hinsawdd	☐	☐	☐	☐	☐
Bydd angen i mi ystyried effeithiau newid hinsawdd wrth gynllunio / rheoli ar gyfer y dyfodol agos (erbyn 2030)	☐	☐	☐	☐	☐

18. Ydych chi wedi cynnal asesiad o risgiau newid hinsawdd ar eich safle, er enghraifft, asesu holl effeithiau tebygol newid hinsawdd a sut maen nhw'n effeithio ar holl nodweddion eich safle?

☐ Ydym

☐ Nac ydym

☐ Arall (nodwch):

5. Camau rheoli a newid hinsawdd

19. Oes gan eich safle gynllun rheoli?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes (ewch i gwestiwn 22)

20. Os oes, a yw eich cynllun rheoli'n nodi camau gweithredu sy'n ymateb i newid hinsawdd?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy

21. Os na yw'r ateb i'r cwestiwn uchod, pa ffactorau ydych chi'n eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio camau rheoli a chynnal a chadw?

22. Pa newidiadau sydd eisoes yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â newid hinsawdd? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

- ☐ Dylunio gerddi / tirweddau
- ☐ Dewis rhywogaethau planhigion / coed
- ☐ Arferion dyfrhau / tomwelltu
- ☐ Cyflwyno arferion casglu ac ailddefnyddio dŵr glaw / dŵr storm
- ☐ Cyflwyno mesurau amddiffyn rhag llifogydd, gan gynnwys gwelliannau draenio safle, atgyweiriadau

☐ Mesurau i amddiffyn a gwarchod gwrthrychau ac adeileddau ffisegol, er enghraifft, cerfluniau, henebion, tai gwydr

☐ Arall (nodwch):

23. A yw'r camau gweithredu hyn yn cael eu blaenoriaethu yn ôl pwysigrwydd nodweddion hanesyddol neu ecolegol?

☐ Ydynt

☐ Nac ydynt

24. Beth yw'r heriau neu'r rhwystrau rydych chi'n eu hwynebu wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd?

25. A oes unrhyw gyfleoedd neu fanteision sy'n deillio o newid hinsawdd? Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwella plannu neu fioamrywiaeth, ennill credydau enillion bioamrywiaeth net, datblygu prosiectau a/neu gredydau dal carbon.

6. Cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar newid hinsawdd

26. Bydd yr adran hon yn ein helpu i gyfeirio ein cefnogaeth dros y 2 i 3 blynedd nesaf.

8 Ydych chi wedi ei chael hi'n hawdd cyrchu cyngor, arbenigedd neu adnoddau i'ch cefnogi yn eich ymateb i newid hinsawdd?

☐ Ydym

☐ Nac ydym

27. Pa fathau o gyngor, arweiniad a chefnogaeth ydych chi wedi'u cael yn fwyaf defnyddiol hyd yma?

	Mwyaf defnyddiol	Cymedrol ddefnyddiol	Defnyddiol yn anaml	Heb ei ddefnyddio
Cyngor gan asiantaethau, er enghraifft, Historic Environment Scotland	☐	☐	☐	☐
Cyhoeddiadau sefydliadau anllywodraethol fel arweiniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol	☐	☐	☐	☐
Rhwydweithiau cymheiriaid cenedlaethol, er enghraifft, PlantNetwork, Professional	☐	☐	☐	☐

	Mwyaf defnyddiol	Cymedrol ddefnyddiol	Defnyddiol yn anaml	Heb ei ddefnyddio
Rhwydweithiau cymheiriaid / cysylltiadau lleol	☐	☐	☐	☐
Cyrsiau hyfforddi ffurfiol a/neu ddatblygiad proffesiynol parhaus	☐	☐	☐	☐
Cynadleddau a seminarau	☐	☐	☐	☐
Prosiectau peilot neu arddangos	☐	☐	☐	☐
Astudiaethau achos	☐	☐	☐	☐
Chwiliadau rhyngwyd, deallusrwydd artiffisial	☐	☐	☐	☐

28. A allwch chi ddweud mwy wrthym am y ffyrdd mwyaf defnyddiol rydych wedi dod o hyd iddynt o gyrchu cymorth a/neu ffynonellau gwybodaeth am newid hinsawdd, er enghraifft, grŵp prif arddwyr lleol drwy WhatsApp?

29. Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystrau i gaffael gwybodaeth a chyrchu cymorth? (Dewiswch fwy nag un opsiwn, os yn berthnasol).

- ☐ Diffyg amser i ymchwilio i bynciau
- ☐ Diffyg ariannu / grantiau i ymgysylltu â chyfleoedd addysgol
- ☐ Diffyg gwybodaeth am ble i ddod o hyd i'r wybodaeth fwyaf defnyddiol
- ☐ Arall (nodwch):

30. Dros yr 1 i 2 flynedd nesaf, pa gefnogaeth fyddai'n fwyaf defnyddiol i'ch helpu i ymateb i newid hinsawdd? (Rhestrwch y pynciau isod trwy eu symud, gyda'r rhai mwyaf pwysig ar y brig a'r rhai lleiaf pwysig ar y gwaelod).

Helpu i ysgrifennu / diweddarau cynlluniau cadwraeth i fynd i'r afael â materion newid hinsawdd a darparu dull strategol gwell o ymdrin â newid hinsawdd

Cynadleddau a seminarau penodol sy'n mynd i'r afael â materion newid hinsawdd mewn parciau a gerddi hanesyddol

Creu canolfan/hyb gwybodaeth newid hinsawdd ar-lein a ddiwedderir yn rheolaidd a all atgyfeirio defnyddwyr at yr wybodaeth, y gweithgareddau, y rhwydweithiau diweddaraf, ac ati

Helpu i ddiweddarau cynlluniau rheoli fel eu bod yn mynd i'r afael â champau gweithredu newid hinsawdd ac arwyddocâd treftadaeth o fewn y cynllun cadwraeth

Mynediad at amser ymgynghoriaeth arbenigol (er enghraifft, mentora / monitro / cefnogaeth y gellid eu defnyddio i ddiwallu anghenion tymor byr)

Cymorth i gynnal asesiad / archwiliad o risgiau newid hinsawdd a all nodi camau gweithredu allweddol y gellir eu bwydo i mewn i gynlluniau rheoli

Tiwtorialau / fideos ar-lein yn rhannu gwybodaeth a phrofiad nid yn unig o lwyddiannau ond am yr hyn na weithiodd hefyd

Creu cysylltiadau gwell ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd

Parciau a gerddi hanesyddol: cefnogi'r gwaith o addasu i newid

Argymhellion
rhwydweithio, er enghraifft, cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer
rhwydweithiau allweddol penodol

Cynllun grantiau ar gyfer camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer ymateb i addasu i newid hinsawdd, er enghraifft, ailblannu borderi, atgyweirio nodweddion dŵr, gosod draeniau

Dod â'r rhwydweithiau, sefydliadau anllywodraethol arbenigol ac elusennau, asiantaethau niferus ynghyd i ddarparu ymagwedd fwy cydlynol at eu hamrywiaeth o gefnogaeth er mwyn osgoi dyblygu

31. Allwch chi awgrymu adnoddau eraill yr hoffech chi eu gweld dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i'ch helpu i ymateb i newid hinsawdd ar eich safle?

7. Diolch am eich amser, rydym yn gwerthfawrogi i chi gwblhau'r arolwg pwysig hwn.

32. Os byddech yn fodlon i ni gysylltu â chi gyda chwestiynau dilyn i fyny neu i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost isod:

Atodiad 3:

Rhestr o safleoedd a gymerodd ran

Abney Park	Llundain Fawr;
Alexandra Park	Llundain Fawr;
Arduaine Garden	Argyll a Bute;
Arley Hall Gardens	Swydd Gaer;
Ashridge House Gardens	Swydd Hertford;
Attadale Gardens	Ucheldiroedd Yr Alban;
Audley End House and Garden	Essex;
Beckenham Palace Park	Llundain Fawr;
Belsay Hall Castle and Gardens	Northumberland;
Palas yr Esgob	Sir Gâr;
Blenheim Palace Gardens	Swydd Rhydychen;
Gerddi Bodnant	Conwy;
Boughton Park	Swydd Northampton;
Bradgate Park	Swydd Gaerlŷr;
Branklyn Garden	Swydd Perth;
Brockwell Park	Llundain Fawr;
Brodie Castle	Moray;
Brodsworth Hall and Gardens	De Swydd Efrog;
Broughton House & Garden	Swydd Kirkcudbright;
Burley Park & Garden	Rutland;
Caerhays Gardens	Cernyw;
Castle Bromwich Historic Gardens and Parkland	Gorllewin Canolbarth Lloegr;
Chatsworth House	Swydd Derby;
Chelsea Physic Garden	Llundain Fawr;

Parciau a gerddi hanesyddol: cefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd

Chiswick House and Gardens	Llundain Fawr;
Clumber Park	Swydd Nottingham;
Crystal Palace Park	Llundain Fawr;
Culzean Castle and Country Park	Yr Alban;
Dawyck Botanic Garden	Ffiniau'r Alban;
Doddington Hall	Swydd Lincoln;
Down House	Llundain Fawr;
Dulwich Picture Gallery	Llundain Fawr;
Dyrham Park	De Swydd Gaerloyw;
Fieldend	Llundain Fawr;
Gilbert White's House and Gardens	Hampshire;
Glenwhan	Swydd Wigtown;
Greenbank Gardens	Dwyrain Swydd Renfrew;
Greenwich Park	Llundain Fawr;
Grimsthorpe Castle	Swydd Lincoln;
Haddon Hall	Swydd Derby;
Hammerwood Park	Dwyrain Sussex;
Harewood House	Gorllewin Swydd Efrog;
Hedingham Castle	Essex;
Heydon Estate	Norfolk;
Highgate Cemetery	Llundain Fawr;
Hillsborough Castle	Swydd Down;
Holker Hall and Gardens	Cymbria;
Holyrood Park	Caeredin;
Homme House	Swydd Henffordd;
Kenilworth Castle & Elizabethan Gardens	Swydd Warwick;
Kennington Park	Llundain Fawr;
Kensal Green Cemetery and West London Crematorium	Llundain Fawr;

Kew Gardens	Llundain Fawr;
Langtons Gardens	Llundain Fawr;
Levens Hall	Cymbria;
Linda Vista Gardens	Sir Fynwy;
Lister Park	Gorllewin Swydd Efrog;
Lloyd Park	Llundain Fawr;
Malleny Garden	Caeredin;
Marble Hill Park	Llundain Fawr;
Mount Stewart	Swydd Down;
Muncaster Castle	Cymbria;
Myatt's Fields Park	Llundain Fawr;
Nantclwyd y Dre	Sir Ddinbych;
New Place Gardens	Swydd Warwick;
Newhailes House and Gardens	Dwyrain Lothian;
Painshill	Surrey;
Painswick Rococo Garden	Swydd Gaerloyw;
Coed Dyffryn Penllergaer	Sir Gâr;
Castell Penrhyn	Gwynedd;
Pitmedden Castle	Swydd Aberdeen;
Polesden Lacey	Surrey;
Castell Powys	Powys;
Royal Botanic Gardens Kew	Llundain Fawr;
Regents Park	Llundain Fawr;
Rowallane	Swydd Down;
Ruskin Park	Llundain Fawr;
St Pauls Walden Bury	Swydd Hertford;
Stoke Poges Memorial Gardens	Swydd Buckingham;
Streatham Rookery	Llundain Fawr;
Sulgrave Manor	Swydd Northampton;

Atodiad 3

The Pineapple	Swydd Stirling;
The Retreat	Gogledd Swydd Efrog;
The Rookery Gardens	Llundain Fawr;
The Royal Botanic Garden Edinburgh	Midlothian;
The Walks	Swydd Gaerlŷr;
Threave Garden	Swydd Kirkcudbright;
Treowen	Sir Fynwy;
Tring Park	Swydd Hertford;
Victoria Park	Llundain Fawr;
Wallington House	Northumberland;
Walmer Castle and Gardens	Swydd Gaint;
WansteadPark	Llundain Fawr;
West Norwood Cemetery	Llundain Fawr;
Wicksteed Park	Swydd Northampton;
Gravetye Estate	Gorllewin Sussex;
Witley Court & Gardens	Swydd Gaerwrangon;
Wolterton & Mannington Estates	Norfolk;
Wrest Park	Swydd Bedford;
York Museum Gardens	Gogledd Swydd Efrog.